# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Tachwedd 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

## 09.00 - 09.30 - Cyfarfod anffurfiol

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017 - 18 - Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 90)

Llywodraeth Cymru

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Huw Morris - Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Steve Davies - Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Addysg

**Dogfennau atodol:**

Papur Ymchwil

CYPE(5)-10-16 - Papur | Paper 1

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

**Ymchwiliad i Waith Ieuenctid – gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 6 Hydref**

(Tudalennau 91 - 95)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-10-16 - Papur | Paper 2 - papur i'w nodi | paper to note

**Papur Cyllideb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon mewn ymateb i gais am wybodaeth gan y Pwyllgor**

(Tudalennau 96 - 111)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-10-16 - Papur | Paper 3 - papur i'w nodi | paper to note

**Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18**

(Tudalen 112)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-10-16 - Papur | Paper 4 - papur i'w nodi | paper to note

**Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Yr Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru**

(Tudalennau 113 - 117)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-10-16 - Papur | Paper 5 - papur i'w nodi | paper to note

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Trafodaeth ynghylch y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016 - 17

(11.10 - 11.20)

## 6 Ymchwiliad i Waith Ieuenctid - Ystyried y papur ar y materion allweddol

(11.20 - 11.50) (Tudalennau 118 - 143)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-10-16 - Papur | Paper 6 - preifat | private

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**CYPE(5)-10-16 – Papur 1**
**Ymateb gan : Llywodraeth Cymru**

**Teitl: Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft 2017-18 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y cynigion ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2017-18, a gyhoeddwyd ar 18 Hydref. Mae hefyd yn rhoi'r diweddaraf am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Cefndir

2. Mae Cyllideb Ddrafft 2017-18 yn rhoi cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddi refeniw a chynllun pedair blynedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn darpariaeth addysg yng Nghymru. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg ar y prif Grŵp Gwariant Addysg arfaethedig a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2017-18.

| | | | | | **£000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg - Crynodeb** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017- 18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21** |
| DEL Adnoddau | 1,445,445 | 1,490,899 | | | |
| DEL Cyfalaf | 175,768 | 100,813 | 128,061 | 135,745 | 143,890 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,621,213** | **1,591,712** | **128,061** | **135,745** | **143,890** |
| AME Adnoddau | -71,147 | -90,054 | | | |
| AME Cyfalaf | 414,050 | 491,871 | | | |
| **Cyfanswm AME** | **342,903** | **401,817** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm - Addysg** | **1,964,116** | **1,993,529** | **128,061** | **135,745** | **143,890** |

| **CRYNODEB DEL ADNODDAU £000** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17** | **Addasiadau Llinell Sylfaen** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | **Newidiadau 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** |
| DEL Adnoddau | 1,445,445 | -5,416 | 1,440,029 | 50,870 | 1,490,899 |
| DEL Cyfalaf | 175,768 | -74,955 | 100,813 | 0 | 100,813 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,621,213** | **-80,371** | **1,540,842** | **50,870** | **1,591,712** |

3. Adolygwyd ffigurau'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2016-17, gan dynnu unrhyw ddyraniadau untro fel rhan o'r gyllideb atodol honno neu gyllidebau blaenorol, a chynnwys unrhyw drosglwyddiadau parhaol o un Prif Grŵp Gwariant i'r llall. Mae hyn yn sicrhau y gellir gwneud cymhariaeth tebyg at ei debyg rhwng cyllidebau 2016-17 a'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.

4. Mae'r tabl canlynol yn dangos y cysoniad rhwng y Gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2016-17 a chyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig 2017-18 ar gyfer elfennau adnoddau a chyfalaf y Prif Grŵp Gwariant

| **DEL Adnoddau** | **£000** |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2016-17 | 1,445,445 |
| Dyraniad yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 - CCAUC | (10,000) |
| Buddsoddi i Arbed – Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr | 94 |
| Trosglwyddo cyllideb yn ôl o'r Prif Grŵp Gwariant yr Economi a Seilwaith ar gyfer Dysgu i Droseddwyr (trosglwyddwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2016-17) | 3,328 |
| Trosglwyddo o'r Prif Grŵp Gwariant yr Economi a Seilwaith ar gyfer Erasmus | 162 |
| Trosglwyddo o'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol (RSG) – i alluogi rhannu cymhorthdal athrawon rhwng pob ymarferwr | 1,000 |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18** | **1,440,029** |
| **DEL Cyfalaf** | |
| Cyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2016-17 | 175,768 |
| Dyraniad o gronfeydd cyfalaf a gedwir yn ganolog yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17 - prosiectau AB | (21,934) |
| Dyraniad o gronfeydd cyfalaf a gedwir yn ganolog yng Nghyllideb Derfynol 2016-17 - prosiectau AB | (10,000) |
| Trosglwyddo Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF) i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol (newid cyflwyniadol yn unig) | (43,021) |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18** | **100,813** |

5. O gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18, mae cyfanswm y dyraniad DEL Adnoddau ar gyfer Addysg wedi cynyddu £50.9 miliwn (3.5%). Nodir y symudiadau'n fanwl o dan y Camau Gweithredu perthnasol isod. Dyma symudiadau 2017-18 yn gryno:

| | **£000** |
|---|---|
| Dileu cymorth canolog â therfyn amser ar gyfer Her Ysgolion Cymru sy'n dod i ben yn 2016-17 | (15,000) |
| Cyllid o Gronfeydd Wrth Gefn er mwyn gallu parhau i gynnig y pecyn cymorth i fyfyrwyr cyfredol | 15,000 |
| Cyllid o Gronfeydd Wrth Gefn i wireddu ymrwymiad y llywodraeth i godi safonau mewn ysgolion | 20,000 |
| Cytundeb o ran y gyllideb - cyllid i liniaru'r pwysau ym meysydd Addysg Bellach ac Addysg Uwch, i wella cydweithio a chysylltiadau strategol rhwng AU ac AB ac i ddechrau gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond | 30,000 |
| Cytundeb o ran y gyllideb - cyllid i ddatblygu ymhellach y cynllun Cymraeg i Oedolion | 5,000 |
| Adnoddau anariannol ychwanegol ar gyfer Cymwysterau Cymru a CCAUC | 108 |
| Toriad net i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg - swm wedi'i drosglwyddo'n ôl i'r Cronfeydd Wrth Gefn | (4,238) |
| **DEL Adnoddau – cynnydd net** | **50,870** |

6. Nid yw’r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 o £100.8 miliwn ar gyfer y gyllideb gyfalaf yn 2017-18 wedi newid, er bod cynnydd arfaethedig yn y dyfodol o £27.2 miliwn (2018-19), £34.9miliwn (2019-20) a £43.1 miliwn (2020-21). Prif ddiben y cynnydd hwn yw galluogi buddsoddiad mewn seilwaith i gefnogi’r Cynnig Gofal Plant a fydd yn cael ei gyflwyno ar y cyd â’r Rhaglen i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif o 2018-19.

7. Mae’r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau myfyrwyr a arweinir gan alw ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macroeconomaidd eraill ac felly yn anodd ei rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn a chaiff ei chyllido'n llawn. Mae'r gyllideb yn cynyddu £58.9 miliwn ar gyfer 2017-18.

8. Cyhoeddwyd cynlluniau cyllideb lefel y camau gweithredu ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar 18 Hydref. Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder, ceir dadansoddiad o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad A. Mae’r adroddiad yn rhoi manylion dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17, alldroeon rhagamcanol 2016-17 ac alldroeon terfynol 2015-16. Yn unol â chais y Pwyllgor, rydym wedi uwcholeuo (yn wyrdd) unrhyw Linellau Gwariant yn y Gyllideb y trosglwyddwyd cyllid allan ohonynt yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2016-17, yn sgil ail-alinio â phortffolios newydd y llywodraeth, ac mae ffigurau alldroeon ar gyfer 2015-16 wedi cael eu diwygio fel bod modd eu cymharu â chyllideb ddrafft 2017-18.

**Cyd-destun y Gyllideb – yn cynnwys Blaenoriaethau Addysg**

9. Pennwyd y gyllideb hon eto yng nghyd-destun cyfnod anodd ac ansicr. Mae'r holl benderfyniadau a wynebwn yn anodd. Nid oes unrhyw atebion hawdd ac nid oes unrhyw fodd i ni amddiffyn gwasanaethau rhag effaith y toriadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu gwariant.

10. Cyhoeddwyd Rhaglen Lywodraeth newydd, *Symud Cymru Ymlaen*, ym mis Medi 2016. Mae’n amlinellu sut bydd y llywodraeth hon yn sicrhau swyddi gwell a mwy ohonynt drwy gyfrwng economi gryfach a thecach, yn gwella ac yn diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Mae’r blaenoriaethau’n cael eu datblygu ar sail pedair thema drawsbynciol a fydd yn creu’r fframwaith ar gyfer sut byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau:
   - Ffyniannus a diogel
   - Iach ac egnïol
   - Uchelgais a dysgu
   - Unedig a chysylltiedig

11. Mae’r portffolio Addysg yn gyfrifol am ddatblygu nifer o’r blaenoriaethau yn Symud Cymru Ymlaen, yn bennaf o dan y thema ‘Uchelgais a dysgu’ sy’n rhoi blaenoriaethau clir ar gyfer cyflwyno addysg yng Nghymru.

12. Diwygio addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol. Drwy weithio gyda'n gilydd byddwn yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf. Rwyf wedi cytuno, gyda'r Prif Weinidog, ar ddeg blaenoriaeth ar gyfer addysg yng Nghymru, sydd bellach yn flaenoriaethau allweddol yn *Symud Cymru Ymlaen*:

- Lleihau maint dosbarthiadau babanod;
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy ehangu'r Grant Amddifadedd Disgyblion;
- Blaenoriaethu mynediad ysgolion at fand eang cyflym iawn fel rhan o'r rhaglen genedlaethol;
- Cymell, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth addysgu fel y gallwn ni godi safonau ledled y sector;
- Hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i a thrwy addysg bellach ac uwch, a swyddogaethau cenedlaethol, rhyngwladol a dinesig ein sefydliadau addysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd llawn amser a rhan-amser a fydd yn elwa dysgwyr o bob oed, cyflogwyr a chymunedau;
- Adolygu effaith y polisi cyfredol ar leoedd gwag mewn ysgolion, gyda phwyslais ar ysgolion gwledig, er mwyn rhoi mwy o ystyriaeth i dueddiadau twf y dyfodol;
- Ymgynghori ymhellach ar argymhellion penodol adolygiad Hazelkorn;
- Edrych ar y posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach;
- Blaenoriaethu cymorth ar gyfer gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, galluogi arloesedd ac entrepreneuriaeth ar draws ein sectorau cyhoeddus a phreifat ar y cyd â'n prifysgolion a'n colegau; a
- Bod argymhellion Adolygiad Diamond yn cael eu hystyried, gyda'r nod o weithredu'n gynnar lle bo'n briodol, ond ni fydd unrhyw effaith negyddol ar y gyllideb addysg uwch os bydd unrhyw newidiadau.

13. O ran blaenoriaethu, mae cyflawni mewn perthynas â'r holl ymrwymiadau yn parhau i fod yr un mor bwysig. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl y bydd ein polisïau i gyd yn helpu i godi safonau a chau rhagor ar y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rheini o ardaloedd mwy llewyrchus. Mae cynigion y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer y gyllideb hon yn adlewyrchu ein strategaeth i alinio cyllid i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, gan fod yn realistig wrth wneud hynny a sicrhau digon o hyblygrwydd yn sgil y wasgfa barhaus ar gyllidebau.

14. O ganlyniad i gytundeb ar y Gyllideb gyda Plaid Cymru, rydym wedi sicrhau £30 miliwn ychwanegol yn 2017-18 i gefnogi blaenoriaethau, a gwella cydweithio a chysylltiadau rhwng addysg bellach ac addysg uwch. Mae £15 miliwn arall wedi cael ei fuddsoddi i gynnal y trefniadau cymorth i fyfyrwyr cyfredol cyn gweithredu'r newidiadau a argymhellir yn Adolygiad Diamond. Mae £20 miliwn o gyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu yn 2017-18 fel rhan o'r adduned i ddarparu £100 miliwn dros dymor y llywodraeth hon i wella safonau ysgolion. Bydd y cyllid hwn yn cael ei fuddsoddi i gefnogi ein blaenoriaethau addysg allweddol.

15. Rwyf wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft i drafod fy mlaenoriaethau ar gyfer y portffolio Addysg. Fodd bynnag, yn sgil y setliad anodd ar gyfer y gyllideb, bydd rhai o fy mlaenoriaethau yn cael eu hariannu drwy adolygu ac ail-flaenoriaethu adnoddau cyfredol yn y Prif Grŵp Gwariant (yn cynnwys y cynnydd o £4.5 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion). Mae manylion pellach ar gyllid a ddyrannwyd i gefnogi fy mlaenoriaethau addysg wedi'u cynnwys yn y crynodeb ar lefel camau gweithredu ac adran meysydd penodol y papur hwn.

16. Yn sgil y pwysau ariannol cynyddol, comisiynwyd yr Athro Ian Diamond gennym i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr yn 2014. Un o flaenoriaethau allweddol yr adolygiad oedd ystyried cynaliadwyedd ariannol hirdymor y system Addysg Uwch. Cyhoeddwyd casgliadau'r adolygiad ar 27 Medi a byddant yn helpu i lywio camau nesaf cyllido addysg uwch yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hymateb ffurfiol i'r adroddiad ar ôl gorffen trafodaethau gyda CaTHEM a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am oblygiadau ymarferol rhoi ein cynigion ar waith. Yn y cyfamser, mae gwariant ar y grant ffioedd dysgu yn parhau i gynyddu bob blwyddyn. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys trosglwyddiad ychwanegol i adlewyrchu cost ragolygol y Grant Ffioedd Dysgu yn ogystal ag arbedion sydd wedi'u gwneud yng nghyllidebau grant dysgu Llywodraeth Cymru. Er hynny, ac er mwyn adlewyrchu pwysau ar gyllidebau CCAUC, mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i CCAUC ar gyfer 2017-18. Bydd y dyraniad hwn yn gwrthbwyso lleihad yn y cyllid ar gyfer blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, rhan-amser, ymchwil o ansawdd (QR) a phremiwm pynciau drud ac mae'n adlewyrchu'r ffaith fod y cyngor cyllido yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros ryw elfen o broses ddynodi'r dyfodol yng Nghymru. Bydd y llywodraeth yn gofyn am i gyllid gael ei dargedu at wella cydweithio a chysylltiadau strategol rhwng AU ac AB ac at ddechrau'r broses o weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond.

## Crynodeb ar lefel camau gweithredu

17. Yn unol â chais y Pwyllgor, isod rhoddir crynodeb o newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn ôl camau gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn. Fel y nodir ym mharagraff 3, mae'r crynodeb yn adlewyrchu newidiadau o'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 fel bod modd gwneud cymhariaeth ystyrlon.

***Camau Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd***

| 2017-18 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 4,456 | - | 4,456 |

18. Mae'r gyllideb yn ariannu amrywiaeth o ymyriadau i gefnogi'r agenda o wella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Nid oes newid i’r gyllideb hon ar gyfer 2017-18 yn sgil y flaenoriaeth a roddir i lythrennedd a rhifedd o ran ein galluogi i ddatblygu system addysg sy’n hunanwella.

19. Mae'r cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu’r camau yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn benodol; fodd bynnag, caiff llythrennedd a rhifedd eu hymgorffori ar draws y broses o weithredu polisïau addysg. Mae’r gyllideb yn cynorthwyo gyda datblygu a chyflwyno Profion Darllen a Rhifedd hefyd.

20. Mae’r cymorth sydd ar gael ar gyfer llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael ei gyflwyno mewn dull effeithiol ac effeithlon gan gonsortia drwy’r Grant Gwella Addysg - mae blaenoriaethau llythrennedd a rhifedd wedi’u cynnwys yn ei gylch gwaith. Mae hyn yn ychwanegu’n helaeth at gyfanswm y cymorth sydd ar gael i helpu gyda’r sgiliau hyn mewn ysgolion.

***Cam Gweithredu’r Cwricwlwm***

| 2017-18 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 32,550 | (16,849) | 15,701 |

21. Mae’r cam gweithredu hwn yn cynnwys y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gwaith polisi yn unig, mae’r cyllid cyflawni bellach wedi’i gynnwys o fewn y Grant Gwella Addysg o fewn y Cam Gweithredu Safonau Addysg), y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adolygu'r Cwricwlwm a Her Ysgolion Cymru. Mae’r gyllideb yn gostwng £16.8 miliwn o gymharu â’r llinell sylfaen.

22. Y prif reswm am y gostyngiad yw addasiad yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adolygu’r Cwricwlwm a Her Ysgolion Cymru i gael gwared ar y cymorth canolog â therfyn amser gwerth £15 miliwn ar gyfer Her Ysgolion Cymru sy’n dod i ben yn 2016-17. Rhoddir y diweddaraf ar y rhaglen Her Ysgolion Cymru yn yr adran meysydd penodol isod.

23. Mae’r cyllid i gynorthwyo gyda’r gwaith o weithredu *Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, yn parhau yn £5.4 miliwn i gydnabod ein hymrwymiad i ddylunio, datblygu a chyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru erbyn 2018.

24. Wrth i ni fwrw ati i ddatblygu’r cwricwlwm newydd, rydym yn edrych ar ymgorffori meysydd sydd wedi cael eu cyllido’n benodol yn y gorffennol, fel Addysg Gorfforol a gwyddoniaeth, fel y gallwn dapro rhai o’r prosiectau hyn. Mae’r gyllideb ar gyfer Techniquest wedi lleihau £0.2 miliwn i adlewyrchu’r cytundeb i ddiddymu cyllid craidd i Techniquest (TQ) a Techniquest Glyndŵr (TQG) dros y pedair blynedd ariannol nesaf. Nod y cyfnod pontio yw helpu TQ

a TQG i symud at fodelau busnes newydd. Mae'r gyllideb Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol yn lleihau £0.5 miliwn. Bydd y Fframwaith Llythrennedd Corfforol yn cael ei ystyried gan ysgolion Arloesi wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'r gyllideb cymorth TGAU wedi lleihau £1 miliwn ar ôl cyflwyno TGAU newydd yn raddol rhwng 2015 a 2017.

***Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth***

| 2017-18 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 22,221 | (2,490) | 19,731 |

25. Mae'r ffigur llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 yn cynnwys £1 miliwn sydd wedi'i drosglwyddo o'r Grant Cymorth Refeniw at ddibenion y cymhorthdal ar gyfer ffioedd cofrestru athrawon. Yn 2015, ad-drefnwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i greu Cyngor y Gweithlu Addysg. Yn sgil hyn cafodd cofrestru proffesiynol ei ehangu i gynnwys athrawon Addysg Bellach (AB) sy'n gweithio mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Ers hynny mae cofrestru proffesiynol wedi cael ei ehangu ymhellach i gynnwys pob Gweithiwr Cymorth Dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion a sefydliadau AB yng Nghymru. Bydd y trosglwyddiad yn golygu bod modd rhannu'r cymhorthdal ar gyfer ffi cofrestru athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg rhwng pob ymarferydd addysgu.

26. Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys y cyllid ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr addysgu proffesiynol. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys ariannu Ysgolion Arloesi, a bydd cyllid yn aros ar y lefel gyfredol o £5.65 miliwn. Bydd cynnal lefelau'r gyllideb fel ag y maent yn sicrhau bod y rhaglen gyffredinol i ddiwygio'r cwricwlwm yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus a hefyd yn sefydlu rhwydwaith cenedlaethol cryf o ysgolion arloesi i gynorthwyo gyda datblygu'r cwricwlwm a datblygu'r gweithlu er mwyn cyflwyno Cwricwlwm newydd o 2018 ymlaen.

27. Rydym yn cychwyn ar raglen fawr o newidiadau yn ein system addysg ac mae Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yn rhan annatod o hyn. Gwyddom fod gwendidau yn y system gyfredol ac mae'n gyfnod allweddol i ni ystyried pob agwedd ar y gwaith o recriwtio, cadw a datblygu athrawon. Mae'n bwysig ystyried sut rydym yn datblygu cynnig unigryw i bobl sy'n dechrau ar yrfa addysgu yng Nghymru. Mae angen ystyried y rhaglen ar gyfer athrawon sy'n israddedigion, ôl-raddedigion a graddedigion ynghyd â'r cymhellion sydd ar gael ar hyn o bryd fel y gallwn nid yn unig ddenu ond hefyd cadw a datblygu athrawon o safon.

28. Mae'r gyllideb yn adlewyrchu ein bwriad i beidio ag ail-dendro ein rhaglen hyfforddiant i raddedigion sydd dan ofal Teach First ar hyn o bryd. Er bod gan y rhaglen hon ei manteision, mae'n parhau i fod yn ddrud ac mae'r niferoedd sy'n cwblhau'r rhaglen wedi bod y siomedig. Bydd y cohort olaf yn cael cymorth hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2018. Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau gyda

Teach First ynghylch opsiynau i gydweithio yn y dyfodol. Yn sgil peidio ag ail-dendro, bydd y Rhaglen Athrawon Graddedig ar raddfa lai yn cael ei datblygu a'i gwella i ategu'r Rhaglen i Newid Addysg Gychwynnol Athrawon.

29. Er bod cymhellion i addysgu yn denu myfyrwyr, gwyddom hefyd nad ydynt yn ffordd effeithiol o gadw athrawon, ac mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu lleihad o £1.75 miliwn yn y gyllideb ar gyfer cymhellion i athrawon. Rydym wedi comisiynu adolygiad cyflym i edrych ar hyn yn fanylach a bydd yn adrodd ym mis Rhagfyr. Bydd Hyfforddiant Addysg Gychwynnol Athrawon yn y dyfodol yn rhan fwy annatod o'n rhaglen datblygiad proffesiynol, ein hacademi arweinyddiaeth, a'r gwaith a wneir gan ysgolion arloesi ac a gefnogir gan gonsortia – a chaiff ei ariannu fel rhan o'r gwaith parhaus hwnnw.

***Cam Gweithredu Cymwysterau***

| **2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000** | **Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000** | **2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000** |
|---|---|---|
| 8,169 | (27) | 8,142 |

30. Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu Cymwysterau Cymru a sefydlwyd ym mis Medi 2015. Mae'r rhan fwyaf o gyllid cymorth grant Cymwysterau Cymru yn mynd at gostau rhedeg y sefydliad (dros 70%), gyda'r gweddill yn talu am y gwaith ymchwil a datblygu mae'r corff yn ei wneud i ategu ei waith fel corff rheoleiddio.

31. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r trosglwyddiad i mewn rheolaidd o £0.2 miliwn o'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg. Mae'r cyfrifoldeb dros gomisiynu arholiadau Cymraeg i Oedolion a arferai gael ei wneud gan yr Uned Cymraeg mewn Addysg wedi cael ei drosglwyddo i Cymwysterau Cymru o 1 Awst 2016.

32. Mae'r gyllideb hefyd yn adlewyrchu toriad o 4% i gyllideb Cymwysterau Cymru ar gyfer 2017-18. Ceir rhagor o fanylion am Cymwysterau Cymru a sut mae'n bwriadu ymdopi â'r lleihad hwnnw yn yr adran meysydd penodol isod.

***Cam Gweithredu Addysg Ôl-16***

| **2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000** | **Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000** | **2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000** |
|---|---|---|
| 401,405 | 6,281 | 407,686 |

33. Mae ffigur y llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 yn cynnwys £0.162 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r Prif Grŵp Gwariant yr Economi a Seilwaith mewn perthynas â gweithgarwch Erasmus.

34. Mae’r cam gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol, darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, cymorth ar gyfer darpariaeth Sefydliadau Addysg Bellach (SAB), cymorth ar gyfer prosiectau a gweithgareddau gwella ansawdd, cyllid i gynorthwyo gyda darparu rhwydweithiau Seren sy’n cynorthwyo’r dysgwyr mwyaf disglair i fynd i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton; a gweithgareddau Erasmus i gynorthwyo staff a myfyrwyr i allu symud yn rhyngwladol.

35. Mae’r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 wedi cynyddu £6.281 miliwn o gymharu â’r gyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig, ac mae’r swm yn cynnwys dwy elfen. Yn gyntaf, £1.276 miliwn wedi’i drosglwyddo o’r Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ar gyfer cyllid Polisi Gyrfaoedd a Nawdd a Rhwydwaith Seren. Yr ail elfen yw cynnydd o £5.005 miliwn yng Nghyllidebau Addysg Bellach i gyfrannu at y pwysau o ran cyflogau a phwysau cysylltiedig sy’n wynebu’r sector.

36. Mae’r cyllidebau yn y cam gweithredu hwn bellach wedi cael eu huno mewn un llinell wariant yn y gyllideb er mwyn sicrhau rhagor o hyblygrwydd ym maes addysg ôl-16. Yn 2016-17 mae swm o £1.066 miliwn yn y llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer Polisi AB a Pholisi Prentisiaethau gyda gweddill y cyllid yn cael ei gadw yn llinell wariant yn y gyllideb Addysg Bellach.

***Cam Gweithredu Dewisiadau Addysgol a Gyrfaol***

| **2017-18** **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** **£000** | **Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb** **£000** | **2017-18** **Cyllideb Ddrafft** **£000** |
|---|---|---|
| 18,000 | - | 18,000 |

37. Mae’r cam gweithredu hwn yn darparu cyllid craidd i Gyrfa Cymru (CCDG) sy’n is-gwmni a chwmni cyfyngedig sydd ym mherchenogaeth lwyr Llywodraeth Cymru.

38. Mae dyletswydd statudol i roi gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ynghylch gyrfaoedd i bobl mewn ysgolion a cholegau. Mae Gyrfa Cymru’n cynnig gwasanaeth gwahaniaethol gyda chyfarwyddyd wyneb yn wyneb sy’n canolbwyntio ar grwpiau cleientiaid allweddol sy’n flaenoriaeth. Mae Gyrfa Cymru yn parhau i gynnig ystod o wasanaethau a chymorth i bobl ifanc ac oedolion trwy wahanol ddulliau, yn bennaf drwy wefan gyrfacymru.com, y llinell gymorth, cyfweliadau cyfarwyddyd wyneb yn wyneb ar gyfer grwpiau cleientiaid sy’n flaenoriaeth, gwaith grŵp mewn ysgolion yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol. Yn ystod 2015-16, cyflawnodd Gyrfa Cymru 144,286 o gysylltiadau un i un, 66,952 o sesiynau grŵp a 1,452,235 o sesiynau o’i wefan.

***Cam Gweithredu Addysg***

| 2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000 | 2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 108,883 | (4,497) | 104,386 |

39. Mae ffigur y llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 yn cynnwys tynnu'r dyraniad o £10 miliwn a ddyfarnwyd i CCAUC yng nghyllideb atodol gyntaf 2016-17.

40. Mae'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu Addysg Uwch yn gostwng £4.5 miliwn o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig y gyllideb. Mae'n cynnwys pedair elfen.

41. Yn gyntaf, trosglwyddo £24.1 miliwn allan i'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 mewn perthynas â'r Grant Ffioedd Dysgu. Symudodd y cyfrifoldeb a'r adnoddau cysylltiedig ar gyfer talu'r grant ffioedd dysgu i fyfyrwyr, drwy law'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, o CCAUC i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16. Mae'r swm hefyd yn cynnwys y gostyngiadau dilynol sy'n deillio o'r penderfyniad i leihau'r grant ffioedd dysgu a rhewi'r trothwyon incwm a hawl i grantiau ar gyfer Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru.

42. Yn ail, trosglwyddiad allan rheolaidd o £5.4 miliwn i'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

43. Yn drydydd, mae cynnydd o £25 miliwn wedi'i ddyrannu i CCAUC ar gyfer 2017-18. Bydd y dyraniad hwn yn gwrthbwyso lleihad yn y cyllid i gefnogi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, rhan-amser, ymchwil o ansawdd (QR) a phremiwm pynciau drud ac mae'n adlewyrchu'r ffaith fod y cyngor cyllido'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros ryw elfen o broses ddynodi'r dyfodol yng Nghymru. Bydd y llywodraeth yn gofyn bod cyllid yn cael ei dargedu at wella cydweithio a chysylltiadau strategol rhwng AU ac AB ac at ddechrau'r broses o weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond.

44. Yn olaf, cynnydd o £0.008 miliwn mewn costau dibrisio i adlewyrchu'r gwir gost i'r Cyngor Cyllido.

45. Rydym yn cydnabod bod gostyngiad i CCAUC y flwyddyn nesaf o hyd. Ond rydym wedi darparu £20 miliwn ychwanegol eleni ar gyfer cyfres o fesurau a ddylai gynorthwyo'r Cyngor a sefydliadau AU yng Nghymru i ymdrin â'r pwysau ariannol nawr ac yn y dyfodol wrth i ni ddechrau gweithredu argymhellion Adroddiad Diamond.

46. Yn y gorffennol mae'r gyllideb Addysg Uwch wedi cael ei rhannu dros bum Llinell Wariant yn y Gyllideb. Mae'r cyllidebau wedi cael eu cyfuno mewn un Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer dyrannu refeniw a Llinell Wariant yn y Gyllideb ar wahân ar gyfer y gyllideb dibrisio. Cafwyd cais i wneud hyn gan CCAUC a bydd yn cyflawni'r canlynol:

- Cyfuno’r pedair llinell gyfredol yn y gyllideb mewn un llinell yn y gyllideb sy’n cynrychioli’r cyllid gwirioneddol a fydd ar gael i CCAUC i ariannu AU yng Nghymru. Bydd hyn yn dod yn bwysicach gyda throsglwyddo’r grant ffioedd dysgu i Lywodraeth Cymru a gyda gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond yn y dyfodol;

- Caniatáu CCAUC i reoli cyllidebau yn fwy effeithiol heb ofyn am sêl bendith Llywodraeth Cymru i wario rhwng llinellau; a

- Gwneud CCAUC yn fwy atebol am ddyrannu ei gostau rhedeg i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

***Cam Gweithredu Safonau Addysg***

| 2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000 | 2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 137,529 | 19,271 | 156,800 |

47. Mae’r gyllideb yn cynyddu £19.3 miliwn yn 2017-18, yn bennaf o ganlyniad i £20 miliwn ychwanegol ar gyfer safonau ysgol, fel rhan o’n hadduned i ddarparu £100 miliwn o gyllid ychwanegol dros dymor y llywodraeth hon i godi safonau mewn ysgolion. Rhoddir y diweddaraf ar y buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn mewn safonau ysgolion yn yr adran ar feysydd penodol isod.

48. Y Grant Gwella Addysg yw rhan helaeth o’r Cam Gweithredu hwn o hyd a dyma’r prif gyllid grant sydd ar gael i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia o sicrhau gwelliannau mewn perfformiad ysgol. Er y bydd y grant yn gweld gostyngiad o £1 miliwn yn 2017-18, sef 0.75%, rydym yn parhau i fuddsoddi mwy na £133 miliwn drwy’r grant, ac mae hynny’n adlewyrchu ein hymrwymiad i flaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion. Bydd y grant yn parhau i gynnig hyblygrwydd i gonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion i dargedu’r cyllid i’r meysydd lle mae ei angen fwyaf. Er hynny, bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i symleiddio’r trefniadau ymhellach a lleihau costau gweinyddol a rheoli o sicrhau na fydd y gostyngiad hwn yn cael dim neu fawr ddim effaith ar ysgolion.

49. Mae’r gyllideb yn adlewyrchu hefyd i £0.5 miliwn gael ei drosglwyddo i’r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg i gefnogi’r gwaith o ymestyn Siarter yr Iaith Gymraeg ar sail genedlaethol. Mae’r Siarter wedi cael ei dreialu yn y gogledd dros dri chyfnod peilot.

50. Mae £1 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol wedi cael ei glustnodi yn y Cam Gweithredu hwn i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer maint dosbarthiadau (rhoddir rhagor o fanylion am faint dosbarthiadau yn yr adran meysydd penodol isod).

***Cam Gweithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion***

| 2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000 | 2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 89,246 | 4,500 | 93,746 |

51. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2012 fel rhan o gytundeb ar y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn gyfle allweddol i ysgolion roi cymorth wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol. Rwy'n siŵr i'r Pwyllgor nodi'r lleihad diweddar yn y bwlch cyrhaeddiad ar lefel TGAU rhwng myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Crëwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion i ddechrau am gyfnod o dair blynedd hyd at 2014-15, ond cafodd y cyllid ei ymestyn yng Nghyllideb Ddrafft 2014-15 am ddwy flynedd arall i gydnabod y pwys a roddir ar y grant hwn i helpu i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Mae llinell sylfaen 2016-17 wedi cael ei haddasu i adlewyrchu'r ffaith fod cyllid canolog ar gyfer y Grant yn symud i Brif Grŵp Gwariant Addysg o 2017-18.

52. Rwyf wedi dyrannu £4.5 miliwn pellach yn 2017-18 i gefnogi'r cynnydd yn elfen blynyddoedd cynnar y Grant, gan ddyblu'r cymorth sydd ar gael i blant tair a phedair oed cymwys o £300 i £600.

***Cam Gweithredu TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth***

| 2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000 | 2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 6,935 | (276) | 6,659 |

53. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r broses o ddarparu'r cwricwlwm drwy roi mynediad at amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau addysgu digidol o ansawdd uchel, yn cynnwys Hwb drwy'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol a JISC (rhwydwaith gwasanaeth a rennir yn y DU ar gyfer addysg ôl-16); prosiect Rhif Unigryw'r Dysgwr a systemau rheoli data mewnol.

54. Mae Dyfodol Llwyddiannus yn nodi pa mor bwysig yw llythrennedd digidol ar gyfer y cwricwlwm a dysgu yn yr 21ain ganrif, ond yn sgil setliad anodd y gyllideb, mae'r Cam Gweithredu hwn yn gweld gostyngiad bach. Bydd buddsoddi a chymorth strategol ar gyfer parhau i weithredu'r rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol yn flaenoriaeth o hyd, a gellir gwneud arbedion drwy leihau costau staffio heb effeithio ar ein gallu i gyflawni'r rhaglen waith a gytunwyd.

### *Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc*

| 2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000 | 2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 17,497 | 1,000 | 18,497 |

55. Mae'r rhan fwyaf o'r cam gweithredu hwn yn cyllido'r lleoliadau preswyl arbenigol ar gyfer myfyrwyr ôl-16 ag anawsterau dysgu difrifol. Mae'r cyllid hwn yn statudol ac yn cael ei arwain gan alw yn unol â dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Mae'r gyllideb yn cynyddu £1 miliwn yn 2017-18 i liniaru'r pwysau yn y maes hwn yn awr ac yn y dyfodol wrth i'r galw am ddarpariaeth fel hyn godi. Mae darpariaeth AB arbenigol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc anabl yn gallu manteisio ar addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion pan nad yw eu coleg lleol yn gallu diwallu eu hanghenion.

56. Rydym wedi parhau i ddiogelu cyllid ar gyfer y Cynllun Llaeth Ysgol yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfradd gymorthdaledig.

### *Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16*

| 2017-18<br>Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>£000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb<br>£000 | 2017-18<br>Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|
| 553,967 | 35,849 | 589,816 |

57. Mae'r gyllideb ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad yn y Cam Gweithredu hwn wedi cynyddu £34.8 miliwn o'r gyllideb llinell sylfaen i £467.3 miliwn. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen gymorth statudol i fyfyrwyr a arweinir gan alw ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau wedi'u Targedu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Mae £24.1 miliwn a drosglwyddwyd o'r Cam Gweithredu Addysg Uwch ar gyfer y Grant Ffioedd Dysgu. Cafodd y cyfrifoldeb dros dalu'r grant ffioedd dysgu i fyfyrwyr, drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, a'r adnoddau sy'n gysylltiedig â hynny, eu symud o CCAUC i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16. Mae'r swm hefyd yn cynnwys y gostyngiadau dilynol sy'n deillio o'r penderfyniad i leihau'r grant ffioedd dysgu a rhewi'r trothwyon incwm a'r hawl i gael grant ar gyfer Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru.

58. Rydym wedi parhau â’n hymrwymiad i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr o'r aelwydydd â'r incwm isaf i mewn i 2017-18 drwy gadw lefel gyffredinol y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr. Darparwyd £15 miliwn ychwanegol fel rhan o'r gyllideb i ateb y galw cynyddol am grantiau cymorth i fyfyrwyr, sydd i'w briodoli i gynnydd yn nifer y myfyrwyr a'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth.

59. Mae'r gyllideb ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg wedi gostwng £4.3 miliwn i adlewyrchu’r sefyllfa alldro ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 a’r gwariant rhagamcanol ar y gweithgarwch hwn ym mlwyddyn ariannol 2016-17. Ni fydd diwygiadau i’r cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg, y meini prawf cymhwysedd a’r hawl i grant o ganlyniad i’r gostyngiad hwn.

60. Mae’r gyllideb ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb costau gweinyddol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/CaThEM wedi cynyddu £1 miliwn. Bydd y cynnydd yn galluogi’r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i allu dechrau dylunio’r system a fydd yn gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond ac yn helpu i gynnal y gwasanaeth ar y lefel gyfredol, er gwaethaf cynnydd yn nifer y ceisiadau.

***Cam Gweithredu Ymgysylltu â Disgyblion***

| **2017-18** Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | **Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb £000** | **2017-18** Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 658 | (58) | 600 |

61. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at brosiectau bach a gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n agored i niwed / dan anfantais drwy wella llesiant, ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion; ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau; lleihau gwaharddiadau o'r ysgol; a gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg dysgwyr heblaw yn yr ysgol.

62. Mae gostyngiad bach yn y gyllideb ar gyfer 2017-18 y gellir ei gyflawni heb effeithio ar ymrwymiadau polisi craidd drwy sicrhau arbedion drwy gydweithio.

***Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid***

| **2017-18** Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | **Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb £000** | **2017-18** Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 9,981 | (1,442) | 8,539 |

63. Mae’r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 yn adlewyrchu’r trosglwyddiad o £3.3 miliwn o Brif Grŵp Gwariant yr Economi a Seilwaith ar gyfer Dysgu Troseddwyr.

64. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu nifer o grantiau i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru a chyflawni gweithgarwch i helpu i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) drwy weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae'r gyllideb yn gostwng £1.442 miliwn yn 2017-18 o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae hyn o ganlyniad i ddwy elfen yn bennaf. Yn gyntaf, trosglwyddo £1.276 miliwn i'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar gyfer polisi a nawdd a chyllid Rhwydwaith Seren. Yn ail, gostyngiad o £0.166 miliwn neu 2.5% i'r gyllideb sy'n weddill. Mae'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi gwneud cynnydd da – mae'r gostyngiad mewn cyllid yn adlewyrchu lleihad yn yr angen am weithgarwch uniongyrchol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith.

***Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg***

| 2017-18 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 18,681 | 10,550 | 29,231 |

65. Mae'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg yn cynyddu £10.6 miliwn ar gyfer 2017-18. Bydd rhan o'r cyllid ychwanegol hyn yn cefnogi datblygiad pellach Cymraeg i Oedolion, yn arbennig darparu cyrsiau Cymraeg i'r gweithle, a bydd rhan ohono'n cefnogi mentrau eraill i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Rhoddir ystyriaeth bellach i sut bydd y £5 miliwn ychwanegol yn cael ei ddosbarthu yn unol â blaenoriaethau'r Strategaeth Iaith Gymraeg newydd sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

66. Mae yna nifer o drosglwyddiadau rheolaidd a fydd yn effeithio ar y cam gweithredu hwn hefyd:

- £5.4 miliwn o'r Cam Gweithredu Addysg Uwch i ariannu gweithgareddau Coleg Cymraeg Cenedlaethol o 2017-18;
- £0.5 miliwn o'r Cam Gweithredu Safonau Addysg (Grant Gwella Addysg) i gyflwyno rhaglenni sy'n cynorthwyo defnydd anffurfiol o Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, sy'n cynnwys ymestyn Siarter y Gymraeg yn genedlaethol; a
- £0.2 miliwn i'r Cam Gweithredu Cymwysterau mewn perthynas â pharhau i ddarparu'r arholiadau Cymraeg i Oedolion drwy Cymwysterau Cymru.

67. Mae'r newid olaf yn ymwneud â gostyngiad o £0.150 miliwn yn y gyllideb. Byddwn yn mynd ati i leihau effaith y gostyngiad hwn ar y gwaith o gyflwyno ein hymrwymiadau ac rydym yn bwriadu rheoli'r arbedion ar draws y Llinell Wariant yn y Gyllideb wrth i ni fynd ati'n fanwl i gynllunio'n hymrwymiadau ar gyfer 2017-18. Bydd y rhan fwyaf o'r arbedion yn deillio o'r ffaith fod y contractau Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd sy'n weddill yn dod i ben. Bydd prosiectau i gefnogi gweithgarwch Ôl-16 yn cael eu hailystyried a bydd arbedion yn cael eu gwneud

o fewn y gweithgareddau hyn wrth i gontractau gael eu hadnewyddu i sicrhau'r arbedion.

***Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni***

| 2017-18 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y Gyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|
| 2,887 | (942) | 1,945 |

68. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido marchnata a chyfathrebu, gwaith ymchwil a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer rhaglen Remploy, sef cyllid o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg, ond mae'r polisi yn rhan o bortffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

69. Daw'r newid yn sgil lleihad mewn nifer o gyllidebau:

- £0.834 miliwn o gyllid ar gyfer Remploy ar sail ymrwymiadau rhagamcanol yn erbyn y cynllun ar gyfer 2017-18;
- £0.042 miliwn o'r gyllideb marchnata a chyfathrebu; a
- £0.066 miliwn i'r Rhaglen Addysg Ryngwladol, a fydd yn cael ei reoli drwy leihau gweithgarwch gyda'r Cyngor Prydeinig (yn amodol ar drafodaethau), ble mae modd dod â rhaglenni i derfyn naturiol.

***Cyfalaf – Cam Gweithredu Ystadau a Darpariaeth TG***

| 2017-18 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £000 | Newidiadau ac ail-flaenoriaethu yn y gyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb Ddrafft £000 | 2018-19 Cyllideb Ddrafft £000 | 2019-20 Cyllideb Ddrafft £000 | 2020-21 Cyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 100,813 | - | 100,813 | 128,061 | 135,745 | 143,890 |

70. Mae'r gyllideb hon yn cefnogi Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Bydd band A y rhaglen yn gweld mwy na £1.4 biliwn yn cael ei fuddsoddi dros y cyfnod o bum mlynedd sy'n dod i ben yn 2019. Bydd pob ardal awdurdod lleol yn elwa ar y rhaglen wella fawr hon, a fydd yn gyfrifol am ailadeiladu ac adnewyddu 150 o ysgolion a cholegau. Bydd y gyllideb hon yn cael ei defnyddio hefyd i gefnogi unrhyw gyllid cyfalaf sydd ei angen i gyflawni ein blaenoriaethau addysg, yn cynnwys maint dosbarthiadau a blaenoriaethu cyswllt band eang cyflym iawn ar gyfer ysgolion.

71. Ni chafwyd unrhyw newid i'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 o £100.8 miliwn ar gyfer y gyllideb gyfalaf yn 2017-18, er bod cynnydd ar y gweill yn y dyfodol, sef £27.2 miliwn (2018-19), £34.9 miliwn (2019-20) a £43.1 miliwn (2020-21). Nod y cynnydd hwn yn bennaf yw galluogi buddsoddiad mewn seilwaith i ategu'r Cynnig Gofal Plant a fydd yn cael ei gyflwyno ar y cyd â

Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif o 2018-19, gyda £20 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu bob blwyddyn o 2018-19. Mae gweddill y cynnydd yn ymwneud ag addasiad ar gyfer effaith chwyddiant.

**Monitro'r gyllideb**

72. Gan adeiladu ar waith a wnaed ar gyfer cyllidebau blaenorol, rydym wedi cynnal adolygiad llinell wrth linell barhaus o gyllidebau i weld sut gellir rheoli gostyngiadau pellach tra'n parhau i fyfyrio ar ein blaenoriaethau. Er ein bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd, nid yw ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru wedi newid ac mae'r cynlluniau gwariant rydym wedi'u cyhoeddi ar gyfer 2017-18 yn adlewyrchu hyn.

73. Bydd pob cyllideb yn parhau i gael ei monitro a'i herio'n fisol yn ystod 2016-17, er mwyn ystyried y rhagolygon a symudiadau cyllideb diweddaraf fel sydd angen. Rwy'n cael diweddariadau ariannol rheolaidd ar y rhagolygon ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg i sicrhau bod cyllidebau ar y trywydd cywir o hyd i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru.

**Gwariant Ataliol**

74. O fewn y portffolio Addysg, rydym yn parhau i roi adnoddau sylweddol i feysydd gwariant ataliol er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Bydd y rhaglenni ymyrraeth gynnar hyn yn effeithio ar blentyn yn gynnar yn ei ddysgu ac yn rhoi sylfeini cadarn iddo ar gyfer ei addysg barhaus a fydd yn ei dro yn gwella ei ragolygon yn y farchnad lafur.

75. Mae *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant,* a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2013, yn cydnabod bod buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar drwy addysg yn dylanwadu'n fawr ar ddatblygiad plentyn. Cytunir yn gyffredinol bod profiadau plentyndod cynnar yn hanfodol bwysig i ddatblygiad hirdymor plant a'u cyflawniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Dyna pam rydym yn parhau i ariannu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn cefnogi'r blynyddoedd cynnar, drwy'r Grant Gwella Addysg. Drwy ddarparu cwricwlwm statudol i bob plentyn 3 i 7 oed, nod y Cyfnod Sylfaen yw sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd gan eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial. Felly ystyrir bod y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion (y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Grant Gwella Ysgolion - £134 miliwn) yn ataliol, ac mae'n cyfuno cyllid grant ar gyfer nifer o feysydd eraill yn cynnwys y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, plant Sipsiwn a Theithwyr a phlant lleiafrifoedd ethnig.

76. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ymyriad allweddol ar gyfer atal tlodi, ac mae'n rhoi cyllid yn uniongyrchol i ysgolion fuddsoddi mewn ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad plant. Mae tystiolaeth sylweddol fod buddsoddiad sy'n mynd i'r afael â rhwystrau yn gynharach mewn addysg yn cael mwy o effaith ar ddysgwyr na buddsoddiad maes o law. Dyna pam ein bod yn buddsoddi £4.5 miliwn ychwanegol yn Grant Amddifadedd Disgyblion y

Blynyddoedd Cynnar yn 2017-18, gan ddyblu'r cymorth a rown i ddisgyblion tair a phedair oed sydd dan anfantais mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru.

77. Rydym wedi diogelu cyllid yn y Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd sy'n dod i gyfanswm o £4.5 miliwn ar gyfer 2017-18. Mae'r cyllid a ddarperir ar gyfer y profion darllen a rhifedd cenedlaethol wedi'i anelu'n benodol at lywio a chefnogi camau gweithredu ataliol ac ymyriadau cynnar o ran llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae'n fwy tebygol na fydd dysgwyr â lefel is o sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael gwaith ac mae hyn yn effeithio ar dwf economaidd. Gan fod y rhain yn sgiliau allweddol ar gyfer bywyd, a bod y diffyg sgiliau digonol yn rhwystro plant rhag cyrraedd eu llawn botensial, mae'r holl wariant ar brofion yn ataliol ynddo'i hun.

78. Mae'r broses o weithredu *Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes* yn ataliol yn ei hanfod. Drwy wella'r cwricwlwm, a'r ffordd y defnyddir y cwricwlwm i ategu addysgu a dysgu fel bod pobl ifanc yn cael y cyfle gorau i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddysgu ymhellach ac ymuno â'r byd gwaith fel cyfranwyr mwy cyflawn, gwell.

79. Ystyrir bod ein gwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a fydd yn buddsoddi bron i £2 biliwn mewn adeiladu ac ailwampio ysgolion, ysgolion cymunedol ac adeiladau coleg erbyn 2024, yn ataliol ei natur drwy sicrhau bod ein seilwaith ysgolion a cholegau yn cynnig amgylcheddau addas i'r diben i gyflwyno Cwricwlwm yr 21ain Ganrif. Nodau allweddol y rhaglen yw lleihau nifer yr ysgolion mewn cyflwr gwael sy'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon. Yn yr hirdymor, bydd cyllid ar gyfer adeiladu o'r newydd neu adnewyddu yn lleihau costau cynnal a chadw sydd wedi cronni, costau cynnal a chadw yn y dyfodol a chostau rhedeg refeniw drwy resymoli ystâd yr ysgol.

80. Lleihau anghydraddoldeb deilliannau addysgol rhwng grwpiau gwahanol yw un o'r prif amcanion y mae angen i ni eu cyflawni fel y gellir, yn y tymor canolog i'r hirdymor, godi plant a phobl ifanc allan o dlodi a lleihau'r tebygolrwydd na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu y byddant yn mynd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a rhoi'r cyfle gorau iddynt gael canlyniadau iechyd a bywyd gwell. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a ariennir o'r Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid – cyfanswm o £8.5 miliwn ar gyfer 2017-18, wedi'i seilio ar anghenion pobl ifanc ac atebolrwydd asiantaethau gwahanol, gan atgyfnerthu a chyflawni canlyniadau gwell i bobl ifanc.

81. Mae Addysg Bellach yn bwysig yn yr ymdrech i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) ac i gynyddu lefelau sgiliau pobl ifanc cyn iddynt fentro i'r byd gwaith. Mae tystiolaeth i awgrymu bod parhau ag addysg yn lleihau'r tebygolrwydd o droseddu neu aildroseddu.

82. Nod y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r gweithgarwch dysgu troseddwyr yw gwella sgiliau a chyflogadwyedd troseddwyr sy'n bwrw dedfryd yn y carchar ac yn y gymuned, gan wella'u sefyllfa yn y farchnad lafur. Mae gweithgareddau'n canolbwyntio'n benodol ar godi lefel sgiliau hanfodol ac ar weithio gydag unigolion â fawr ddim neu ddim sgiliau sydd heb gymryd rhan mewn dysgu ers

cryn amser o bosibl. Mae'n cael ei gydnabod yn eang fod symud pobl i waith yn cael effaith syfrdanol ar eu hiechyd a'u gallu i gymryd rhan mewn cymdeithas. Mae uwchsgilio, a gwella sgiliau hanfodol yn arbennig, yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr agenda Trechu Tlodi. Mae hyn yn cysylltu â strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru a bydd yn cael effaith ar leihau tlodi yng Nghymru.

**Effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE)**

83. Mae canlyniad refferendwm yr UE wedi creu rhagor o ansicrwydd ynghylch yr adnoddau fydd ar gael i Gymru yn y dyfodol. Mae Cymru'n un o fuddiolwyr net cyllid yr UE, gyda £650 miliwn yn dod i Gymru bob blwyddyn. Dyma gyllid hollbwysig o ran cefnogi twf a swyddi ledled Cymru, helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant, cefnogi busnesau, ysgogi arloesedd a helpu i adfywio cymunedau.

84. Mae'r Prif Weinidog wedi croesawu cadarnhad y Canghellor y bydd y Trysorlys yn rhoi sicrwydd ar gyfer pob prosiect strwythurol a buddsoddi a gymeradwyir cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Felly tan ein bod ni'n gadael yr UE yng ngwir ystyr y gair, bydd cyllid yn dod i Gymru fel cynt, sy'n golygu y gallwn fod yn weddol siŵr o gyllid hyd at 2020 ac y gallwn gymeradwyo prosiectau sy'n cael eu rhoi ar ddu a gwyn yn ystod y cyfnod hwnnw. Dyma ganlyniad cadarnhaol i Raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei hariannu o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cyfnod Sylfaen o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg.

85. Mae gwaith helaeth ar waith yn holl adrannau Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod ni'n sicrhau cymaint o ddylanwad â phosibl mewn trafodaethau yn y DU, ac yn nhrafodaethau ffurfiol yr UE, er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Gymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu clywed a'u diogelu. Bydd y camau hyn yn ein helpu i weld pa fesurau pontio fydd eu hangen a chanolbwyntio ar y rheini.

86. Wedi dweud hynny, nid wyf wedi anghofio am oblygiadau hirdymor gadael yr UE, ac mae'r angen i gymryd camau paratoadol yn flaenoriaeth bwysig o hyd. Mae gadael yr UE yn cyflwyno heriau sylweddol i'n prifysgolion a'n colegau yng Nghymru, yn cynnwys anawsterau sy'n gysylltiedig â:

- Diogelu incwm cyffredinol;
- Mynediad at rwydweithiau / rhaglenni a chyllid ymchwil; a
- Cheisiadau gan fyfyrwyr o'r UE / myfyrwyr rhyngwladol i brifysgolion yng Nghymru.

87. Rwyf wedi sefydlu Gweithgor Brexit AU sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector AU drwyddo draw. Mae aelodau'r grŵp yn benderfynol iawn o fynd i'r afael â'r heriau a manteisio ar gyfleoedd. Rwy'n croesawu ymateb y sector AU i chwarae rhan lawn yn y broses hon a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a gawn i helpu i wneud penderfyniadau cytbwys ar addasiadau i'r gyllideb yn y dyfodol a fydd yn cefnogi anghenion a gofynion y cyfnod pontio.

## Costau Deddfwriaeth

88. Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried ein rhaglen ddeddfwriaethol bresennol. Cyhoeddwyd tabl sy'n nodi'r costau ar gyfer 2017-18, sef costau deddfwriaeth a wnaed yn flaenorol a chostau disgwyliedig Biliau ar gam yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig neu'r cam deddfu, ochr yn ochr â naratif y Gyllideb Ddrafft (Atodiad E). Rhoddir diweddariad manylach ar gostau ein rhaglen ddeddfwriaethol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn isod.

### *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*

89. Derbyniodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013. Fel rhan o'r broses o'i gweithredu, ac fel y gweithredwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2013-14, trosglwyddwyd £21.8 miliwn o gyllid ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a brecwast mewn ysgolion i'r Grant Cynnal Refeniw o fewn Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Cymru o 2013-14 ymlaen. Mae'r cyllid hwn yn parhau i ffurfio rhan o ddyraniad y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2017-18.

90. O dan y Ddeddf, mae awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a daeth Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn statudol o fis Ebrill 2014. Bydd y broses o weithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau i gael ei hariannu drwy gyllid gan y Grant Gwella Addysg. Daw'r costau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo'r Cynlluniau o gostau rhedeg Llywodraeth Cymru.

91. O ran ymyrraeth ysgolion ac awdurdodau lleol, ni wyddom am unrhyw gostau sy'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Bydd swyddogion yn edrych o'r newydd ar y Canllawiau Ysgolion sy'n Peri Pryder, ond dim ond costau staff sy'n gysylltiedig â diwygio'r canllawiau hyn.

### *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014*

92. Cafodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn 2017-18.

### *Deddf Addysg (Cymru) 2014*

93. Mae Deddf Addysg (Cymru) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2014, yn ailenwi ac yn diwygio'r corff cofrestru presennol, sef Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, er mwyn creu Cyngor y Gweithlu Addysg, yn ymestyn y gofynion cofrestru, cymhwyso a hyfforddi ar gyfer y gweithlu addysg, ac yn darparu ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol yng Nghymru. Rydym wedi cytuno ar fodel ffioedd cofrestru gyda'r Cyngor a fydd yn sicrhau ei fod yn gwbl hunangynhaliol o fis Ebrill 2017 ymlaen.

94. Nid oes costau'n gysylltiedig â dyddiadau tymhorau ysgol ar wahân i gostau staffio ar gyfer Llywodraeth Cymru wrth gysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch dyddiadau eu tymhorau a, lle bo angen, ymgynghori ar y dyddiadau mae Gweinidogion Cymru yn cynnig eu pennu. Mae hyn yn cyd-fynd â'r wybodaeth a roddwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Ddeddf.

***Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015***

95. Ceir manylion am y Ddeddf hon yn yr adran ar Addysg Uwch isod.

***Deddf Cymwysterau (Cymru) 2015***

96. Cafodd y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â sefydlu Cymwysterau Cymru eu cyhoeddi yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Cymwysterau (Cymru) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 5 Awst 2015. Mae'r Ddeddf yn trosglwyddo cyfrifoldeb rheoleiddiol dros gymwysterau o Lywodraeth Cymru i Cymwysterau Cymru, a ddechreuodd ei swyddogaethau rheoleiddio ar 21 Medi 2015.

97. Mae'r ffigurau deddfwriaeth a gyhoeddwyd ochr yn ochr â naratif y Gyllideb Ddrafft yn dangos newid i gostau disgwyliedig Cymwysterau Cymru o'r rhai a gyhoeddwyd adeg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac maent yn dangos gostyngiad o 4% a wnaed i gyllideb Cymwysterau Cymru ar gyfer 2017-18. Ceir rhagor o fanylion am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer Cymwysterau Cymru o dan yr adran Cymwysterau isod.

***Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)***

98. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) cyn diwedd y flwyddyn. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi manylion costau a manteision cyffredinol y darpariaethau yn y Bil. Bydd y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei defnyddio i ariannu'r gwaith o gyflwyno a gweithredu'r Bil, a hynny trwy gyfrwng pecyn o weithgareddau sydd, gyda'i gilydd, yn creu'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhoddir rhagor o fanylion am Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr adran meysydd penodol isod.

***Deddfwriaeth arfaethedig ar ysgolion gwledig a lleoedd gwag***

99. Mae'r polisi ar leoedd gwag wedi'i gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol a wnaed o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013. Mae fy swyddogion wrthi'n diwygio'r Cod a bydd yn cael ei gyhoeddi at ddiben ymgynghori yn ei gylch yn fuan. Rwy'n awyddus i gryfhau'r polisi yn y Cod mewn perthynas ag ysgolion gwledig, a bydd angen i mi aros am ganlyniadau'r ymgynghoriad cyn penderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd parthed unrhyw ofynion deddfwriaethol posibl y gallai fod eu hangen.

***Deddfwriaeth y DU***

100. Ceir darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg mewn nifer o Ddeddfau Senedd y DU, sy'n cynnwys:

- *Deddf Menter 2016* – Yn ymwneud â hyrwyddo twf economaidd a mentergarwch; darpariaeth am weithio ar y Sul; a darpariaeth yn cyfyngu ar daliadau mewn perthynas â chyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Ni chafwyd unrhyw ddata hyd yma (ar lefel y DU nac ar lefel Gweinyddiaeth Ddatganoledig) felly ni fu unrhyw gostau hyd yma.

- *Deddf Mewnfudo 2016* – mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth am y gyfraith yn ymwneud â mewnfudo a lloches; darpariaeth am fynediad at wasanaethau, cyfleusterau, trwyddedau a gwaith drwy gyfeirio at statws mewnfudo; darpariaeth am orfodi deddfwriaeth benodol yn ymwneud â'r farchnad lafur; darpariaeth am ofynion iaith ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus; darpariaeth am ffioedd pasbortau a chofrestru sifil; ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

  *Yr elfen Gymraeg*
  Cafwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 15 Mawrth 2016 ar gyfer Rhan 7 sy'n ymwneud â gofynion iaith ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus. Yng Nghymru, mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod pobl sy'n cael eu cyflogi i ymdrin â chwsmeriaid yn rhugl yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nid oes cost i Lywodraeth Cymru oherwydd mae swyddogaethau datganoledig wedi'i heithrio o'r gofynion iaith.

  *Y tâl sgiliau*
  Daeth adran 85 i rym ddeufis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol – ar 12 Gorffennaf 2016. Bydd y Tâl Sgiliau Mewnfudwyr, y mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2017, yn cael ei godi ar gyflogwyr sy'n cyflogi mewnfudwyr mewn swyddi crefftus. Bydd y tâl yn £1,000 y flwyddyn ar gyfer pob gweithiwr cyflogedig, a chyfradd ostyngol o £364 ar gyfer sefydliadau bach neu elusennol, a'i nod yw lleihau nifer y busnesau sy'n cyflogi gweithwyr mudol a'u cymell i hyfforddi gweithwyr o Brydain i lenwi'r swyddi hynny. Gan nad yw'r tâl wedi'i gyflwyno, nid oes costau yng Nghymru hyd yma. Ni fu unrhyw drafodaeth bellach ynghylch sut bydd y cyllid yn dod i Gymru.

101. Yn ystod cyfnod Llywodraeth bresennol y DU, rydym hefyd wedi bod yn monitro nifer o Filiau'r DU a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines, y mae gennym ddiddordeb penodol ynddynt neu a allai effeithio ar y cylch gwaith Addysg yn anuniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Bil Addysg i Bawb
- Y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol
- Y Bil Gwrth-Eithafiaeth a Diogelu
- Y Bil Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol
- Y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil
- Bil Cymru

102. Wrth i'r Biliau fynd ar eu hynt drwy broses ddeddfwriaethol Senedd y DU, wrth i gymalau gael eu diwygio, eu tynnu a'u hychwanegu, byddwn yn parhau i weithio gyda Whitehall i ddeall y goblygiadau i'r Adran, yn cynnwys yr effaith gyllidebol lawn, os oes unrhyw effaith. Fodd bynnag, ar y cam hwn, rhagwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn rhai bach iawn ac y gellir eu talu o'r Prif Grŵp Gwariant os oes angen.

***Is-ddeddfwriaeth***

103. Nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol o ran costau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2017-18 o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth, gydag unrhyw gostau gweithredu'n cael eu talu o'r gyllideb bresennol ar gyfer costau rhedeg yr adran.

**Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill**

104. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw'r Asesiad ar wahân o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2017-18 yn ei chyfanrwydd ac ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg wedi cael ei gyhoeddi ar wahân, ond mae'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Unwaith eto mae hyn wedi ein galluogi i roi ystyriaeth lawn i anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygiad cynaliadwy, yn ogystal â'r ffocws ar gydraddoldeb a threchu tlodi.

105. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda Chyllideb Ddrafft 2017-18 (Atodiad F). Mae'n rhoi asesiad o effaith y gyllideb ar ysgolion, Addysg Ôl-16 ac Addysg Uwch o dan y thema uchelgais a dysgu yn *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021.*

106. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* i wella sut rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae ein cynigion ar gyfer y gyllideb wedi parhau i edrych ar sut gallwn sicrhau bod y pum dull o weithio yn ennill eu plwyf er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl, a mynd ati mewn ffordd integredig i ystyried yr effaith ar grwpiau gwarchodedig a chefnogi ffocws ar ein nodau cenedlaethol cyffredin. Mae pedwar diben y cwricwlwm, fel y'u nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus, sy'n disgrifio'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru, yn cefnogi diben a dyfodol cyffredin y Ddeddf ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor Cymru. Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni eraill yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried sut gallwn ni fuddsoddi nawr er mwyn atal camau gweithredu drutach yn y dyfodol.

107. Drwy drefniadau'r Grant Gwella Addysg rydym yn cydnabod mai ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu dysgwyr a phenderfynu ar y dull mwyaf effeithiol o sicrhau gwelliannau yn cynnwys dyrannu adnoddau i'r meysydd sydd eu hangen fwyaf. Rydym wedi cytuno ar set o ganlyniadau lefel uchel gyda chonsortia ac

awdurdodau lleol drwy'r grant, sy'n cynnwys gwella perfformiad dysgwyr sy'n perthyn i grwpiau penodol lle mae cyrhaeddiad yn bryder sylweddol, fel grwpiau lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr. Mae fy swyddogion yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n arwain y gwaith o ddarparu Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Gwasanaethau Addysg i Deithwyr drwy CCAC a'i is-grŵp Cynhwysiant, ac rydym yn cydnabod y gwaith clodwiw sy'n cael ei wneud ledled Cymru i helpu'r grwpiau agored i niwed hyn.

108. Drwy gloriannu tystiolaeth o'r effaith ar grwpiau gwarchodedig yn erbyn y pwysau arnom ni, rydym wedi ceisio canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau ar sail asesiad o'r effaith gadarnhaol fwyaf a lleihau unrhyw effaith negyddol lle mae modd. Mae'r £1 miliwn ychwanegol rydym wedi'i fuddsoddi yn y Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc, ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn colegau arbenigol annibynnol, yn helpu i gael effaith gadarnhaol ar nodweddion gwarchodedig oedran ac anabledd.

**Meysydd penodol**

109. Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar feysydd penodol yn unol â chais y Pwyllgor.

***Cyllid ar gyfer gwella ysgolion***

110. Wrth i ni gychwyn ar y diwygiadau mwyaf i fyd addysg yng Nghymru ers y 1940au, gan ddatblygu cwricwlwm newydd sydd wedi'i deilwra'n arbennig i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £100 miliwn ychwanegol i godi safonau ysgolion yn ystod y tymor hwn o'r Cynulliad. Bydd ein diwygiadau, sydd wedi'u llywio gan arfer gorau o bedwar ban byd, yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn gallu byw bywydau personol, dinesig a phroffesiynol llawn yn ein democratiaeth fodern.

111. Mae'r cyllid ar gyfer yr adduned o £100 miliwn yn fuddsoddiad ychwanegol a fydd wedi'i gynnwys yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg, ac mae £20 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg yn 2017-18. Bydd y cyllid hwn yn cael ei fuddsoddi yn ein blaenoriaethau allweddol.

112. Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch y ffordd orau o fuddsoddi'r arian hwn a byddaf yn aros i weld canlyniad adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. O'r cychwyn cyntaf rwyf wedi datgan yn glir y bydd ein polisïau addysg, i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid ac yn seiliedig ar dystiolaeth o'r DU a thramor. Bydd ein trafodaethau a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn darparu hynny.

113. Byddaf yn lansio fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun strategol i wella addysg yn gynnar y flwyddyn nesaf a fydd yn canolbwyntio ar bum amcan gwella: Llesiant, Addysgu a Dysgu, Y Cwricwlwm ac Asesu, Arweinyddiaeth a System Hunanwella. Bydd yn seiliedig ar y dystiolaeth a roddwyd gan y Sefydliad ar

gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn 2014 a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach ar ôl i mi gael ei adroddiad ar gynnydd hyd yma yn ddiweddarach eleni.

***Maint dosbarthiadau babanod***

114. Mae'r gwaith cwmpasu'n parhau, ac mae'n cynnwys edrych ar yr ysgolion hynny y mae 29 o fabanod neu fwy yn eu dosbarthiadau, gyda lefelau uchel o Brydau Ysgol am Ddim (FSM), ac sydd wedi'u categoreiddio fel ysgolion coch neu ambr. Mae'r gostyngiad arfaethedig hwn yn bolisi sy'n gysylltiedig â'n diwygiadau eraill a fydd yn creu lle i athrawon addysgu ac i ddisgyblion ddysgu ac yn rhoi mwy o gymorth i'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Bydd dyraniadau cyllideb yn cael eu pennu unwaith y bydd y gwaith cwmpasu wedi dod i ben. Fodd bynnag, gan gydnabod bod hon yn flaenoriaeth sy'n cael ei rhannu gan athrawon a rhieni, mae cyllid ychwanegol o £1 miliwn wedi'i glustnodi yn y Cam Gweithredu Safonau Addysg (BEL Grant Gwella Ysgolion).

***Lleihau effaith amddifadedd a thlodi***

*Torri'r cylch amddifadedd a thlodi a'i effaith ar gyflawniad addysgol*

115. Rwyf am greu amodau i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae ein diwygiadau addysg yn canolbwyntio ar godi safonau a chau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a'u cymheiriaid. Mae'r gred na ddylai ble mae rhywun yn byw na beth yw ei incwm effeithio ar allu'r unigolyn hwnnw i elwa ar addysg yn sail i'n hymagwedd. Byddaf yn parhau i leihau anghydraddoldebau a dileu rhwystrau i addysg. Mae parhau i geisio cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a'r rhai o ardaloedd mwy ffyniannus yn rhan annatod o'n cenhadaeth genedlaethol. Rwy'n disgwyl y bydd ein holl bolisïau yn helpu i godi safonau a mynd i'r afael â'r anghyfiawnder hwn.

116. Mae'r ffigurau dros dro diweddaraf ar gyfer 2015/16 (Hydref 2016) ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM) yn dangos ein canlyniadau uchaf erioed. Y lefel cyrhaeddiad eFSM dros dro ar Lefel 2 yn 2015/16 oedd 35.5%. Mae'r ffigur hwn dros 13 pwynt canran yn uwch nag ydoedd cyn cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) (2010/11). Mae ein dadansoddiad yn dangos bod y gyfradd wella ym mherfformiad dysgwyr eFSM wedi dyblu a mwy ers cyflwyno'r PDG yn 2012, gan godi o 1.1 pwynt canran y flwyddyn i 2.8 pwynt canran y flwyddyn. Rydym yn gwneud cynnydd go iawn, ond mae llawer o waith i'w wneud eto.

117. Dyna pam y bydd y PDG yn cael ei ehangu a'i ymestyn i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae'r ddarpariaeth estynedig hon yn dod â'n buddsoddiad yn y PDG i dros £90 miliwn yn 2017-18. Roedd helpu i gyflawni hyn o'r tu allan i'r llywodraeth yn un o'r cyflawniadau rwy'n ymfalchïo ynddo fwyaf ac, yn fy rôl fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, rwy'n fwy penderfynol nag erioed i wella cyfleoedd a safonau ar gyfer

ein dysgwyr mwyaf difreintiedig. Bydd y ffocws hwn o fudd i'r dysgwyr hynny ac yn codi safonau yn y maes.

118. Mae camau gweithredu trwy'r PDG ac ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru at gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig – *Ailysgrifennu'r Dyfodol* – yn parhau i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Rwy'n ystyried adfywio'r ymagwedd at PDG, ochr yn ochr â fersiwn newydd o *Ailysgrifennu'r Dyfodol*, i sicrhau'r effaith fwyaf posibl i wneud gwelliannau tymor hir cynaliadwy.

*Gwerthuso fforddiadwyedd, gwerth am arian ac effaith y PDG (gan gyfeirio at blant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu)*

119. Mae tystiolaeth gan Ipsos MORI/WISERD, Estyn ac eiriolwr Codi Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru (Syr Alasdair Macdonald) yn cefnogi'r farn bod y rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud penderfyniadau gwybodus a phriodol ynghylch sut i wario'r PDG.

120. Mae'r ffordd mae ysgolion yn gwario'r PDG yn newid. Mae ysgolion a oedd yn arfer buddsoddi arian mewn systemau monitro data bellach yn canolbwyntio ar ddarparu ymyriadau a hyfforddi a chyflogi staff sy'n fedrus yn yr ymyriadau hyn.

121. Mae'r PDG yn cael ei werthuso'n annibynnol gan Ipsos MORI a WISERD. Maent wedi cyhoeddi dau adroddiad gwerthuso hyd yma (cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2014 a'r ail ym mis Rhagfyr 2015) sy'n darparu tystiolaeth o'r newidiadau sy'n cael eu gwneud mewn ysgolion o ganlyniad i'r grant.

122. Ar gyfer y drydedd flwyddyn werthuso (blwyddyn academaidd 2015/2016), mae'r contractwyr wedi adnewyddu'r dadansoddiad o effaith Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Bydd y contractwr yn anfon drafft cyntaf yr adroddiad terfynol atom ym mis Hydref 2016, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad yn y Flwyddyn Newydd.

123. Ers mis Ebrill 2015, mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi rheoli'r PDG i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd hyblyg fel y gall consortia gefnogi plant wedi'u mabwysiadu neu blant sy'n destun gwahanol gorchmynion preswylio. Nod y trefniadau hyn yw targedu cymorth mewn ffordd strategol fel bod plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu yn derbyn yr ymyriadau mwyaf priodol.

124. Bydd £3.8 miliwn o'r PDG yn cael ei fuddsoddi mewn gwella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu yn 2016-17. Mae hyn yn seiliedig ar nifer y plant sy'n derbyn gofal o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael cymorth ar gyfradd o £1,150.

125. Mae mesurau ar waith i werthuso gwariant y grant i sicrhau bod y trefniadau wedi'u rhoi ar waith gan gonsortia yn unol â'r bwriad a bod plant wedi'u mabwysiadu wedi'u hystyried ar gyfer cymorth ariannol lle bo hynny'n briodol.

126. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn amlwg wedi gwella, o gyfradd basio o 13% yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2013 i 18% yn 2015. Mae angen i ni barhau i wella fel hyn.

127. Mae'r strategaeth genedlaethol i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal mewn addysg – a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 – yn nodi meysydd allweddol ar gyfer gweithredu i gefnogi'r dysgwyr difreintiedig hyn yn well, gyda chymorth y PDG. Mae'r strategaeth yn un ar y cyd rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol i adlewyrchu'r berthynas gynhenid rhwng cyd-destun cymdeithasol y plentyn a'i gyrhaeddiad addysgol.

128. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â chynllun gweithredu sy'n amlinellu ein hymrwymiad i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'n cynnwys amserlen ar gyfer camau penodol i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol. Bydd cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n flynyddol a bydd partneriaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad i ddarparu gwell canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Rydym yn cadw ffocws clir ar y gwaith hwn.

129. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag Adoption UK (Cymru) dros y 18 mis diwethaf i geisio deall sut y gall teuluoedd sy'n mabwysiadu gael eu cefnogi'n well mewn ysgolion. Rydym eisoes wedi cynhyrchu fideo ar gyfer ysgolion i geisio codi ymwybyddiaeth o'r materion cymhleth mae plant wedi'u mabwysiadu yn eu hwynebu'n aml. Mae gwaith wedi cychwyn gydag Adoption UK (Cymru) i gynhyrchu canllawiau i wella hyder a gwybodaeth rhieni sy'n mabwysiadu fel y gallant fod yn bartneriaid effeithiol ochr yn ochr â staff yr ysgol i sicrhau bod plant wedi'u mabwysiadu yn cyrraedd eu potensial llawn.

*Ehangu'r PDG*

130. Gydag effaith barhaus penderfyniadau cyni Llywodraeth y DU a Chyllideb Cymru'n lleihau yn gyffredinol mewn termau real, rydym yn parhau i flaenoriaethu ysgolion. Mae'n glir bod rhaid i ni wneud i'n harian weithio'n galetach ac yn ddoethach i ni. Mae gan gyllid gyfraniad allweddol i'w wneud, ond galluogwr ydyw yn hytrach na chanlyniad ynddo'i hun.

131. Rydym wedi nodi'n glir yn y Rhaglen Lywodraethu newydd – *Symud Cymru Ymlaen* – bod angen i ni leihau anghydraddoldebau a dileu rhwystrau i addysg a sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd trwy PDG estynedig.

132. Ni fydd mwy o'r un peth yn parhau i sbarduno lefel y gwelliant rydym wedi'i weld hyd yma. Mae angen i ni ddysgu gwersi, esblygu ac arloesi. Byddaf yn parhau i ystyried ble i dargedu'r buddsoddiad trwy'r PDG er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl ar gyfleoedd addysgol a bywyd. Mae angen i ni barhau i adolygu tystiolaeth a dysgu o'r profiad i sicrhau bod y buddsoddiad trwy'r PDG yn cael yr effaith fwyaf posibl ar gyrhaeddiad dysgwyr.

133. Bydd y gwersi hyn yn cael eu hadlewyrchu yn *Ailysgrifennu'r dyfodol* ar ei newydd wedd. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ym

maes addysg i sicrhau bod yr ymagwedd newydd yn gallu cael mwy o effaith nag erioed ar gyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig.

*Darpariaeth y blynyddoedd cynnar*

134. Rwyf wedi cyhoeddi y bydd PDG y Blynyddoedd Cynnar (EYPDG) yn dyblu i £600 ar gyfer pob dysgwr tair a phedair oed cymwys, gyda £4.5 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi ar gyfer 2017-18. Bydd y buddsoddiad hwn o fudd i dros 15,000 o ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a safleoedd ledled Cymru.

135. Mae manylion sut y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei gyflwyno yn cael eu hystyried, ond rwy'n bwriadu cadw ein hymagwedd syml a thryloyw at y PDG. Byddaf yn cyhoeddi mwy o fanylion maes o law.

136. Fe lwyddon ni i gyflawni targed 2017 ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a'r rhai nad ydynt yn gymwys 10% o gymharu â ffigur 2012, dair blynedd yn gynnar (mae ffigurau 2015 yn dangos bod y ffigur wedi gostwng 19%).

137. Bydd targedau cenedlaethol i'w cyflawni erbyn 2017 yn parhau i ganolbwyntio ar gau'r bwlch yn y Cyfnod Sylfaen. Rydym am i 80% o ddysgwyr e-FSM 7 oed gyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ac i'r bwlch rhwng dysgwyr e-FSM a dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim leihau 34% (gwahaniaeth o 12%).

138. Rydym wedi comisiynu'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) i gynnal gwerthusiad o'r gwaith o weithredu EYPDG. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i ddealltwriaeth yr ysgol o ddiben y grant a sut mae gwahanol safleoedd wedi dewis ei ddehongli a'i roi ar waith. Bydd y gwerthusiad yn darparu gwybodaeth am ba mor ddefnyddiol yw EYPDG ac yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o gau'r bwlch cyrhaeddiad mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn y dyfodol.

139. Gyda EYPDG ond yn ei ail flwyddyn, mae'n rhy gynnar i werthuso'i effaith yn ffurfiol. Cyflwynwyd EYPDG mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith mai ymyrraeth gynnar sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf llwyddiannus, ond mae cyllid EYPDG dipyn yn is na chyllid y prif PDG.

140. Mae tipyn o ymchwil academaidd ac economaidd awdurdodol wedi'i gwneud ar y pwnc – yn bennaf gan yr enillydd Gwobr Nobel, yr Athro James Heckman – sy'n nodi bod meithrin datblygiad cynnar sgiliau gwybyddol a chymdeithasol mewn plant o dan 5 oed, yn enwedig y rhai o deuluoedd difreintiedig, yn arwain at ddinasyddion mwy galluog, cynhyrchiol a brwdfrydig.

***Her Ysgolion Cymru***

141. Mae Her Ysgolion Cymru yn cefnogi'r 39 ysgol sy'n wynebu'r heriau mwyaf yng Nghymru sydd, yn hanesyddol, wedi tanberfformio a chael trafferth cadw i fyny gydag ysgolion sy'n wynebu llai o heriau. Mae pob ysgol Llwybrau Llwyddiant

yn elwa ar becyn o gymorth sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion ysgolion cynradd y clwstwr. Y tu hwnt i'r 39 ysgol, mae'r rhaglen yn helpu i gynyddu'r capasiti ar draws consortia addysg rhanbarthol, fel rhan o ymdrechion i'n symud ni tuag at system ysgol sy'n gwella ei hun. Nod y buddsoddiad hwn mewn ymagweddau cydweithredol a gwaith partneriaeth yw sicrhau bod y rhaglen yn cael effaith ehangach ar wella ysgolion yng Nghymru.

142. Ar ôl eu blwyddyn gyntaf yn yr Her, nododd mwy na dwy o bob tair o'r ysgolion Llwybrau Llwyddiant welliannau ar Lefel 2 Cynhwysol. Gan edrych ar draws y rhaglen, gwelodd ysgolion Llwybrau Llwyddiant welliant o 3 phwynt canran ar gyfartaledd yn y mesur hwn. Er nad canlyniadau TGAU yw'r unig fesur o lwyddiant, maent yn ddangosyddion pwysig o welliant mewn perfformiad dros amser. Bydd data wedi'i ddilysu ar gyrhaeddiad ysgolion ar Lefel 2 Cynhwysol yn dilyn eu hail flwyddyn yn yr Her ar gael yn ddiweddarach eleni.

143. Mae cyllideb 2016-17 yn cynnwys darpariaeth i gefnogi trydedd flwyddyn Her Ysgolion Cymru hyd at fis Mawrth 2017. Fodd bynnag, mae'r cymorth canolog sydd â therfyn amser ar gyfer Her Ysgolion Cymru yn dod i ben yn 2016-17, felly nid oes yna ddarpariaeth gyllideb ar gyfer Her Ysgolion Cymru yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2017-18. Mae'r ysgolion Llwybrau Llwyddiant a chonsortia addysg rhanbarthol wedi datblygu eu cynlluniau gwella yn y cyd-destun hwn, a chawsant eu creu i roi strategaethau gadael a threfniadau pontio priodol ar waith o fis Ebrill 2017 ymlaen. Wedi dweud hynny, byddaf yn myfyrio ar ganlyniadau TGAU yr haf hwn mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant ar ôl i'r data wedi'i ddilysu gael ei gyhoeddi, ynghyd â thystiolaeth o'r gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen. Felly, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r hyn a ddysgir o Her Ysgolion Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sut y gall arfer da a ddatblygir fel rhan o'r Her gael ei gyflwyno er budd pob ysgol yng Nghymru a sut y gellir defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni fy mlaenoriaethau ar gyfer Addysg yn ystod tymor y llywodraeth hon. Bydd y ffrydiau hyn yn parhau i ddatblygu wrth i'r gwerthusiad o'r rhaglen adrodd ei ganfyddiadau. Bydd y dystiolaeth a gynhyrchir yn llywio sut rydym yn defnyddio'r £100 miliwn rydym wedi ei ymrwymo tuag at wella safonau ysgolion, gan gynnwys trwy fy nghynigion i gryfhau arweinyddiaeth, addysgu a dysgu.

***Lleoedd gwag ac ysgolion bach/gwledig***

144. Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i ddatblygu cynigion i fynd i'r afael â'r ymrwymiad i gytundeb blaengar. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer strategaeth i ysgolion bach a gwledig i gynnwys diffinio a chynhyrchu rhestr o ysgolion gwledig, a chryfhau polisi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â bod rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn gofyn am ymgynghoriadau mwy trylwyr a mwy o ystyriaeth i ddewisiadau amgen megis ffedereiddio. Mae'n debygol hefyd y bydd yn cynnwys datblygiad grant ysgolion bach a gwledig (sy'n debygol o gael ei ariannu o £100 miliwn) at ddibenion cefnogi gwaith ysgol i ysgol, caniatáu i'r gymuned ddefnyddio adeiladau a darparu cymorth gweinyddol mewn ysgolion lle mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu sylweddol fel rhan o'r amserlen i wella eu gallu i ddarparu arweinyddiaeth i godi safonau.

145. Mae cynigion eraill yn cysylltu ag argymhellion gynyddu gwaith ysgol i ysgol a ffedereiddio yn fwy eang ac i gryfhau arweinyddiaeth, yn yr achos hwn trwy wella gallu arweinwyr profiadol ysgolion gwledig i ddarparu arweinyddiaeth weithredol effeithiol i grwpiau o ysgolion gwledig.

***Gweithlu addysg***

146. Gall y proffesiwn addysgu ond gwneud cyfraniad go iawn at godi safonau yn ein hysgolion os bydd ein rhaglen addysg gychwynnol athrawon yn cynnig y sgiliau, y wybodaeth a'r brwdfrydedd sydd eu hangen ar athrawon y dyfodol i arwain y newid sy'n ofynnol. Mae adroddiad yr Athro John Furlong, *Teaching Tomorrow's Teachers*, yn hollbwysig fel rhan o'r rhaglen newid hon. Mae cyllidebau yn y BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon, sef Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon mewn Cyflogaeth, Grantiau Addysgu a Hyfforddi, Hyrwyddo Addysgu fel Gyrfa a'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, yn cefnogi'r rhaglen diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon (ITE) i wella ansawdd y ddarpariaeth a pharatoi athrawon y dyfodol i ddatblygu sgiliau addysgu fel bod dysgwyr yn gallu dysgu.

147. Mae'r gwaith a ddechreuwyd o dan faner *Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg* yn cael ei ailfrandio i ddatblygu portffolio o gymorth datblygiad proffesiynol a fydd yn gwella gallu'r gweithlu i gyflawni'r Cwricwlwm newydd, yn unol â'r weledigaeth a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, erbyn 2021. Bydd y mecanwaith darparu ar gyfer y gwaith hwn trwy'r rhwydwaith Ysgolion Arloesi a fydd yn cefnogi datblygiad y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu. Mae cyllideb o £5.65 miliwn wedi'i dyrannu ar gyfer y gwaith hwn, sy'n rhan o'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon. Mae hyn yn cynnwys cyllid o £2.25 miliwn a ddyrennir i gonsortia i ddatblygu y Cynnig Dysgu Proffesiynol cenedlaethol.

148. Mae cyllid ar gyfer cefnogi datblygiad strategaeth cynllunio'r gweithlu wedi'i gynnwys yng nghyllideb y Gweithlu Addysgu, sef £0.3 miliwn ar gyfer 2017-18, sy'n rhan o'r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon. Bydd hyn yn rhan annatod o'r ffrydiau casglu data a chynllunio'r gweithlu sy'n cael eu cyflawni gan dîm y gweithlu.

149. Mewn perthynas ag arweinyddiaeth, yn ddiweddar cyhoeddais fy mwriad i sefydlu "academi" arweinyddiaeth ac, er bod rhai egwyddorion eang o ran y weledigaeth ar gyfer y sefydliad newydd hwn wedi'u hamlinellu, mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu'r egwyddorion sylfaenol. Rwy'n bwriadu gwneud cyhoeddiad pellach yn ddiweddarach yn yr hydref ar y gwaith hwn. Mae CCAC a'r consortia rhanbarthol yn trafod ac yn gweithio gyda swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg ar y meddylfryd cychwynnol.

150. Mae ymchwil ryngwladol yn dangos mai dim ond addysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n cael mwy o ddylanwad ar ddysgu disgyblion nag arweinyddiaeth ysgol. Felly, mae angen i ni wella'r gallu i arwain yng Nghymru i alluogi dysgwyr yng Nghymru i gyrraedd eu potensial.

151. Fel yr amlinellais yn wreiddiol, rwy'n gobeithio sefydlu "academi" gysgodol yn ystod yr hydref eleni, a gobeithio y bydd dysgwyr yn cael mynediad at y system erbyn yr haf flwyddyn nesaf. Nid yr Academi ei hun fydd yn darparu'r gwasanaethau; yn hytrach, bydd yn broceru, cydgysylltu a sicrhau ansawdd rhaglenni arwain. Bydd y datblygiad hwn yn rhan o strategaeth ehangach dysgu'r gweithlu.

152. Y bwriad yw i'r cyllid ar gyfer yr Academi gael ei gymryd o'r £100 miliwn ar gyfer safonau ysgol, er nad yw penderfyniadau terfynol ynglŷn â dyraniadau wedi'u gwneud hyd yma.

***Cwricwlwm i Gymru***

153. Ein nod yw creu system addysg yng Nghymru a fydd yn datblygu plant a phobl ifanc cyfrifol sy'n cyflawni llawer. Byddwn yn gwneud hyn trwy wella'r cwricwlwm presennol a thrwy ddatblygu cwricwlwm newydd sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well. Byddwn yn datblygu'r gweithlu ymhellach, ar lefel genedlaethol, ranbarthol, ysgol leol ac ystafell ddosbarth, fel ei fod yn gallu arwain a darparu addysgu a dysgu rhagorol.

Mae *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* yn amlinellu'r wyth bloc adeiladu a fydd yn helpu i gyflawni hyn, sef:

- Ymgorffori'r pedwar diben
- Creu cwricwlwm newydd
- Ymestyn a hyrwyddo profiadau dysgwyr
- Datblygu ein cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd
- Galluogi'r Gymraeg i ffynnu
- Datblygu fframwaith asesu a gwerthuso newydd
- Meithrin gallu'r holl ymarferwyr ac arweinwyr
- Sefydlu system atebolrwydd cadarn ac adeiladol

154. Rhwng nawr a 2018, mae angen i ni gymryd amryw o gamau allweddol, sy'n cynnwys:

- Dylunio a datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd gyda'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi a'r Bartneriaeth Cymru Gyfan;

- Sicrhau slot deddfwriaethol i sicrhau bod y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn gallu dod i rym (ar gael erbyn 2018, a chael eu defnyddio i gefnogi dysgu ac addysgu erbyn 2021);

- Cefnogi diwygio addysg yn ehangach;

- Datblygu'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion i'w helpu i fod yn barod i ddefnyddio'r cwricwlwm newydd; ac

- Mewn partneriaeth â chonsortia, gweithio i ddatblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

155. Mae yna ddarpariaeth cyllideb o £11.05 miliwn yn 2017-18 i gefnogi diwygio'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys £5.4 miliwn yn Adolygiad y Cwricwlwm a'r BEL Her Ysgolion Cymru a £5.65 miliwn yn y BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon (ar gyfer ysgolion arloesi).

156. Bydd y cyllid ar gyfer diwygio'r cwricwlwm hyd at fis Medi 2021 yn canolbwyntio ar ddatblygu a gwireddu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd a gwella gallu'r proffesiwn i allu cefnogi dysgu ac addysgu. Ym mis Medi 2021, bydd y trefniadau newydd yn disodli'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd ac, er y bydd cymorth parhaus ar gyfer defnyddio'r cwricwlwm a datblygu'r proffesiwn, bydd hyn yn disodli'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol. Felly, rydym yn rhagweld y bydd diwygio'r cwricwlwm yn niwtral o ran cost yn y tymor hwy.

***Grant Gwella Addysg (EIG)***

157. Fel y nodwyd, rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ailflaenoriaethu cyllid yn y MEG Addysg, o ystyried y setliad cyffredinol heriol i Gymru. O ganlyniad, bydd gostyngiad o £1 miliwn yn y Grant Gwella Addysg i Ysgolion yn 2017-18, sy'n gyfystyr ag 0.75%.

158. Mae'r rhan fwyaf o'r grant yn cael ei basbortio i ysgolion. Mae'n bwysig cydnabod bod yr EIG eisoes yn adlewyrchu trefniant symlach a llai biwrocrataidd sy'n canolbwyntio i raddau mwy ar ganlyniadau na'r 11 ffrwd ariannu flaenorol, gyda chyfanswm cost gweinyddu a rheoli'r grant yn gostwng i 1% yn unig eleni.

159. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu y gallwn ni wneud mwy i symleiddio'r trefniadau a lleihau costau gweinyddol y grant ymhellach. Byddwn yn treialu Fframwaith Perfformiad Addysg yn ddiweddarach eleni i gynyddu'r ffocws ar ganlyniadau. Os bydd hyn yn llwyddiannus ac yn cael ei roi ar waith yn llawn flwyddyn nesaf, byddwn yn disgwyl iddo wireddu rhai arbedion ychwanegol dros amser. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion barhau i weithio gyda chonsortia ac awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw effaith ar ysgolion o ganlyniad i'r gostyngiad hwn yn cael ei lleihau neu ei lliniaru'n gyfan gwbl.

160. Nid ydym wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r EIG, ac ni chredaf y byddai hyn yn gosteffeithiol. Mae'r EIG yn cynrychioli ymagwedd fwy hyblyg at gyllid grant ar gyfer awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion sydd, o fewn y blaenoriaethau cenedlaethol rydym yn eu sefydlu, yn eu galluogi i gyflawni eu blaenoriaethau a diwallu eu hanghenion, sy'n amrywio rhwng rhanbarthau, awdurdodau lleol ac ysgolion.

161. Rhaid i ni ganolbwyntio ar ganlyniadau cyffredinol, ar ganlyniadau gwell ein dysgwyr, a cheisio deall sut mae'r cyllid grant hwn yn cyfrannu at gyflawni'r gwelliannau hynny. Yna, gallwn barhau i wella'r trefniadau a chefnogi ein hysgolion, trwy ein ALlau a'n consortia, i helpu eu dysgwyr i gyrraedd eu potensial.

162. Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, trwy gyfarfodydd rheolaidd, a'r rhwydwaith CCAC ac yn mynychu

cyfarfodydd cyd-bwyllgor a bwrdd cynghori consortia ac, wrth gwrs, mae'r trefniadau atebolrwydd a chraffu rhanbarthol yn cynnwys y broses adolygu a herio, a sefydlwyd i ddwyn cynnydd a chanlyniadau i gyfrif yn fwy eang. Rwy'n cadeirio sesiynau adolygu a herio'r hydref, sydd wedi cychwyn, ac rwy'n credu bod hon yn ffordd effeithiol i ni gynnal proses drafod ddwy ffordd lle mae Llywodraeth Cymru'n dwyn llywodraeth leol i gyfrif am gynnydd yn erbyn eu cynlluniau gwella ysgolion rhanbarthol, a lle gall pob rhanbarth godi unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda Llywodraeth Cymru.

163. Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, dros y blynyddoedd diwethaf cafwyd newid mawr ym maes addysg o ran gweithio gydag awdurdodau lleol ar y gwaith o gydadeiladu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol mewn partneriaeth â'i gilydd yn rhanbarthol.

164. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad gwerth am arian ar "Gwella Ysgolion trwy Gonsortia Addysg Rhanbarthol" ac, yn fwy diweddar, mae Estyn wedi cwblhau ei harolygiad o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae'r adroddiadau wedi nodi gwelliannau cadarnhaol yn narpariaeth ac effaith gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, er bod gwaith i'w wneud o hyd.

165. Mae amryw o amcanion y grantiau unigol blaenorol yn dal i fod yn berthnasol o dan yr EIG, megis darpariaeth y cyfnod sylfaen, gwella llythrennedd a rhifedd a helpu ysgolion i leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun yn newid ac yn cael ei ddiweddaru hefyd. Rhaid i'r EIG fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu ein blaenoriaethau wrth i ni symud ymlaen.

166. Byddaf yn lansio cynllun gwella addysg strategol wedi'i adnewyddu yn gynnar y flwyddyn nesaf a fydd yn canolbwyntio ar bum amcan gwella: Llesiant, Addysgu a Dysgu (Addysgeg), Cwricwlwm ac Asesu, Arweinyddiaeth a System sy'n gwella ei hun. Bydd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr OECD yn 2014 ac yn cael ei ddatblygu ymhellach pan fyddant yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd hyd yma i mi yn ddiweddarach eleni.

***Cymwys am Oes***

167. Mae Cymwys am Oes, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014, yn amlinellu gweledigaeth a nod strategol ar gyfer addysg yng Nghymru. Gan wireddu'r Ymrwymiadau i Weithredu, mae wedi dechrau cyflawni newid go iawn er budd pob un o'n dysgwyr. Mae'r cynnydd hwn yn darparu seiliau cadarn y gallwn ni adeiladu arnynt i'r dyfodol.

168. Byddaf yn lansio Cymwys am Oes wedi'i adnewyddu yn gynnar y flwyddyn nesaf a fydd yn canolbwyntio ar bum amcan gwella: Llesiant, Addysgu a Dysgu (Addysgeg), Cwricwlwm ac Asesu, Arweinyddiaeth a System sy'n gwella ei hun. Bydd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr OECD yn 2014 ac yn cael ei ddatblygu ymhellach pan fyddant yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd hyd yma i mi yn ddiweddarach eleni.

169. Mae’r gyllideb i gefnogi’r cynllun gwella addysg yn croesi amryw o Gamau Gweithredu: Llythrennedd a Rhifedd, Cwricwlwm, Addysgu ac Arwain, Cymwysterau, Addysg ôl-16, Safonau Addysg, Grant Amddifadedd Disgyblion, TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth, Lles Plant a Phobl Ifanc, Ymgysylltu â Disgyblion, Y Gymraeg mewn Addysg a Chymorth Darparu.

***Cymwysterau***

170. Roedd Argymhelliad 5 yn yr Adolygiad o Gymwysterau yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) sy’n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau gradd yng Nghymru. Sefydlwyd Cymwysterau Cymru yn 2015 ac mae’n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

171. Mae Cymwysterau Cymru’n cael ei ariannu’n llwyr gan Lywodraeth Cymru; mae’r rhan fwyaf o’r cyllid yn cael ei ddefnyddio i dalu costau rhedeg. Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau ei fod yn gallu cefnogi gostyngiad o 4% yn 2017/18. Er mwyn cyflawni hyn, mae Cymwysterau Cymru wedi ymchwilio i wahanol ffyrdd o leihau gwariant a diogelu gallu craidd Cymwysterau Cymru a’r rhan fwyaf o’r cymorth grant a ddarperir ar gyfer asesiad cyfrwng Cymraeg.

172. Mae Cangen Noddi Cymwysterau Cymru yn rhan o’r Is-adran Cwricwlwm o fewn Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Sefydlwyd y Gangen Noddi i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli’n ddoeth ar gyfer pobl Cymru ac i ddarparu goruchwyliaeth a gwaith craffu priodol ar, a help a chymorth i, Cymwysterau Cymru. Mae’r Gangen Noddi yn allweddol i reoli’r berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â’r rôl ariannu a llywodraethu, mae cynnal perthynas effeithiol yn hollbwysig i sicrhau ymgysylltiad polisi effeithiol rhwng swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru, a sicrhau’r cydbwysedd iawn rhwng her a chymorth.

173. Mae swyddogion o’r Gangen Noddi’n mynychu pob un o gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd Cymwysterau Cymru i arsylwi. Mae’r Gangen hefyd yn darparu’r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cyfarfodydd Monitro Chwarterol rhwng Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru; mae’r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Addysg. Yn ogystal â pharhau i fonitro hawliadau grant misol, mae’r Gangen Noddi a’r Pennaeth Cyllid yn Cymwysterau Cymru yn cyfarfod yn chwarterol i adolygu gwariant yn erbyn y gyllideb.

174. Mae’r Gangen Noddi’n trafod holl fusnes a gohebiaeth y llywodraeth sy’n ymwneud â gwaith Cymwysterau Cymru. Mae’r Gangen Noddi wedi datblygu a chytuno ar brotocol cyfathrebu gyda Cymwysterau Cymru. Bu’r Gangen Noddi’n cynllunio, cydgysylltu a rheoli ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Cymwysterau Cymru yn ystod cyfres arholiadau haf 2016. Ar hyn o bryd, mae’n cynllunio ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd 2016.

***Consortia rhanbarthol***

175. Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd newid mawr ym maes addysg o ran gweithio gydag awdurdodau lleol ar y gwaith o gydadeiladu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol mewn partneriaeth â'i gilydd yn rhanbarthol. Mae hwn yn waith llawn her ac mae'r trefniadau wedi cymryd cryn amser i ennill eu plwyf a dechrau cyrraedd eu potensial yn llawn. Cafodd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ei gydadeiladu gyda'n partneriaid, ac mae'n gweithredu fel y 'glasbrint' ar gyfer ein gwaith rhanbarthol.

176. Mae'r trefniadau grant wedi dilyn ac mae grantiau sy'n canolbwyntio ar wella ysgolion yn mynd trwy'r consortia rhanbarthol, gyda rhai rhanbarthau'n gweld bod cyfanswm gwerth y grantiau y maent yn eu gweinyddu yn uwch o lawer erbyn hyn. Wrth gwrs, mae elfen o hynny oherwydd y PDG, sydd wedi cynyddu'n sylweddol.

177. Yn 2016-17, mae'r grantiau sy'n mynd trwy gonsortia yn cynnwys y Grant Gwella Addysg (11 grant unigol yn flaenorol, rhai yn cael eu gweinyddu gan gonsortia ac eraill gan ALl), y Grant Amddifadedd Disgyblion, y grant TGAU newydd, Her Ysgolion Cymru, y grant Ieithoedd Tramor Modern, y cyllid arloesi i gefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd a sawl un arall. Ar y cyfan, mae dros £248 miliwn o gyllid grant yn mynd trwy gonsortia yn 2016-17.

178. Yn wahanol i arolygiadau o ddarparwyr addysg ac awdurdodau lleol, nid yw arolygiadau o gonsortia yn cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, yng nghylch gwaith blynyddol Estyn yn 2014-15, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gwmpasu'r meini prawf, y dystiolaeth a'r fethodoleg sy'n ofynnol i arolygu'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol. Byddai arolygiadau o gonsortia yn cynnwys effaith consortia ar safonau, ansawdd darpariaeth y gwasanaeth a sut yr arweinir ac y rheolir consortia. O ganlyniad, cynhaliodd Estyn arolwg o'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan gonsortia addysg rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion i'w hawdurdodau lleol. Cyhoeddwyd canlyniad y gwaith cylch gwaith hwn ar 3 Mehefin 2015.

179. Ynghyd â chyfres o argymhellion, arweiniodd y gwaith cylch gwaith at ddatblygu fframwaith arolygu ar gyfer consortia. O dan waith cylch gwaith Estyn ar gyfer 2015-2016, mae'r gwaith o arolygu'r pedwar consortia yng Nghymru wedi'i gyflawni, ac mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd fel a ganlyn:-

| | | **Canolbarth y De** | **GwE** | **EAS** | **ERW** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion | Digonol | Digonol | Da | Da |
| 3.1 | Arweinyddiaeth | Da | Digonol | Da | Da |
| 3.2 | Gwella Ansawdd | Da | Digonol | Da | Digonol |
| 3.3 | Partneriaethau | Da | Digonol | Da | Da |
| 3.4 | Rheoli Adnoddau | Digonol | Annigonol | Da | Da |

180. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad gwerth am arian ar “Gwella Ysgolion trwy Gonsortia Addysg Rhanbarthol” a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 ac, yn fwy diweddar, cwblhaodd Estyn ei harolygiad o’r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae’r adroddiadau wedi nodi gwelliannau cadarnhaol yn narpariaeth ac effaith gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, er bod gwaith i’w wneud o hyd. Er enghraifft, daeth Estyn i’r casgliad bod EAS yn gwneud cynnydd da o ran sefydlu ei hymagwedd at asesu ac adrodd ar werth am arian, er nad yw rhai agweddau wedi’u mireinio’n ddigonol hyd yma. Yng Nghanolbarth y De, nododd Estyn fod y consortiwm wedi dechrau asesu ei werth am arian, er ei fod yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu’r broses hon a dangos bod y defnydd o adnoddau’n cael yr effaith orau posibl ar ganlyniadau. Mae’r consortiwm wedi defnyddio canlyniadau ei adolygiadau gwerth am arian i ad-drefnu gwasanaethau penodol megis cymorth i’r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn costau yn yr ardal hon.

***Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau***

*Ysgolion yr 21ain Ganrif*

181. Mae Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynrychioli’r buddsoddiad strategol mwyaf yn ein seilwaith addysgol ers y 1960au. Fe’i darperir dros amryw o donnau, neu fandiau o gyllid.

182. Mae Band A y Rhaglen yn rhedeg o 2014 tan 2019. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd dros £1.4 biliwn yn cael ei fuddsoddi yn y gwaith o ailadeiladu ac ailwampio dros 150 o ysgolion a cholegau ledled Cymru. Bydd pob un o’r 22 ardal awdurdod lleol yn elwa ar y cyllid hwn. Hyd yma, mae 114 wedi’u cymeradwyo ar gyfer cyllid, sef 76% o darged ein Rhaglen. O’r rhain, mae 44 ar waith a 49 wedi’u cwblhau.

183. Mae Band B y Rhaglen yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd yn rhedeg o 2019 tan 2024.

184. Mae Cyllideb Ddrafft 2017-18 yn adlewyrchu cyllideb sylfaenol ar gyfer Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif, sef £100.8 miliwn ar gyfer 2017-18. Mae’r gyllideb hon wedi’i haddasu o 2018-19 i adlewyrchu effaith chwyddiant. Yn ogystal, mae cyllid o £20 miliwn y flwyddyn wedi’i ddyrannu o 2018-19 i alluogi darpariaeth seilwaith i gefnogi Cynnig Gofal Plant y Llywodraeth.

185. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cadarnhau ein hymrwymiad i fuddsoddi bron i £2 biliwn mewn ysgolion ac adeiladau ysgol a choleg cymunedol newydd ac wedi’u hailwampio erbyn 2024. Mae hyn yn cynnwys gweddill y buddsoddiad dros Fand A (£968 miliwn), yr ymrwymiad buddsoddiad refeniw ar gyfer Band B (£500 miliwn) a’r buddsoddiad cyfalaf ym mlynyddoedd 1 a 2 o Fand B (£559 miliwn).

*Cyllid Cyfalaf Cyffredinol*

186. Mae cyllid o fewn y BEL Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (y BEL Cymorth Cyffredinol yn flaenorol) yn darparu dyraniad cyfalaf cyffredinol i awdurdodau lleol trwy'r Gronfa Gyfalaf Gyffredinol. O 2017-18 ymlaen, bydd y gyllideb lawn o £43 miliwn yn cael ei throsglwyddo i'r MEG Llywodraeth Leol.

187. Mae Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF) wedi'i ddyrannu fel cyllid cyfalaf heb ei neilltuo fel rhan o setliad cyfalaf llywodraeth leol. Er bod y GCF heb ei neilltuo, yn hanesyddol cafwyd rhaniad tybiannol ar draws MEGs y portffolio perthnasol at ddibenion cyflwyno – ar gyfer yr MEG Addysg, y ffigur yw £43 miliwn. Felly, mae trosglwyddo £43 miliwn i'r MEG Llywodraeth Leol o 2017-18 ymlaen yn adlewyrchu newid cyflwyniadol yn unig, ac ni fydd hyn yn cael effaith ar gyfanswm y cyllid sydd ar gael neu sut mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio. Bydd trosglwyddo Cyllid Cyfalaf Cyffredinol i'r MEG Llywodraeth Leol yn helpu i ddarparu mwy o dryloywder, darparu cyflwyniad cyson rhwng setliadau cyfalaf a refeniw ac yn lleihau'r gweinyddiaeth gymhleth bresennol sy'n gysylltiedig â rheoli'r cyllid hwn.

***Addysg Cyfrwng Cymraeg***

188. Ar gyfer 2017-18, mae cyllideb o £29.2 miliwn wedi'i dyrannu yn y BEL Cymraeg mewn Addysg i gefnogi Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

189. Gan fod y Gymraeg yn thema trawsbynciol, yn ogystal â'r dyraniad cyllideb hwn, mae adrannau eraill yn cefnogi datblygiad y Gymraeg yn y system addysg hefyd. Er nad yw'n hawdd ei fesur, mae cyfanswm y cymorth ariannol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg yn uwch o lawer.

190. Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) yn sail i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys addysg ddwyieithog a Chymraeg hefyd, sy'n bwysig iawn. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid o amryw o ffynonellau i roi eu WESPs ar waith, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi a'u cyflawni trwy'r Grant Gwella Addysg (EIG). Wrth ddarparu eu EIG, gofynnir i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod y rhaglen o weithgareddau a ariennir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a amlinellir yn WESPs yr awdurdodau lleol.

191. Mae'r BEL Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r WESPs hefyd drwy raglenni i gefnogi defnydd anffurfiol o'r iaith a datblygiad sgiliau iaith ymarferwyr trwy'r Cynllun Sabothol. Mae hyrwyddo a marchnata gweithgarwch trwy Cymraeg i Blant yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cynlluniau hefyd.

192. Wrth baratoi ar gyfer y Cynlluniau 3 blynedd llawn nesaf a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2020, ym mis Mehefin 2016 cafwyd cyfarfodydd rhanbarthol rhwng swyddogion Cangen Cynllunio Cymraeg mewn Addysg a chynrychiolwyr awdurdodau lleol i drafod ffyrdd o wella a chryfhau'r gwaith o gynllunio Cymraeg mewn Addysg a'r broses WESP gyffredinol. O ganlyniad, ym mis Awst cyflwynwyd canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol yn amlinellu

sut y dylent baratoi'r Cynlluniau 3 blynedd llawn nesaf a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2020. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn dal i drafod hyn. Bydd awdurdodau lleol yn cyflwyno eu WESPs i Lywodraeth Cymru erbyn 20 Rhagfyr 2016.

***Anghenion Dysgu Ychwanegol***

193. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol a fydd yn cyd-fynd â chyflwyno Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) i'r Cynulliad cyn Nadolig 2016. Bydd yr RIA yn amlinellu costau a buddiannau cyffredinol y darpariaethau yn y Bil, ynghyd â chostau a buddiannau'r darpariaethau unigol.

194. Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yw'r prif gyrff sy'n cyfrannu at roi'r Bil ar waith, felly nhw fydd yn gorfod talu'r rhan fwyaf o'r costau gweithredu. Rydym wedi ymrwymo i helpu awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi allweddol eraill i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd o'n blaenau trwy gyllid gweithredu, gan gydnabod yr angen iddynt baratoi a newid eu systemau a'u harferion, dilyn hyfforddiant ac ymgyfarwyddo â'r dyletswyddau, y pwerau, yr hawliau a'r cyfrifoldebau newydd. Felly, rydym yn cynnig y dylid sicrhau bod y cyllid grant hwn ar gael i'r cyrff hyn i gefnogi'r pontio. Yn ystod y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21, disgwylir y bydd grantiau Llywodraeth Cymru gwerth dros £6 miliwn yn cael eu dyfarnu i gefnogi'r gwaith gweithredu, i'w hariannu o'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol.

195. Fodd bynnag, unwaith y bydd y system newydd ar waith, rydym yn disgwyl y bydd modd ei darparu o fewn cyllidebau presennol. Mae dichonoldeb y gynsail hon yn deillio o brofiad rhai awdurdodau lleol sy'n rhan o raglen o ymchwil gweithredu a gynhaliwyd rhwng 2007-2012. Mae'r awdurdodau hyn yn gweithredu ar sail yr ymagweddau a amlinellir yn y Bil, ac yn gwneud hynny o fewn cyllidebau presennol. Mae profiadau'r awdurdodau hynny wedi'u defnyddio i lywio datblygiad yr RIA.

196. Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru Deloitte i gynnal adolygiad annibynnol i archwilio a dadansoddi'r costau sy'n gysylltiedig â helpu dysgwyr ag AAA neu AAD o dan y fframweithiau deddfwriaethol presennol ledled Cymru. Defnyddiwyd canfyddiadau adroddiad Deloitte i lywio'r dadansoddiad cost a budd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol drafft oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn 2015. Fodd bynnag, prif ddiben astudiaeth Deloitte oedd sefydlu gwaelodlin presennol y gwariant ar AAA fel man cychwyn ar gyfer modelu costau yn y dyfodol. Er bod yr astudiaeth wedi bod yn ddefnyddiol, mae hefyd wedi nodi'n glir yr anawsterau o ran nodi data manwl a phenodol mewn perthynas â darpariaeth AAA. O ganlyniad, nid yw'r astudiaeth wedi cael dylanwad uniongyrchol ar ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer 2017-18.

197. Mae'r RIA a gyhoeddir ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil i'r Cynulliad cyn Nadolig 2016 wedi'i ailysgrifennu'n helaeth, ac mae'r ymagwedd wahanol i'w gweld yn glir. Rydym wedi defnyddio tystiolaeth yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol

sydd eisoes yn gweithredu llawer o elfennau'r model newydd arfaethedig – er enghraifft, Cynlluniau Datblygu Unigol ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person – o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol ac o fewn cyllidebau presennol. Mae tystiolaeth gan yr awdurdodau hyn yn cael ei hymgorffori yn yr RIA diwygiedig.

198. Mae grant tair blynedd wedi'i ddyfarnu i Brifysgol Caerdydd i ddarparu'r rhaglen Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol (DEdPsy). Mae hyn yn darparu ar gyfer hyfforddi tri cohort blynyddol (o hyd at 10 o hyfforddeion) a ddechreuodd ym mlwyddyn academaidd 2015/16. Gwerth y grant yw £2.245 miliwn dros y tair blwyddyn academaidd ac fe'i hariennir trwy'r BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae dau gohort llawn wedi'u recriwtio i'r rhaglen DEdPsy a bydd Prifysgol Caerdydd yn dechrau ar y broses o nodi'r trydydd cohort (i ddechrau ym mis Medi 2017/18) cyn hir. Bydd cyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysgol yng Nghymru y tu hwnt i 2017/18 yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymagwedd ehangach at wella gallu gwasanaethau arbenigol (isod).

199. Fel rhan o'n hymagwedd ehangach at ddiwygio'r system AAA, rydym wedi bod yn ystyried gallu'r gweithlu addysg i ddiwallu anghenion dysgwyr ag AAA. Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau dwy astudiaeth i wella'n dealltwriaeth o ofynion datblygu'r gweithlu addysg cyffredinol ac asesu gallu gwasanaethau cymorth arbenigol i gefnogi dysgwyr ag AAA. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu ymagwedd tair haen sy'n canolbwyntio ar sgiliau craidd (ar gyfer pob ymarferydd addysgu), sgiliau uwch (ar gyfer unigolion penodol mewn lleoliadau ysgol, megis y cydgysylltydd AAA) a sgiliau arbenigol (ar gyfer unigolion penodol ar draws clwstwr ysgol neu mewn gwasanaeth cymorth arbenigol). Mae hyn yn rhan sylfaenol o'r Rhaglen Trawsnewid ADY.

200. Dylai pob lleoliad addysg allu cael gafael ar unigolion â sgiliau arbenigol. Ystyrir mai rôl ALlau neu wasanaethau AAA arbenigol a ddarperir gan y GIG yw hyn. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y gofynion data gweithlu allweddol sydd eu hangen i ddatblygu system genedlaethol effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan ALlau. Bydd system genedlaethol o'r fath yn llywio'r gwaith o gomisiynu lleoliadau hyfforddi ar gyrsiau hyfforddi arbenigol ar sail gynaliadwy.

### ***Addysg bellach ac uwch***

<u>*Dyraniadau Addysg Bellach 2017-18*</u>

201. Nid yw manylion dyraniadau Addysg Bellach 2017-18 ar gael hyd yma, ac rydym wrthi'n casglu'r data perthnasol i lywio'r fformiwla honno.

202. Oherwydd diogelwch y gyllideb hon, ni ddisgwylir unrhyw ostyngiadau pellach mewn perthynas â dysgu rhan-amser yng Nghymru. Yn dilyn y gostyngiadau sylweddol mewn perthynas â darpariaeth ran-amser yn 2014/15 a 2015/16, mae'n ddealladwy bod lefelau'r ddarpariaeth ran-amser wedi gostwng. Mae'r gostyngiadau wedi'u targedu i sicrhau bod sgiliau sylfaenol a darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn cael eu diogelu.


203. Mae ystadegau llawn ar gyfer effaith y gostyngiadau hyn yn 2014/15 ar gael ar-lein; dilynwch y ddolen ganlynol: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning

204. Nid yw data i werthuso effaith gostyngiadau 2015/16 ar gael hyd yma, ond bydd yn cael ei ryddhau ar yr un wefan yn 2017.

*Darpariaeth cyllideb CCAUC i'w dyrannu i'r sector addysg uwch ac asesiad wedi'i ddiweddaru o incwm prifysgolion*

205. Fel y dangosir yn y siart isod, mae sefyllfa ariannol y sector AU yng Nghymru wedi gwella bob blwyddyn mewn termau ariannol, er gwaethaf newidiadau polisi a hinsawdd economaidd llawn her.

**Incwm i'r sector AU yng Nghymru mewn termau ariannol, yn ôl blwyddyn academaidd**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cangen Ystadegau Addysg Uwch

206. Rhwng 2010/11 a 2014/15, bu gostyngiad o tua £200 miliwn (o £416 miliwn i £215 miliwn) yn yr incwm o grantiau cyrff cyllido, ond roedd ffioedd dysgu llawn amser wedi cynyddu tua £327 miliwn (o £229 miliwn i £557 miliwn). Ar y cyfan, roedd incwm i'r sector wedi cynyddu tua £212 miliwn dros y cyfnod o bum mlynedd, a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu i'r dyfodol o dan y trefniadau ariannu presennol.

*Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

207. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector AU yn allweddol i sicrhau bod ein pobl ifanc, ar ôl gadael ysgol, yn

parhau i ddefnyddio'r iaith ac yn cynnal a datblygu eu sgiliau iaith i'w defnyddio mewn cyflogaeth yn y dyfodol.

208. Ers sefydlu'r Coleg yn 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid trwy CCAUC i gefnogi gwaith y Coleg, gan gynnwys darparu ysgoloriaethau i annog myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch. Ar gyfer 2016-17, mae CCAUC wedi darparu dyraniad cyllideb o £5.4 miliwn i gynnal gweithgareddau'r Coleg.

209. Bydd y Coleg yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru o 2017-18 ymlaen. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y penderfyniad i drosglwyddo £5.4 miliwn o gyllid o'r Cam Gweithredu Addysg Uwch i'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-18. Bydd hyn yn gyfle i sicrhau bod gweithgareddau'r Coleg yn cyfateb i flaenoriaethau a mentrau eraill Llywodraeth Cymru a sicrhau'r gwerth am arian gorau.

210. Ar 2 Awst, cyhoeddais y byddwn yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gweithgareddau'r Coleg a gwneud argymhellion ar y ffordd ymlaen. Bydd yr adolygiad yn llywio penderfyniadau polisi a chyllideb ynghylch y Coleg i'r dyfodol. Bydd yr Adolygiad yn ystyried hefyd y berthynas rhwng y Coleg a'r sector addysg bellach.

*Adolygiad Hazelkorn*

211. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Athro Hazelkorn ac yn asesu'r opsiynau ar gyfer diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Hyd nes i'r asesiad hwnnw gael ei gwblhau, ni allaf ddarparu unrhyw wybodaeth am y cyllid efallai y bydd ei angen.

*Costau yn 2017-18 o barhau i bontio i'r trefniadau rheoleiddio AU diwygiedig, o ganlyniad i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015*

212. Ar lawer ystyr, mae'r system reoleiddio a sefydlwyd gan Ddeddf 2015 yn darparu ar gyfer parhad gyda'r system reoleiddio a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch 2004 a Deddf Addysg 2005. O ganlyniad, byddai rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r system reoleiddio newydd ar waith wedi codi o dan y trefniadau blaenorol.

213. Cafodd goblygiadau'r system newydd o fesurau rheoleiddio a sefydlwyd gan Ddeddf 2015 eu hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd ar gyfer Bil Addysg Uwch (Cymru) yn ei gyflwyniad i'r Cynulliad ym mis Mai 2014.

214. Mae'r amcangyfrif o gostau ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:

| | 2017/18<br>£ |
|---|---:|
| Cymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd | 331,000 |
| Monitro a gwerthuso cynllun mynediad a ffioedd | 470,000 |
| Asesiad ansawdd | 434,000 |
| Sicrwydd ariannol | 536,000 |

| | |
|---|---|
| Is-ddeddfwriaeth | 0 |
| Datblygu, hyfforddi, goruchwylio | 29,000 |
| **CYFANSWM** | **1,800,000** |

215. Amcangyfrifwyd mynychder y costau hyn fel a ganlyn:

| | 2017/18<br>£ |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 29,000 |
| CCAUC | 175,000 |
| Sefydliadau* | 1,596,000 |
| **CYFANSWM** | **1,800,000** |

* Ar hyn o bryd, mae gan 10 sefydliad gynlluniau ffioedd ac mae'r dadansoddiad yn rhagdybio 10 sefydliad.

### *Cymorth i Fyfyrwyr*

216. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gyllideb a'r alldro ar gyfer BEL Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16, gan gynnwys y gwariant ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu'r Cynulliad: AB, Grant Dysgu'r Cynulliad: AU a'r Grant Ffioedd Dysgu.

| | **Cyllideb 15-16** | **Alldro 15-16** |
|---|---|---|
| Grantiau a Ffioedd Rhan-amser | £10,000,000 | £9,203,014 |
| Grantiau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr | £17,000,000 | £17,214,504 |
| Ffioedd Dysgu Llawn Amser (myfyrwyr) | £0 | -£14,787 |
| Grant Dysgu'r Cynulliad: AU | £132,140,000 | £137,823,916 |
| Cyllid Grant Ffioedd Dysgu Newydd | £248,000,000 | £243,579,365 |
| Ad-daliadau Grant | -£800,000 | -£1,639,036 |
| Grant Ffioedd y Cynulliad | £0 | £225,247 |
| Grant Dysgu'r Cynulliad: AB | £8,500,000 | £6,651,303 |
| Grant EUI Grant Dysgu'r Cynulliad | £8,000 | £0 |
| Ffioedd EUI/Bwrdd a Llety Grant Dysgu'r Cynulliad | £72,000 | £0 |
| LCA | £23,000,000 | £21,939,615 |
| **CYFANSWM Y BEL (Grant Dysgu'r Cynulliad) - 4704** | **£437,920,000** | **£434,983,141** |

217. Mae'r tabl isod yn crynhoi cost flaenorol a chost ragamcanol y Grant Ffioedd Dysgu (GFD), gan gynnwys amcangyfrif o raniad yn ôl lleoliad.

**Cost Grant Ffioedd Dysgu Llywodraeth Cymru (TFG), yn ôl blwyddyn ariannol**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cost o GFD | £48m | £132m | £194m | £244m | £262m | £265m | £258m |
| Amcangyfrif rhaniad yn ôl lleoliad: | | | | | | | |
| Cymraeg a DU yn Cymru | £32m | £84m | £122m | £149m | £159m | £160m | £155m |
| Cymraeg yn gweddill y DU | £15m | £45m | £72m | £91m | £99m | £100m | £98m |

Ffynhonnell: model ystadegol Cyllid Myfyrwyr fersiwn ETES2_v223_9K

Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1m agosaf; efallai na fydd yr elfennau unigol yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd y rheswm hwn. Nodwch fod y rhagolwg ar gyfer 2018-19 yn gallu newid, yn dibynnu ar amseriad a gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Diamond.

218. Dylai'r ffigurau uchod, yn enwedig cost y Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio rhywle arall yn y DU, gael eu hystyried yng nghyd-destun yr incwm ffioedd dysgu i sefydliadau gan fyfyriwr sy'n hanu o ran arall o'r DU. Amcangyfrifir hyn yn y tabl isod.

**Amcangyfrif o'r incwm ffioedd i sefydliadau Cymru gan fyfyrwyr addysg uwch sy'n hanu o rannau eraill o'r DU, yn ôl blwyddyn ariannol**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm ffioedd o fyfyrwyr sy'n hanu o fannau eraill yn y DU (garfan 2012*) | £49m | £139m | £210m | £252m | £270m | £281m | £290m | £299m | £308m |

* Myfyrwyr yn mynd mewn i addysg uwch o flwyddyn academaidd 2012/13 ymlaen, gyda chyflwyniad o ffioedd o £9,000 a'r grant ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr Gymraeg sy'n astudio yn unrhyw le yn y DU.

Mae'r ffigurau hyn yn gynnyrch o nifer hanesyddol neu rhagwelir o fyfyrwyr a ffioedd cyfartalog a godir gan sefydliadau Cymreig.

*Y wybodaeth ddiweddaraf am lifoedd myfyrwyr rhwng Cymru a gweddill y DU*

**Llifoedd trawsffiniol**

219. Mae'r tabl isod yn crynhoi llifoedd myfyrwyr addysg uwch rhwng gwledydd y DU. Mae'r ffigurau'n cadarnhau bod Cymru'n dal i fod yn 'fewnforiwr' net myfyrwyr addysg uwch o weddill y DU.

**Llifoedd trawsffiniol myfyrwyr addysg uwch yn y DU, 2014/15**

| | Lleoliad y Sefydliad | | | |
|---|---|---|---|---|
| Domisil Myfyrwyr | Cymru | Lloegr | Yr Alban | G Iwerddon |
| Cymru | 34,890 | 21,660 | 395 | 20 |
| Lloegr | 30,015 | 926,125 | 14,850 | 1,345 |
| Yr Alban | 185 | 4,470 | 97,375 | 55 |
| G Iwerddon | 440 | 8,920 | 3,590 | 29,335 |

Ffynhonell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Mae nifer y myfyrwyr yn cael ei talgrynnu i'r 5 cyntaf.

Mae poblogaeth gofrestru safonol yr AYAU yn cyfrif o'r holl gofrestriadau o fewn y flwyddyn adrodd 1 Awst i 31 Gorffennaf

*Gwybodaeth am unrhyw drosglwyddiadau rhwng BELs yn ymwneud â gweinyddu neu dalu'r Grant Ffioedd Dysgu*

220. Cadarnhaodd llythyr cylch gwaith y Gweinidog at CCAUC (dyddiedig 6 Ebrill 2016) y byddai taliad terfynol arian y grant ffioedd dysgu ar gyfer 2016-17 yn cael ei ohirio nes yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol pan fyddai data mwy cadarn ar gael ar lefel debygol y gwariant. Y cyfanswm a glustnodwyd i'r diben hwn oedd £21.1 miliwn.

221. Anfonais lythyr cylch gwaith diwygiedig at CCAUC ar 17 Hydref, gan ei gwneud hi'n glir bod y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn awgrymu y bydd gwariant ar y Grant Ffioedd Dysgu yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol (£257.6 miliwn) ar gyfer 2016-17. Felly, byddwn yn mynd ati i drosglwyddo'r £21.1 miliwn o CCAUC i Lywodraeth Cymru yn yr ail gyllideb atodol i gwmpasu'r gwariant ychwanegol.

***Gyrfa Cymru***

222. Mae incwm craidd Dewis Gyrfa wedi gostwng fel a ganlyn:

- £36 miliwn yn 2012-13
- £30 miliwn yn 2013-14
- £26.8 miliwn yn 2014-15
- £20 miliwn yn 2015-16
- £18 miliwn yn 2016-17

223. Mewn ymateb i'r gostyngiad yn y gyllideb graidd, mae gwahanol dimau polisi o bob cwr o Lywodraeth Cymru wedi darparu cyllid o ffynonellau eraill i gefnogi gwasanaethau penodol – gwasanaethau i oedolion yn bennaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau'r Porth Sgiliau Unigol a ReAct.

224. Heddiw, mae 35% o incwm Dewis Gyrfa yn gyllid 'nad yw'n gyllid craidd'. Er mai £18 miliwn yw'r gyllideb graidd yn 2016-17, mae cyfanswm yr incwm disgwyliedig o bob ffynhonnell ychydig yn fwy na £27.5 miliwn (gyda thros £25 miliwn o hwnnw'n gyllid Llywodraeth Cymru).

225. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae cyllid ychwanegol o £1.7 miliwn wedi'i ddarparu i Dewis Gyrfa i gefnogi prosiect Codi Ymwybyddiaeth o Gyfle sy'n helpu i fynd i'r afael â'r bylchau yn ymwybyddiaeth pobl ifanc o lwybrau prentisiaeth.

226. Mae Dewis Gyrfa yn parhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i greu un gwasanaeth cenedlaethol yng Nghymru.

227. Mae Bwrdd Gyrfa Cymru yn cyflwyno gweledigaeth wedi'i hadnewyddu i'w darparu ym mis Medi. Bydd y weledigaeth hon yn amlinellu'r gwasanaethau a'r modelau darparu sy'n ofynnol er mwyn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaethau'n parhau i ddatblygu wrth i dechnolegau a dulliau cyfathrebu newydd gynnig ffyrdd newydd o ymgysylltu â chleientiaid.

228. Mae adroddiad blynyddol y cwmni ar gyfer 2015-16 newydd gael ei gyhoeddi ac mae'n dangos bod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, megis gwe-sgwrs, yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel rhan o fodel darparu gwasanaethau cyfunol.

***Gwaith ieuenctid***

*Grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith ieuenctid*

229. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif grantiau i gefnogi gwaith ieuenctid a ariennir trwy'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid.

| **Grant** | **Cyllideb 2016-17 £000** |
|---|---|
| **Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid** – grant pedair blynedd o fis Ebrill 2014 ymlaen. Ar hyn o bryd, mae pob awdurdod lleol yn derbyn dyraniad sylfaenol o £0.025 miliwn a chyfran gyfansawdd yn seiliedig ar y fformiwla a ddefnyddir i bennu cyfran awdurdodau lleol o'r Grant Cynnal Refeniw (RSG). Mae yna ymrwymiad i gynnal y grant hwn tan 2018 o fewn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid. | 2,756 |
| **Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol** – grant tair blynedd o 2015-18. Mae sefydliadau'n gwneud cynigion am symiau sy'n amrywio o £65,000 i £137,262. Mae'r sefydliadau canlynol yn derbyn cyllid NVYO ar hyn o bryd; Clybiau Bechgyn a Merched, Gwobr Dug Caeredin, Girlguiding, UNA Exchange, Urdd Gobaith Cymru, Ieuenctid Cymru a Sgowtiaid Cymru. | 654 |

*Dyraniadau awdurdodau lleol*

230. Argymhellwyd y dylid dyrannu tua £21 miliwn o gyllid trwy Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2016-17 ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid. Mae elfen gwasanaethau ieuenctid y fformiwla Grant Cynnal Refeniw (RCG) yn cael ei dosbarthu yn seiliedig ar gyfran y boblogaeth rhwng 11 a 20 oed yn bennaf, gydag addasiad ar gyfer lefelau amddifadedd cymharol awdurdodau ledled Cymru. Mae'r RSG yn ffrwd ariannu heb ei neilltuo, felly awdurdodau lleol fydd yn penderfynu sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn diwallu eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol, gan gynnwys eu darpariaeth gwaith ieuenctid.

231. O ran gwaith ieuenctid, mae buddsoddiadau cymharol fach yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn. Ni allwn ganiatáu i bwysau ariannol osod rhwystr strategol neu weithredol rhwng y sectorau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol. I'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i ni geisio creu synergeddau newydd ac edrych ar beth sydd angen ei newid fel y gall darparwyr weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol nag erioed.

232. Yn hytrach na chael ei llywio gan ddarpariaeth leol yn cau, rhaid i'r drafodaeth hon barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael ei ddarparu yn y lle iawn, lle mae gwir angen amdano, lle bydd yn cael yr effaith fwyaf ar bobl ifanc o bob cwr o Gymru.

233. Rwy'n ymwybodol bod toriadau mawr wedi'u gwneud yn narpariaeth gwaith ieuenctid ar draws y sector statudol yng Nghymru a bod hyn wedi cael effaith ar rai sefydliadau ieuenctid gwirfoddol hefyd. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynglŷn â darpariaethau ac anghenion lleol. Rydym yn gwybod bod lefelau incwm, lefelau gwariant a phobl ifanc sy'n cael eu cyrraedd yn amrywio ar draws awdurdodau – ond rydym yn gwybod hefyd fod cymorth a dargedir yn gallu bod yn fwy costus na darpariaeth mynediad agored.

234. Rhaid i ni beidio â rhagdybio bod mwy o wariant yn golygu gwell canlyniadau i bobl ifanc. Rwy'n annog sefydliadau gwaith ieuenctid i feddwl yn arloesol, i weithio mewn partneriaeth ac i rannu arfer gorau. Mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol o bob cwr o Gymru wedi bod yn greadigol ac yn wydn i'r toriadau hyn. Rwyf wedi cael gwybod bod y toriadau hyn wedi gorfodi gwasanaethau i ailstrwythuro a dod yn fwy effeithlon – mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at well canlyniadau i bobl ifanc.

*<u>Effaith Prydain yn gadael yr UE ar gyllid gwaith ieuenctid</u>*

235. Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at Fwrdd Rhaglen y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried yn llawn. Mae trafodaethau'n parhau gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi gyda'r nod o sicrhau 'gwarant llawn' o'r holl gronfeydd y mae gan Gymru hawl iddynt fel y gallwn ni ddarparu ein rhaglenni yn ôl y bwriad.

236. Er bod Llywodraeth y DU yn gwarantu help i dawelu meddwl busnesau, sefydliadau a chymunedau sy'n derbyn cyllid gan yr UE ar hyn o bryd, nid yw'r warant hon yn rhoi sicrwydd i ni bod cyllid llawn y rhaglen yn cael ei ddarparu, ac mae ansicrwydd o hyd ynglŷn â chronfeydd a fydd ar gael ar ôl Datganiad yr Hydref (sy'n dod i gyfanswm o dros £1 biliwn o Gronfeydd Strwythurol).

237. Rydym yn disgwyl cadarnhad gan y Trysorlys bod y cynnig hwn hefyd yn ymestyn i raglenni eraill a reolir yn uniongyrchol ac y mae Cymru'n elwa arnynt ar hyn o bryd (e.e. ERASMUS+; Life+, Ewrop Greadigol ac ati).

***Ymateb i adroddiadau thematig Estyn***

238. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried yr argymhellion a ddarperir gan Estyn yn ei hadroddiadau cylch gwaith. Bydd swyddogion yn asesu effaith bosibl y camau a awgrymir ac unrhyw oblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â nhw ac yn pennu a yw'n briodol, yn seiliedig ar yr asesiadau hyn, i dderbyn yr argymhellion. Os oes yna oblygiadau ariannol, bydd swyddogion yn nodi gwariant cyllideb priodol i dalu'r costau.

239. Cafodd adroddiad thematig Estyn, *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal*, ei gyhoeddi ar 5 Gorffennaf. Roedd yn cynnwys pum argymhelliad ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i adroddiad Estyn, gan ddarparu sicrwydd ynglŷn â sut rydym yn gweithredu ar yr argymhellion hyn gyda'n partneriaid – awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol ac ysgolion. Rydym yn disgwyl i'r argymhellion hyn gael eu rhoi ar waith a dod yn rhan o drefniadau gwaith arferol heb gostau ariannol ychwanegol.

240. Rydym yn croesawu adroddiad Estyn ar arfer da mewn addysg i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Rydym wedi amlinellu ein bwriadu yn ein hymateb cyhoeddedig i'r adroddiad. Mae gan bob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal, yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol.

241. Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Estyn yr adolygiad thematig 'Addysg Heblaw yn yr Ysgol' (EOTAS). Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer rhoi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith. Mae'n debygol y bydd llawer o'r camau gweithredu tymor byr a chanolig yn cael eu hamsugno gan y gwaith a nodir yng nghyllideb 2017-18 ar gyfer cymryd camau gweithredu cam 1 y Grŵp. Mae unrhyw waith ychwanegol sy'n codi o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn annhebygol o gael ei gyflawni cyn 2018, felly bydd angen ei ystyried fel rhan o gyllideb 2018-19.

**Crynodeb**

242. Mae Cyllideb Ddrafft yr MEG Addysg ar gyfer 2017-18 wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

**Kirsty Williams AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

**PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) ADDYSG**

| | CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) | | | | | | | £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Rhif BEL** | **Teitl BEL** | **Alldro 2015-16** | **Rhagolygon 2016-17 (cyfnod 5)** | **Cyllideb Atodol 1af 2016-17** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** |
| **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | Llythrennedd a Rhifedd | 4462 | Llythrennedd a Rhifedd | 4,549 | 4,456 | 4,456 | 4,456 | 4,456 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **4,549** | **4,456** | **4,456** | **4,456** | **4,456** |
| | Cwricwlwm | 5501 | Cyfnod Sylfaen | 1,822 | 1,905 | 1,851 | 1,851 | 1,851 |
| | | 5162 | Cwricwlwm ac Asesu | 22,561 | 10,664 | 10,299 | 10,299 | 8,450 |
| | | 5167 | Adolygu'r Cwricwlwm a SCC | 0 | 19,570 | 20,400 | 20,400 | 5,400 |
| | | 4761 | Dysgu 14-19 yng Nghymru | -193 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **24,190** | **32,139** | **32,550** | **32,550** | **15,701** |
| | Addysgu ac Arweinyddiaeth | 4880 | Datblygu a Chynorthwyo Athrawon | 16,482 | 21,060 | 21,221 | 22,221 | 19,731 |
| | | | | **16,482** | **21,060** | **21,221** | **22,221** | **19,731** |
| | Cymwysterau Cymru | 5166 | Cymwysterau Cymru | 6,763 | 8,090 | 8,169 | 8,169 | 8,142 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **6,763** | **8,090** | **8,169** | **8,169** | **8,142** |
| | Addysg Ôl-16 | 4763 | Addysg Bellach | 403,979 | 401,647 | 400,177 | 400,339 | 407,686 |
| | | 4766 | Polisi AB a Pholisi Prentisiaethau | 1,045 | 1,066 | 1,066 | 1,066 | 0 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **405,024** | **402,713** | **401,243** | **401,405** | **407,686** |
| | Dewisiadau addysgol a gyrfaol | 4480 | Gyrfa Cymru | 21,400 | 18,000 | 18,000 | 18,000 | 18,000 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **21,400** | **18,000** | **18,000** | **18,000** | **18,000** |
| | Addysg Uwch | 4620 | CCAUC-Gwariant ar Raglenni | 94,799 | 67,510 | 88,610 | 78,610 | 104,296 |
| | | 4600 | CCAUC-Costau Rhedeg | 2,768 | 2,491 | 2,491 | 2,491 | 0 |
| | | 4640 | CCAUC-Derbynebau | -1,991 | -2,798 | -2,798 | -2,798 | 0 |
| | | 4660 | CCAUC-Dibrisiant | 82 | 82 | 82 | 82 | 90 |
| | | 4681 | Er Mwyn Ein Dyfodol-Coleg Ffederal ac Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd | 30,498 | 30,498 | 30,498 | 30,498 | 0 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **126,156** | **97,783** | **118,883** | **108,883** | **104,386** |
| | Safonau Addysg | 5120 | Llywodraethu Ysgolion | 1,061 | 1,353 | 1,353 | 1,353 | 1,124 |
| | | 5126 | Grant Gwella Ysgolion | 142,594 | 134,782 | 134,782 | 134,782 | 134,282 |
| | | 5512 | Cymorth Safonau Ysgolion | 1,058 | 1,160 | 1,394 | 1,394 | 21,394 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **144,713** | **137,295** | **137,529** | **137,529** | **156,800** |
| | Grant Amddifadedd Disgyblion | 4764 | Grant Amddifadedd Disgyblion | 81,803 | 89,246 | 89,246 | 89,246 | 93,746 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **81,803** | **89,246** | **89,246** | **89,246** | **93,746** |
| | TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth | 5320 | TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth | 6,657 | 6,883 | 6,935 | 6,935 | 6,659 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **6,657** | **6,883** | **6,935** | **6,935** | **6,659** |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **837,737** | **817,665** | **838,232** | **829,394** | **835,307** |

| | CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | | | | £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Rhif BEL** | **Teitl BEL** | **Alldro 2015-16** | **Rhagolygon 2016-17 (cyfnod 5)** | **Cyllideb Atodol 1af 2016-17** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** |
| **Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | Llesiant plant a phobl ifanc | 5115 | Anghenion dysgu ychwanegol | 1,237 | 2,776 | 2,786 | 2,786 | 2,786 |
| | | 5219 | Bwyd a Maethiad mewn Ysgolion | 2,893 | 2,986 | 3,230 | 3,230 | 3,230 |
| | | 5271 | Cynhwysiant a Chymorth Dysgu Ôl-16 | 11,746 | 13,186 | 11,481 | 11,481 | 12,481 |
| | | 5332 | Cwnsela mewn Ysgolion | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **15,892** | **18,948** | **17,497** | **17,497** | **18,497** |
| | Cymorth i ddysgwyr ôl-16 | 4704 | Grant Dysgu Llywodraeth Cymru | 434,983 | 454,343 | 432,483 | 432,483 | 467,327 |
| | | 4706 | Costau Gweinyddol SLC/CaThEM | 12,390 | 15,895 | 8,244 | 8,338 | 9,343 |
| | | 4707 | Tâl RAB Benthyciadau Myfyrwyr (nad yw'n | 99,778 | 106,849 | 106,849 | 106,849 | 106,849 |
| | | 4709 | Dyfarniadau wedi'u Targedu | 7,522 | 6,297 | 6,297 | 6,297 | 6,297 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **554,673** | **583,384** | **553,873** | **553,967** | **589,816** |
| | Ennyn Diddordeb Disgyblion | 5224 | Trechu Dadrithiad | 249 | 658 | 658 | 658 | 600 |
| | | 5222 | Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig | -386 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **-137** | **658** | **658** | **658** | **600** |
| | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | 4760 | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid * | 5,544 | 5,345 | 6,653 | 6,653 | 5,211 |
| | | 4751 | Dysgu ar gyfer Troseddwyr * | 3,070 | 3,328 | 0 | 3,328 | 3,328 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **8,614** | **8,673** | **6,653** | **9,981** | **8,539** |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **579,042** | **611,663** | **578,681** | **582,103** | **617,452** |
| **Y Gymraeg** | Cymraeg mewn Addysg | 5164 | Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg | 18,576 | 18,661 | 18,681 | 18,681 | 29,231 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **18,576** | **18,661** | **18,681** | **18,681** | **29,231** |
| | Y Gymraeg | 6020 | Y Gymraeg | 5,060 | 4,124 | 3,964 | 3,964 | 3,964 |
| | | 6021 | Comisiynydd y Gymraeg | 3,560 | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **8,620** | **7,124** | **6,964** | **6,964** | **6,964** |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **27,196** | **25,785** | **25,645** | **25,645** | **36,195** |
| **Cymorth Cyflawni** | Cymorth Cyflawni | 4466 | Cyfathrebu Strategol | 3,423 | 1,963 | 1,937 | 1,937 | 1,061 |
| | | 5480 | Gwasanaethau Ymchwil, rRhyngwladol ac Addysg | 1,508 | 950 | 950 | 950 | 884 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **4,931** | **2,913** | **2,887** | **2,887** | **1,945** |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **4,931** | **2,913** | **2,887** | **2,887** | **1,945** |
| | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Addysg** | | | **1,448,906** | **1,458,026** | **1,445,445** | **1,440,029** | **1,490,899** |

** Cyllid wedi'i drosglwyddo allan yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 - alldro ar gyfer 2015-16 wedi cael ei addasu i alluogi cymhariaeth â ffigurau 2017-18*

| | CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | | | | £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Rhif BEL** | **Teitl BEL** | **Alldro 2015-16** | **Rhagolygon 2016-17 (cyfnod 5)** | **Cyllideb Atodol 1af 2016-17** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** |
| **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | Ystad a Darpariaeth TG | 5020 | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (ALI) | 43,021 | 43,021 | 43,021 | 0 | 0 |
| | | 4765 | Buddsoddiad Strategol | 160,958 | 132,474 | 132,747 | 100,813 | 100,813 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | **203,979** | **175,495** | **175,768** | **100,813** | **100,813** |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **203,979** | **175,495** | **175,768** | **100,813** | **100,813** |
| | | | | | | | | |
| | **Total Capital - Education** | | | **203,979** | **175,495** | **175,768** | **100,813** | **100,813** |

| | CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Rhif BEL** | **Teitl BEL** | **Alldro 2015-16** | **Rhagolygon 2016-17 (cyfnod 5)** | **Cyllideb Atodol 1af 2016-17** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** |
| **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | Dewisiadau addysgol a gyrfaol - Adnoddau | 4483 | AME Gyrfa Cymru | -6,449 | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | -6,449 | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **-6,449** | **6,000** | **6,000** | **6,000** | **6,000** |
| **Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | Cymorth i ddysgwyr ôl-16 - Adnoddau | 4713 | AME Benthyciadau i Fyfyrwyr | -357,604 | -77,147 | -77,147 | -77,147 | -96,054 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | -357,604 | -77,147 | -77,147 | -77,147 | -96,054 |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **-357,604** | **-77,147** | **-77,147** | **-77,147** | **-96,054** |
| | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm AME Adnoddau - Addysg** | | | **-364,053** | **-71,147** | **-71,147** | **-71,147** | **-90,054** |

| | CYLLIDEB CYFALAF - Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Rhif BEL** | **Teitl BEL** | **Alldro 2015-16** | **Rhagolygon 2016-17 (cyfnod 5)** | **Cyllideb Atodol 1af 2016-17** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** |
| **Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | Cymorth i ddysgwyr ôl-16 - Cyfalaf | 4713 | AME Benthyciadau i Fyfyrwyr | 382,462 | 414,050 | 414,050 | 414,050 | 491,871 |
| | | | **Cyfanswm y Cam Gweithredu** | 382,462 | 414,050 | 414,050 | 414,050 | 491,871 |
| | | | **Cyfanswm SPA** | **382,462** | **414,050** | **414,050** | **414,050** | **491,871** |
| | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Addysg** | | | **382,462** | **414,050** | **414,050** | **414,050** | **491,871** |

| | | | | | £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg - Crynodeb** | **Alldro 2015-16** | **Rhagolygon 2016-17 (cyfnod 5)** | **Cyllideb Atodol 1af 2016-17** | **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2017-18** |
| | | | | | |
| DEL Adnoddau | 1,448,906 | 1,458,026 | 1,445,445 | 1,440,029 | 1,490,899 |
| DEL Cyfalaf | 203,979 | 175,495 | 175,768 | 100,813 | 100,813 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,652,885** | **1,633,521** | **1,621,213** | **1,540,842** | **1,591,712** |
| | | | | | |
| AME Adnoddau | -364,053 | -71,147 | -71,147 | -71,147 | -90,054 |
| AME Cyfalaf | 382,462 | 414,050 | 414,050 | 414,050 | 491,871 |
| **Cyfanswm AME** | **18,409** | **342,903** | **342,903** | **342,903** | **401,817** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Addysg** | **1,671,294** | **1,976,424** | **1,964,116** | **1,883,745** | **1,993,529** |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee**

**CYPE(5)-10-16 – Papur | Paper 2 – papur i'w nodi | paper to note**

**Ymateb gan : Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**Response from : Welsh Local Government Association**

## Youth Service mapping of vol sector organisations within local authority area

### Ynys Mon

We have an SLA with the Urdd and YFC so they report annually on clubs, membership, programmes etc. I also attend their management meetings and some of their events so know what is going on with them. Scouts and guides report annually as part of the grant they receive, and they use our centres for some provision.  We work with the Management Committee of the Community Centre in one other village where they have secured additional funding for an additional worker in the youth club, and we co-manage that. We also liaise on a regular basis with Community First as to their provision (as they attend the 16+ Engagement Panel) and we have staff who work for both Communities First and us on different provisions.

Other than that we don't have a formal mapping exercise, but more of a 'keeping in touch' relationship.

### Merthyr

We map the provision on offer through partnership arrangements with Communities First to ensure local intelligence on new groups because as you know anyone can establish a provision.  This information is collated onto internal data systems. Alongside this any grants administered through the authority share information with this system. In a final analysis our data mapping is cross referenced to that of the local voluntary sector support agency.

**Caerphilly**

Caerphilly incorporates support arrangements for Youth Support Services within a broader network of support for services 0-25 (as per the current Families First ethos). The current 'mapping' is simply an acknowledgement, either informally via voluntary participation in support arrangements, or formally via submission of a self-assessment, of any agency's participation in any of our support network arrangements.

More detailed and deliberate mapping that might, for example, result in the Authority attempting to plug any gaps in provision, has not taken place since the demise of our CYPP.

**Blaenau Gwent**

We have completed an audit of provision, including vol sector youth work provision, every year for last 5 years. For the past 3, this has been as part of our annual mapping process for the YEPF and then uploaded onto our online directory of support for young people and also added to our young people's website.
This year, welsh gov commissioned Cordis Bright to complete a map of voluntary sector provision and we have used that report to add/check/compare against our own.
The type of info we collect is name, purpose, age remit, cost if any, contact info. We do not currently ask for info like policies and procedures etc - we do not quality assure. We only do that when we work directly with any organisation or if they are part of the ISP. However, we do remove projects/organisations if any serious safeguarding issues are flagged up with us, and follow up appropriately.

**Carmarthenshire**

I am not aware of previous mapping. However, I will ask my youth work managers who may be able to assist.

**Torfaen**

Torfaen has a family Information Service that carries out mapping on services including Youth Support Services.  We also have a Youth Support

Services Network that meets up to 4 times a year and is designed to provide organisations with the opportunity to showcase their services, improve referral routes and facilitate networking.

**RCT**

We are currently in discussions with DEWIs with regards to setting up a standalone platform that links directly to the main DEWIs website.

This will enable us to pull off service mapping reports use the data entered on the national database, with the ability to arrange them either geographically or themed (10 entitlements).

In the interim we are developing a YSS Service Mapping document to complement the existing arrangements linked to the YSS plan and needs assessment.

There are also a number of other service mapping documents that have been produced locally at specific areas including:

- Supporting Engagement, Employment and Training directory;
- Supporting Service children in Education directory, and;
- An exercise undertaken by Cordis Bright mapping voluntary providers supporting the delivery of the YEPF.

All these will contain information with regards to voluntary sector youth provision and be will used to inform the wider YSS mapping exercise and the standalone platform.

**Ceredigion**

Recently, Ceredigion Youth Service has contributed to a comprehensive mapping exercise of all clubs, activities and projects available in Ceredigion for children, young people and adults. The Family Information Service has led this initiative to improve services for Ceredigion Residents by providing them with easier access to what's going on in their community via their website, newsletters etc. This has been quite a challenging process. The Youth Engagement team have also undertaken similar mapping work in Ceredigion.

As a service we support numerous voluntary organisations via designated SLA's which provide them with access to financial support, training and advice/ guidance relating to youth work issues. Furthermore, our countywide activity programme utilises our universal approach and a wide variety of voluntary organisations have information and opportunities to engage and refer young people via various methods. We also promote as much community engagement as possible via community profiling, surveys (online & paper), self-assessments, focus groups and so forth to identify gaps in provision and avenues of support we can provide to community groups where appropriate.

We also hold regular 'youth services' multi-agency meetings'. Various services (voluntary and statutory), who work directly with young people attend this meeting. This is an opportunity for everyone to share 'good practice' and to work in collaboration. These meetings are usually held a term in advance in order for the services to share information about forthcoming events, to identify ways of working together, to avoid duplication and to work across services where possible.

**Cardiff**

Youth Services mapped through our Family Information Service – registered into Sprout and now Dewis. Annual process, augmented with information that the Service information officer gathers on organisations providing support services for young people. Fairly robust although as always could be improved.

**Gwynedd**

NFER did a mapping exercise in Gwynedd 2 ago.  Our EPC has also undertaken mapping work in Gwynedd.

As a service we support the Urdd, Young Farmers, Scouts and Guides through SLA's which provide them with financial support, training and advice/ guidance relating to youth work issues. We also support smaller groups from time to time financially and will provide training and advice on youth work issues.

**Newport**

Sorry for the delay in replying, Newport during the last 2 years have carried out an annual mapping of voluntary sector organisations within the city as well as conducting a bi-annual questionnaire with young people in all schools around provision and their needs.

There are also multi-agency meetings that focus on particular target groups such as NEETs, which also include the voluntary sector.

**Wrexham**

The Info Shop holds the majority of information as it then informs the 'TRAC' section of the Young Wrexham website. We have recently been working with the local CVC to update the database but unfortunately this has been difficult due to their lack of capacity. We are linked in with DEWIS discussions. The other mapping we have done which is more extensive is as part of the Engagement and Progression Framework, but this obviously serves a different purpose. We recently held workshops with the potential providers of YSS and this actually was useful in updating our knowledge about who is out there. I think we are really missing a lot of information and we are due to recruit a Youth Development Officer and their first task is probably going to consist of carrying out a mapping exercise. We are also intending to set up a YSS forum as the one previously hosted by the CVC has not met for a couple of years and we have noticed the impact of that.

**Neath Port Talbot**

In NPT we have a Youth Support Services Liaison Officer who maps provision (over 150 providers on this list), we use this information to email out any relevant information, employment opportunities, any available funding etc. We also work with the Family Information Service on their website which maps wider provision, we are looking to develop this further.

We also have multi agency meetings that mainly focus on target groups such as NEETs etc. these meetings include various voluntary sector organisations.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Dyddiad: Tachwedd 2016**
**Teitl: Craffu ar y Gyllideb Ddrafft**

**Diben**
Rhoi papur tystiolaeth am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i blant o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, pwnc sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

*Noder: (Ar hyn o bryd nid yw'r pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiwn dystiolaeth lafar benodol)*

**Cyflwyniad**

Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft ar 18 Hydref 2016. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am gynigion y gyllideb yn 2017-18 o fewn y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

Mae gwariant ar blant a phobl ifanc yn rhan o sawl cyllideb wahanol, tra bo awdurdodau lleol yn cael cyllid yn eu setliadau refeniw er mwyn darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd. Ar ôl newidiadau i bortffolios y Gweinidogion, ac yn sgil trosglwyddo cyllidebau sy'n ariannu gwasanaethau i blant i'r MEG Cymunedau a Phlant, nid oes unrhyw gyllidebau wedi'u neilltuo ar gyfer gwasanaethau i blant yn y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

Y dyraniadau refeniw blynyddol i'r byrddau iechyd sy'n ariannu gwasanaethau'r GIG ar gyfer plant, cyflyrau meddygol plant a iechyd cyffredinol plant. Ac ystyried natur gyffredinol gwasanaethau iechyd, nid oes modd cysylltu'r gwariant sydd wedi'i gynllunio gyda chategorïau oedran penodol. Fodd bynnag, bydd cyfran sylweddol o wariant y GIG yn ariannu gwasanaethau i blant.

**Meysydd o ddiddordeb yn ôl llythyr Cadeirydd y Pwyllgor**

**Gwasanaethau i'r newydd-anedig**

*Y gyllideb sydd wedi'i rhoi i gwrdd â'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau i'r newydd-anedig; blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau i'r newydd-anedig dros y 12 mis nesaf a'r tymor hwy; a sut y bydd cyllideb 2017-18 yn helpu i annog newid neu wella perfformiad; Manylion yr arian refeniw ar gyfer gwasanaethau i'r newydd-anedig yn 2017-18, gan gynnwys gwariant gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;*

*Lefel y gwariant ar wasanaethau i'r newydd-anedig yng Nghymru bob blwyddyn, ers 2008, fesul Bwrdd Iechyd Lleol, gan gynnwys gwariant Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (yn dilyn cynnydd ym muddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau i'r newydd-anedig yn 2008, gan helpu i sefydlu rhwydwaith clinigol, gwella lefelau staffio a darparu cludiant);*

*Gwybodaeth benodol am y gyllideb a'r gwariant ar wasanaethau cludiant i'r newydd-anedig, gan gynnwys cadarnhad bod digon o arian wedi'i roi yng nghyllideb 2017-18 i ddarparu gwasanaeth amser llawn yn y de a'r gogledd ac ar gyfer gwasanaeth ambiwlans penodol yn y gorllewin;*

*Manylion cynhwysfawr am gostau, gwariant, lefelau staffio a lefelau swyddi gwag yn y gwasanaethau i'r newydd-anedig yng Nghymru;*

*Gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cadw golwg ar wariant ar wasanaethau i'r newydd-anedig a'r prosesau i sicrhau bod y Byrddau Iechyd Lleol yn atebol am sicrhau bod gan wasanaethau i'r newydd-anedig y cyllid a'r staff y mae eu hangen arnynt er mwyn cyrraedd y safonau cenedlaethol.*

## Gwasanaethau i'r newydd-anedig

Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i fyrddau iechyd ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i'r newydd-anedig, gyda chymorth Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Rhwydwaith Newydd-anedig, gan ddisgwyl y bydd gan bob uned babanod newydd-anedig y staff priodol i ateb anghenion y boblogaeth dros y pum mlynedd nesaf. Mae pob bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd wrth gyrraedd safonau newyddenedigol Cymru gyfan ers 2008. Maent yn adrodd am sut y maent yn cydymffurfio â'r Safonau ddwywaith y flwyddyn i'r Rhwydwaith Newydd-anedig, sy'n defnyddio'r wybodaeth hon i helpu byrddau lleol i barhau i wella eu gwasanaethau.

### Niferoedd Staff

Ym mis Mawrth 2016 dim ond 4 o'r 11 uned babanod newydd-anedig a oedd â niferoedd staff a oedd yn cyrraedd Safonau Cymru Gyfan. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â 2 o'r 11 ym mis Medi 2015. Mae nifer y staff angenrheidiol er mwyn cyflawni Safonau Cymru Gyfan wedi'i seilio ar nifer y nyrsus Gofal Uniongyrchol (gweler y tabl).

Ar sail nifer datganiedig y cotiau (gweler adran 3) ym mis Mawrth 2016, mae Tabl 1 yn dangos:

- bod angen 479.39 o nyrsus gofal uniongyrchol, cyfwerth ag amser cyflawn, ar draws y Rhwydwaith er mwyn cyrraedd y safonau
- bod 459.71 o nyrsus gofal uniongyrchol ar gael ledled Cymru

Mae hyn yn ddiffyg o 19.68 nyrs cyfwerth ag amser cyflawn, er bod yr union ddiffyg wedi'i seilio ar staff gofal uniongyrchol 'mewn swydd', sef 431 o swyddi cyfwerth ag amser cyflawn. Mae hyn yn golygu mai'r diffyg yn nifer y nyrsus er mwyn cyrraedd y safonau yw 48.39, sy'n welliant ar y 78.07 swydd cyfwerth ag amser cyflawn a gofnodwyd ym mis Medi 2015.

## Nifer y Staff Gofal Uniongyrchol er mwyn cyrraedd y Safonau ym mis Mawrth 2016

| Units | Establishment to meet All Wales Standards | Direct Care Establishment | Shortfall in Establishment | Direct care staff in post | Shortfall in post v establishment | % compliance Establishment | % compliance Staff in post |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Glangwili | 28.45 | 39.90 | -11.45 | 33.80 | -5.35 | 140.25 | 118.80 |
| Princess of Wales | 27.03 | 23.41 | 3.62 | 23.39 | 3.64 | 86.61 | 86.53 |
| Singleton | 78.24 | 68.55 | 9.69 | 64.83 | 13.41 | 87.62 | 82.86 |
| **SOUTH WEST** | **133.72** | **131.86** | **1.86** | **122.02** | **11.70** | **98.61** | **91.25** |
| Prince Charles | 22.76 | 20.44 | 2.32 | 20.34 | 2.42 | 89.81 | 89.37 |
| Royal Glamorgan | 28.45 | 29.19 | -0.74 | 24.94 | 3.51 | 102.60 | 87.66 |
| University Hosp of Wales | 82.51 | 89.46 | -6.95 | 90.12 | -7.61 | 108.42 | 109.22 |
| **SOUTH CENTRAL** | **133.72** | **139.09** | **-5.37** | **135.40** | **-1.68** | **104.02** | **101.26** |
| Aneurin Bevan | 96.73 | 97.20 | -0.47 | 92.78 | 3.95 | 100.49 | 95.92 |
| **SOUTH EAST** | **96.73** | **97.20** | **-0.47** | **92.78** | **3.95** | **100.49** | **95.92** |
| **SOUTH NETWORK** | **364.17** | **368.15** | **-3.98** | **350.20** | **13.97** | **101.09** | **96.16** |
| Ysbyty Gwynedd | 24.18 | 21.52 | 2.66 | 14.70 | 9.48 | 89.00 | 60.79 |
| Ysbyty Glan Clwyd | 45.52 | 38.52 | 7.00 | 34.58 | 10.94 | 84.62 | 75.97 |
| Wrexham Maelor | 45.52 | 31.52 | 14.00 | 31.52 | 14.00 | 69.24 | 69.24 |
| **NORTH NETWORK** | **115.22** | **91.56** | **23.66** | **80.8** | **34.42** | **79.47** | **70.13** |
| **WALES NETWORK** | **479.39** | **459.71** | **19.68** | **431.00** | **48.39** | **180.56** | **89.91** |

Yn dilyn yr adolygiad o gapasiti gwasanaethau i’r newydd-anedig ym mis Mawrth 2016, mae nifer y staff sydd ar gael er mwyn cyrraedd Safonau Cymru Gyfan yng ngholofn 1 yn Nhabl 1; mae’r ffigur wedi’i gynyddu 27%, sy’n cyfateb i 5.69 o swyddi cyfwerth ag amser cyflawn, a hynny er mwyn gwneud iawn am absenoldeb disgwyliedig (gwyliau, salwch, mamolaeth, hyfforddiant gorfodol a datblygu proffesiynol parhaus).

Caiff gwasanaethau byrddau iechyd i'r newydd-anedig eu cyllido drwy'r dyraniad refeniw blynyddol y gall byrddau iechyd ei wario fel y gwelant yn dda; bydd y byrddau iechyd yn pennu eu blaenoriaethau lleol ar gyfer gwasanaethau i'r newydd-anedig yn eu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig. Bydd y cynlluniau hyn hefyd yn rhoi manylion y gyllideb a roddir i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn 2017-18 ar gyfer gwasanaethau i’r newydd-anedig. Nid oes modd i fyrddau iechyd wahanu eu gwariant ar wasanaethau i'r newydd-anedig ers 2008, ond mae'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gael o 2010-11 ymlaen.

Mae’r Pwyllgor yn rheoli’r rhan fwyaf o gyllideb y byrddau iechyd ar gyfer comisiynu Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (Lefel 4) a gwasanaethau i'r newydd-anedig Dibyniaeth Fawr (Lefel 3). Er gwaethaf y cyni mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae’r gyllideb hon wedi cynyddu o £11.5 miliwn yn 2010-11 i £13.4 miliwn yn 2016-17. Er mwyn gwella gwasanaethau ymhellach, mae’r Pwyllgor ar hyn o bryd yn gweithio gyda’r byrddau iechyd er mwyn trosglwyddo’r gyllideb ar gyfer unedau gofal arbennig babanod i'r Pwyllgor o 2017-18, a hynny er mwyn i'r arian ar gyfer gwasanaethau i'r newydd-anedig ddilyn gweithgarwch drwy'r system.

Yn ogystal â’r gwasanaeth cludiant i’r newydd-anedig sydd ar gael 24 awr y diwrnod, 7 niwrnod yr wythnos yn y gogledd, mae'r Pwyllgor yn ystyried opsiynau i ddatblygu gwasanaeth tebyg yn y de.

*Unrhyw wybodaeth bellach am y cynllun busnes ar gyfer uned newydd gwerth £18m i'r newydd-anedig yng Nglan Clwyd, ac am wella'r gwasanaeth i'r newydd-anedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a'r costau sy'n cyd-fynd â hynny.*

Rwyf wedi cymeradwyo'r achos busnes llawn i ddatblygu'r Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig yn Ysbyty Glan Clwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu’r holl wasanaeth gofal i'r newydd-anedig yn y gogledd. Wrth gymeradwyo’r achos busnes llawn, rwyf wedi cytuno i roi cyllid cyfalaf o £17.919 miliwn a fydd yn darparu chwe chot ychwanegol, theatr obstetrig a rhagor o welyau i gleifion preswyl. Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Tachwedd eleni a disgwylir i'r cyfleuster newydd agor ym mis Mawrth 2018. Bwriedir iddo gael effaith yn syth pan fydd yn agor, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi yn y flwyddyn gyntaf y dylai leihau 50% ar y nifer o drosglwyddiadau sydd heb eu cynllunio allan o'r gogledd.

Rwyf hefyd wedi cymeradwyo cyllid cyfalaf o £2.120 miliwn yn 2016-17 i ad-drefnu’r uned bresennol i’r newydd-anedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, gan fuddsoddi yn bennaf i gynyddu'r gofod rhwng cotiau er mwyn rheoli’r risg o heintiau yn well, gwella’r modd yr ymyrrir yn glinigol, a chreu awyrgylch brafiach i rieni. Disgwylir y bydd y datblygiad hwn wedi’i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

**Anghydraddoldebau iechyd plant**

*Yng nghyd-destun paratoi ar gyfer poblogaeth sy’n heneiddio a phwysau trwm ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sut y mae hyn wedi’i adlewyrchu yng nghyllideb 2017-18?*

Nid yw Cymru’n unigryw o ran sut mae cefndir cymdeithasol yn effeithio ar iechyd: mae iechyd pobl yn gwella'n raddol wrth i sefyllfa economaidd-gymdeithasol pobl a chymunedau wella. Gwyddom hefyd fod plant sy’n tyfu ac yn byw mewn cartrefi incwm isel yn wynebu mwy o risg o lawer o gael canlyniadau iechyd gwaeth yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae hyn yn galw am weithredu penodol a chyffredinol er budd y gwahanol gefndiroedd cymdeithasol. Er mwyn creu cymdeithas fwy cyfartal, gwyddom fod angen inni ddarparu gofal sylfaenol o ansawdd dda, gwasanaethau o ansawdd dda yn y blynyddoedd cynnar, system addysg a dysgu gynhwysol, swyddi ac amgylchiadau gweithio da, ac amgylchedd iach, a dylai'r rhain fod ar gael i bawb.

Mae creu Cymru fwy cyfartal hefyd yn un o amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer ein holl wasanaethau cyhoeddus, ac mae cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn nodwedd yn amryw o ymrwymiadau'r

Llywodraeth, gan gynnwys rhaglenni i greu swyddi, i greu tai o ansawdd dda, ac i ddarparu gofal plant.

Mewn rhaglenni iechyd a gofal penodol, mae angen mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a rhaid i hynny fod yn ganolog i amryw o bolisïau er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei roi mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r angen. Gan edrych ar raglenni imiwneiddio, er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau wrth annog pobl i gymryd rhan yn y rhaglenni hynny. Nid yw'r gwariant ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, fodd bynnag, yn sefyll ar wahân i'r gwariant ar raglenni'n gyffredinol.

Ceir rhai enghreifftiau o weithgareddau y disgwyliwn iddynt roi sylw penodol i leihau anghydraddoldebau. Er enghraifft, rydym am roi'r 'dechrau gorau i bob plentyn mewn bywyd' drwy ein rhaglen newydd, Plant Iach Cymru, sy'n cadw golwg ar iechyd plant ac yn eu sgrinio mewn ffordd ddarbodus a systematig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae lleihau anghydraddoldeb yn greiddiol i'r rhaglen hon, drwy sicrhau bod holl blant Cymru yn cael yr un gwasanaeth, gyda chymorth ychwanegol ar gael lle bydd angen ymateb i anghenion penodol. Mae gofyn i'r Byrddau Iechyd ddangos eu bod yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Rydym yn disgwyl iddynt wneud cynnydd penodol drwy barhau i ddatblygu clystyrau gofal sylfaenol, a chynllunio a chefnogi'r clystyrau hyn, er mwyn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, yn ogystal â thrwy roi rhaglen Plant Iach Cymru ar waith.

**CAMHS**

*Gwybodaeth am y cyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn 2017-18*

Mae'r arian ar gyfer CAMHS yn rhan o'r dyraniad i fyrddau iechyd o £600 miliwn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl. Cyfrifoldeb byrddau iechyd yw sicrhau bod gwariant yn ateb anghenion y boblogaeth y mae angen gwasanaethau CAMHS arnynt. Byddwn yn disgwyl gweld y cyllid yn cynyddu yn unol â'r swm o bron i £8m rydym wedi'i fuddsoddi yn CAMHS ers 2015-16.

*Pa asesiadau sydd wedi'u gwneud o oblygiadau ariannol y Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) yn 2017-18*

Byddem yn disgwyl i'r goblygiadau ariannol fod yn niwtral o ran cost neu hyd yn oed eu bod yn arwain at arbedion y gellid eu buddsoddi yn ôl yn CAMHS, gan mai nod y Rhaglen yw sicrhau bod y system yn gweithio'n well i bobl ifanc. Er enghraifft, bydd lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol yn creu arbedion. Nid yn unig y mae'r atgyfeiriadau hyn yn groes i fuddiannau pobl ifanc, ond maent hefyd yn dwyn amser asesu clinigol gwerthfawr. Amser yw hwn a ddylai gael ei dreulio yn gweithio gyda'r bobl ifanc hynny y mae angen gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol fwyaf arnynt.

*Pa asesiad sydd wedi'i wneud o ganran gwariant y Byrddau Iechyd Lleol a neilltuwyd i CAMHS yn 2015-16 a 2016-17*

Mae angen i wariant gyd-fynd â'r angen a'r hyn a welwyd ers mis Medi 2015, yn sgil yn ein buddsoddiad newydd, yw rhestrau aros CAMHS yn lleihau. Am y tro cyntaf, roedd hynny'n groes i'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn a welwyd yn y gorffennol. Mae cymariaethau afrealistig wedi'u gwneud yn y gorffennol rhwng y cyllid a roddir i CAMHS a gwasanaethau i oedolion neu bobl hŷn. Mae natur salwch meddwl ymhlith oedolion neu bobl hŷn yn golygu bod ganddynt gyflyrau sy'n aml yn para'n hwy, a hynny angen gofal drud yn yr ysbyty yn fwy rheolaidd ac am gyfnodau hirach. Ein blaenoriaeth yn CAMHS yw y dylai gofal ysbyty bob amser fod yn gam olaf, ac ers 2015, dyna pam fod pob bwrdd iechyd wedi buddsoddi mewn timau triniaeth gymunedol fel rhan o CAMHS. Mae hyn yn golygu bod llawer mwy o bobl ifanc yn cael eu trin yn y gymuned heb fod angen mynd i'r ysbyty, ac mae hynny'n lleihau'r angen i gael eu symud i rywle y tu allan i'r ardal sy'n gallu bod yn ddrud.

*A fydd y £7.6 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015 ar gyfer CAMHS yn parhau i gael ei roi ar sail flynyddol barhaol*

Cyllid rheolaidd yw hwn ac mae wedi'i gynyddu gyda'n cyhoeddiad yn gynharach eleni y bydd £318,000 yn cael ei roi'n rheolaidd i ariannu gweithwyr cymorth ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n dioddef o'r problemau iechyd meddwl mwyaf difrifol.

*Diweddariad am yr union wariant a fu yn ystod rowndiau cychwynnol y cyllid hwn, gan gynnwys yr alldro ym mlwyddyn ariannol 2015-16 a'r gwariant rhagweladwy yn 2016-17, a oedd i fod i ariannu'r canlynol:*

- *£2m i ddatblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer ADHD ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig;*
- *£2.7m i wella ymateb CAMHS y tu allan i oriau ac mewn argyfwng;*
- *£1.1m i ehangu'r therapïau seicolegol sydd ar gael, gan gynnwys therapïau siarad fel opsiwn arall yn y lle meddyginiaeth;*
- *£800,000 i wella gwasanaethau sylfaenol lleol i gefnogi iechyd meddwl;*
- *£250,000 i ehangu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol; ac*
- *£800,000 i roi sylw i anghenion pobl ifanc sy'n dechrau dioddef o salwch difrifol, fel seicosis.*

Gall recriwtio staff arbenigol gymryd amser, yn enwedig ac ystyried hyd a lled y recriwtio hwnnw, nid yn unig yn CAMHS ond drwy'r holl faes iechyd meddwl yn sgil y cyllid ychwanegol o dros £22m a gyhoeddwyd gennym. Gallai hyn fod wedi gwanhau ac ansefydlogi gwasanaethau presennol, wrth i ymarferwyr a chlinigwyr geisio heriau newydd neu gael eu dyrchafu yn y gwasanaethau

newydd a gafodd eu creu gan y buddsoddiad. O ganlyniad, mae'r byrddau iechyd wedi gorfod rheoli'r broses recriwtio yn ofalus.

Yn niwedd 2015 a dechrau 2016, gofynasom i'r byrddau iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd roeddent wedi'i wneud, gan gynnwys eu gwariant disgwyliedig hyd at fis Mawrth 2016. Roedd hyn yn cynnwys costau'r staff a recriwtiwyd, y cyllid i'r staff presennol gynnal clinigau ychwanegol er mwyn lleihau rhestrau aros a chyflymu'r modd y gellir defnyddio gwasanaethau, a'r cyllid i hyfforddi staff newydd a staff presennol. Rydym wedi gwneud rhywbeth tebyg eleni ac rydym wedi gofyn i'r byrddau iechyd roi adroddiad inni am eu gwariant disgwyliedig erbyn mis Mawrth 2017. Mae'r canlyniadau yn y tabl isod:

| **Bwrdd Iechyd** | **2015-16**<br><br>**£m** | **Gwariant disgwyliedig 2016-17 £m** |
|---|---:|---:|
| Aneurin Bevan | 0.097 | 0.726 |
| Betsi Cadwaladr | 0.589 | 1.645 |
| Cwm Taf | 0.394 | 0.734 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 0.323 | 0.948 |
| Caerdydd a'r Fro | 0.300 | 1.176 |
| Hywel Dda | 0.208 | 0.844 |
| Powys | 0.088 | 0.296 |
| **Cyfanswm** | **1.999** | **6.369** |

**ATODIAD B**

## Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
## Asesiad Effaith Integredig ar Gyllideb 2017-18

### TROSOLWG O’R PORTFFOLIO

Mae’r portffolio yn datblygu ac yn cyflwyno polisïau sy’n darparu gwasanaeth iechyd a chymdeithasol ar gyfer Cymru ac yn darparu’r sylfaen ar gyfer ymyriadau eraill sydd â’r nod o greu poblogaeth iach a gweithgar yng Nghymru.

Ein nod yw helpu pobl i ofalu am eu hiechyd a’u llesiant eu hunain drwy’r dull cyd-gynhyrchu - lle mae pobl yn gwneud penderfyniadau hyddysg ac ar y cyd ynghylch eu hiechyd gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Rydym yn trawsnewid y GIG er mwyn sicrhau bod mwy o ofal yn cael ei ddarparu mewn cymunedau lleol, yn agosach i gartrefi pobl yn hytrach na mewn ysbytai. Mae hyn yn gofyn am newid cynaliadwy, drwy gydweithredu mewn perthynas ag adnoddau ariannol a gweithlu, er mwyn darparu mwy o ofal iechyd mewn cymunedau - rydym yn parhau i wella mynediad i feddygfeydd teulu ac yn buddsoddi yn y gweithlu gofal sylfaenol. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ysgolion i hybu gweithgarwch corfforol ac ymwybyddiaeth o ddewisiadau ffordd iach o fyw.

Mae ein penderfyniad i ddyrannu cyllid ychwanegol o £265 miliwn ar gyfer iechyd yn 2017-18 yn cydnabod bod darparu setliad digonol a chynaliadwy yn ystyriaeth hanfodol nid yn unig ar gyfer cymdeithas gyfan, ond hefyd ar gyfer grwpiau gwarchodedig sy’n elwa o effeithiau cadarnhaol anghymesur.

### Proffil Gwariant

| **DEL Adnoddau Cyllidol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **MAES RHAGLENNI GWARIANT** | **2016-17 Cyllideb Atodol** | **Newidiadau i’r Llinell Sylfaen** | **2017-18 Newidiadau** | **2017-18 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cyflenwi’r GIG | 6263.080 | 14.619 | 285.789 | 6563.488 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 230.691 | | (14.921) | 215.770 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 159.260 | | 3.044 | 162.304 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 67.335 | | (3.622) | 63.713 |
| Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol | 22.605 | (0.261) | | 22.344 |
| **Cyfansymiau** | **6742.971** | **14.358** | **270.290** | **7027.619** |

### Newidiadau Allweddol i Wariant

- Cyllid ychwanegol o £240m ar gyfer y GIG;
- £1 miliwn ychwanegol ar gyfer Gofal Diwedd Oes

- Buddsoddi £1 miliwn mewn rhaglenni hunaniaeth rywedd ac anhwylderau bwyta
- £7 miliwn ychwanegol i gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys denu mwy o feddygon teulu a hyfforddi mwy o nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- Rydym yn parhau i wario £50 miliwn ar y Gronfa Gofal Canolraddol i gadw pobl allan o ysbytai
- Gwasanaethau Cymdeithasol – wedi targedu £25m ychwanegol ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol;
- Iechyd y Cyhoedd – rydym yn diogelu buddsoddiad mewn rhaglenni i wella iechyd y cyhoedd; a
- Cronfa Triniaethau Newydd –£16m ychwanegol y flwyddyn dros gyfnod y Llywodraeth hon, er mwyn hwyluso mynediad i feddyginiaethau arloesol.

**Iechyd - Effeithiau**

Mae'n bwysig gwario arian ar y GIG ond mae darparu gofal o ansawdd uchel pan fydd pobl yn sâl dim ond yn un rhan o'r broses o sicrhau iechyd da. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd hefyd i atal iechyd gwael rhag digwydd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae ffocws wedi'i adnewyddu mewn perthynas ag atal problemau yn arbennig o bwysig wrth ystyried yr angen i ddiogelu iechyd plant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i ni ddiwallu anghenion iechyd ein poblogaeth sy'n heneiddio, yn ogystal ag ymateb i'r galw cynyddol am ofal iechyd a'r bwlch parhaus rhwng iechyd y cymunedau mwyaf cyfoethog a thlawd yng Nghymru. Bydd ein penderfyniad i ddarparu £240m ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru yn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn helpu i drawsnewid y gwaith o ddarparu gofal.

Ar gyfer y cyllid ychwanegol o £240m i'r GIG o fewn cyllideb Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd, disgwylir i bob Bwrdd Iechyd ystyried effaith eu penderfyniadau mewn perthynas â gwariant pan gaiff eu prif ddyraniadau eu nodi fel rhan o Ddyraniadau Refeniw'r Byrddau Iechyd a gyhoeddir ym mis Rhagfyr. Mae bellach rhaid i bob Bwrdd Iechyd gynhyrchu cynllun integredig tair blynedd ac fel rhan o'r gofynion cynllunio o fewn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, mae'n ofynnol iddynt ddangos sut mae'r cynllun integredig yn adlewyrchu cyfrifoldebau Deddf Cydraddoldeb 2010. Felly, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd ddangos sut maent yn ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig fel rhan o'u dyletswydd o dan y Ddeddf a hefyd sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried.

**Tystiolaeth ac Ymgysylltu**

Bydd buddsoddiad ychwanegol yn y GIG yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddiwallu'r twf parhaus o ran galw a chostau gwasanaethau a ddisgrifir yn adroddiadau'r Sefydliad Iechyd ac Ymddiriedolaeth Nuffield. Mae'r cynnydd yn y cyllid i'r GIG yn seiliedig ar dystiolaeth o fodel diweddaraf y Sefydliad Iechyd i adlewyrchu'r rhagdybiaethau diweddaraf ar bwysau gwario ac effeithiolrwydd yn y GIG.

**ATODIAD B**

Mae'r GIG yng Nghymru eisoes wedi profi llwyddiant arwyddocaol yn y meysydd hyn, trwy fesurau fel gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant, gostyngiadau o ran hydoedd aros mewn ysbytai a gostyngiadau o ran nifer y cleifion a gaiff eu derbyn i ysbytai.

**Iechyd y Cyhoedd**

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda phobl i helpu diogelu eu hiechyd wrth iddynt heneiddio. Drwy ddiogelu ein buddsoddiad mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd rydym yn ymrwymedig i ddarparu rheolaeth gryfach dros iechyd a llesiant a mynediad cyflymach i gyngor a gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf.

Cyllideb grant Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW NHST) yw £88.7 miliwn, ac mae'n cyllido gwasanaethau iechyd cyhoeddus craidd y GIG, fel sgrinio a diogelu iechyd. Fel sefydliad y GIG, bydd PHW NHST yn wynebu cynnydd parhaus o ran costau yn sgil chwyddiant, a rhywfaint o alw a phwysau mewn perthynas â gwasanaethau. Felly, cynigir y dylid cynnal cyllideb gyfredol PHW NHST ar y lefelau cyfredol yn nhermau arian parod, a fydd yn golygu bod angen i'r sefydliad ddod o hyd i effeithlonrwydd blynyddol er mwyn gwrthbwyso twf arian parod.

Mae'r cyllidebau ar gyfer hybu iechyd, diogelu iechyd ac atal problemau wedi aros yr un fath yn 2017-18. Caiff rhaglenni fel imiwneiddio a sgrinio eu diogelu ac mae effaith y rhaglenni hyn yn cynnwys imiwneiddio a brechu tua 140,000 o blant yng Nghymru bob blwyddyn; brechu mwy na 99,000 o blant a mwy na 420,000 o bobl dros 65 oed rhag y ffliw a darparu gwasanaethau Sgrinio Retinopatheg Diabetig i fwy na 111,000 o gleifion. Gyda'r gwasanaethau hyn y nod yw cyffredinoliaeth gymesur, helpu pawb yn y gymuned, ond targedu cymorth yn unol â'r angen. Felly, er enghraifft, mae mwy o ymdrech yn cael ei gwneud ar hyn o bryd i sicrhau bod grwpiau nad ydynt yn manteisio ar gyfleoedd sgrinio iechyd ar hyn o bryd yn cael eu helpu i wneud hynny.

Mae dros hanner oedolion a chwarter plant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni i fynd i'r afael â gordewdra. Mae'r gost sydd ynghlwm wrth fod dros bwysau neu'n ordew i'r GIG yng Nghymru yn dod i gannoedd o filiynau bob blwyddyn, gyda diabetes math 2, y mae gordewdra yn ffactor risg mawr sy'n gysylltiedig â hyn, yn cyfrif am 10% o gyllideb gyfan y GIG. Cynigir brechiad tymhorol rhag y ffliw i'r bobl hynny sydd â BMI sy'n uwch na 40 nawr hefyd.

Mae'r cynnydd yn y cyllid i **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn bennaf yn cynrychioli trosglwyddo cyllideb ac ymrwymiadau i'r dyraniad cyllid craidd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyllid craidd yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei swyddogaethau yn unol â deddfwriaeth, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cwmpasu gwella a diogelu iechyd, gwybodaeth ac ymchwil am iechyd y cyhoedd, a rhaglenni sgrinio cenedlaethol ar gyfer y boblogaeth yng Nghymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu llawer o'r camau gweithredu mewn perthynas â gwella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau o ran disgwyliad bywyd iach.

**ATODIAD B**

Bydd **cyllid imiwneiddio** yn cefnogi rhaglenni newydd ar gyfer llid yr ymennydd B a llid yr ymennydd ACWY yn ogystal ag ymestyn yr ymgyrch dymhorol i frechu rhag y ffliw ar gyfer plant. Mae imiwneiddio yn wasanaeth byd-eang y mae poblogaethau sy'n cynyddu yn effeithio arno. Y nod yw creu 'imiwnedd torfol', gan ddiogelu pob rhan o'r gymuned yn gyfartal.

Gall camau gweithredu iechyd y cyhoedd gyfrannu at yr **agenda gofal iechyd darbodus**, gan wella effaith gwario, er enghraifft, drwy:

- helpu grymuso pobl a'u cymunedau i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd ar sail cydgynhyrchu; a
- datblygu dulliau atal effeithiol ac ymyriadau cynnar sy'n gallu osgoi problemau drud yn ddiweddarach.

Er enghraifft, mae Cymru Iach ar Waith (£0.195m) yn cefnogi cyflogwyr ar draws pob sector i ddatblygu polisïau ac ymyriadau i hybu iechyd a llesiant eu staff a lleihau effaith salwch ar waith. Mae Cymru Iach ar Waith yn denu cyllid ar y cyd o bortffolio'r economi (£0.6m) ac ar hyn o bryd mae'n effeithio ar 460,000 o weithwyr mewn dros 3000 o gyflogwyr yng Nghymru. Mae'r rhaglen bellach yn cynnwys Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith (0.214m) a gefnogir gan £3.2m o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o absenoldeb salwch hirdymor, i ddychwelyd i'r gwaith – y nod yw cefnogi 4000 o bobl a 500 o gyflogwyr dros 3 blynedd...

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda phobl i helpu diogelu eu hiechyd wrth iddynt heneiddio. Rydym hefyd yn cydnabod bod y gwasanaeth iechyd a'r sector iechyd ehangach yn chwarae rhan hanfodol wrth ategu ac ysgogi ein heconomi, gan helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd economaidd a lleihau'r ffactorau economaidd sy'n llywio salwch. Mae'r GIG yn chwarae rôl arwyddocaol yn yr economi genedlaethol, o ran cyflogaeth, caffael, buddsoddiad cyfalaf ac arloesedd. Yn gynyddol, manteisir ar y cyfle i ddefnyddio dylanwad a chyllideb y GIG i ddylanwadu ar gyfleoedd pobl o ran iechyd da drwy gyflogaeth well a chyfrannu at ffyniant. Mae ein rhaglenni yn ceisio lleihau effaith tlodi a gwella cyfleoedd bywyd pobl, gan ategu amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.

Yn 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd fuddsoddiad wedi'i ddiogelu o £10m i gefnogi Rhaglen Effeithlonrwydd Trwy Dechnoleg (Rhaglen ETT). Dyfernir y cyllid hwn ar sail gystadleuol i sefydliadau'r GIG er mwyn cefnogi'r gwaith o werthuso a mabwysiadu cynnyrch a gwasanaethau technoleg yn gyflym, gyda phwyslais ar effeithlonrwydd, canlyniadau gwell ar gyfer cleifion, a dulliau fesul graddfa i lefel Cymru gyfan. Mae'r Rhaglen ETT hefyd yn cefnogi prosiectau cenedlaethol i annog datblygu technoleg, arloesedd, ymgysylltu â diwydiant, a phartneriaethau rhyngwladol (gan gynnwys rhwydweithiau a chyfleoedd cyllido'r UE). Caiff pob prosiect ei reoli'n weithgar i sicrhau gwerth am arian ac mae'r cyllid ETT wedi derbyn cymhareb arian cyfatebol dda. Mae proses werthuso wedi'i hymgorffori o fewn pob prosiect, yn ogystal ag ar lefel rhaglen. Bydd y Rhaglen ETT yn parhau yn 2017-18.

**ATODIAD B**

**Cronfa Triniaethau Newydd**
Bydd cyflwyno'r gronfa triniaethau newydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno meddyginiaethau cost uchel cyfoes ac arloesol a argymhellir gan NICE neu AWMSG, a hynny ar raddfa gyflym. Byddwn yn sicrhau bod £80m ar gael dros fywyd y llywodraeth hon er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau newydd ar gael, sy'n ymdrin ag angen clinigol nas bodlonwyd o'r blaen ac sy'n cynrychioli cam sylweddol ymlaen ar gyfer trin clefydau sy'n cyfyngu ar fywyd ac yn bygwth bywyd. Caiff y gronfa hon ei chyflwyno'n gyson ledled Cymru cyn gynted â phosibl yn dilyn argymhelliad cadarnhaol gan naill ai NICE neu AWMSG.

Mae'r gronfa wedi datblygu o'n profiad o wneud triniaethau cost uchel newydd ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau sy'n newid bywydau sydd ar gael i bobl yng Nghymru. Yn 2015-16, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid sylweddol o'i chronfeydd canolog er mwyn galluogi'r GIG i gyllido pedair triniaeth newydd ar gyfer hepatitis C a thriniaeth newydd ar gyfer clefyd prin, genetig a chynyddol o'r enw Syndrom Wremig Hemolytig annodweddiadol (aHUS). Roedd y meddyginiaethau yn cynrychioli cam mawr ymlaen o ran triniaeth ac yn sicrhau manteision iechyd a chymdeithasol sylweddol i gleifion. Mae'n hanfodol bod y gronfa triniaethau newydd yn cael ei gweithredu mewn ffordd dryloyw a'i deall yn eang. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dull gweithredu i reoli'r gronfa'n effeithiol. Rydym yn rhagweld y bydd y gronfa yn gweithredu erbyn mis Rhagfyr.

**Iechyd Meddwl**
Bu ymrwymiad i gyllid a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl ers mis Medi 2008 i ddiogelu'r swm o arian o fewn cyllideb y GIG a datganiad penodol sy'n nodi er y gellid arbed arian, ni ellir gwario unrhyw arbedion y tu allan i'r swm a glustnodwyd. Rydym yn parhau i gydnabod rôl bwysig gwasanaethau iechyd meddwl wrth wella canlyniadau cleifion.

**Effeithiau**
Nod ein Strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* yw ymdrin â stigma a gwahaniaethu a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth o fewn cynllun cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* 2016-19. Yn ogystal, blaenoriaeth o fewn ein Rhaglen Lywodraethu newydd yw 'Gweithio i roi diwedd ar gamwahaniaethu ar sail iechyd meddwl'. Mae'r cynllun cyflawni newydd hefyd yn cynnwys cam gweithredu allweddol, sef 'Lleihau anghydraddoldeb ymhlith grwpiau agored i niwed sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar yr un gwasanaethau iechyd meddwl â phawb arall'.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**
Mewn perthynas â'n gofynion mewn deddfwriaeth i ystyried anghenion penodol plant a phobl ifanc, mae darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth i'w wella. Rydym yn parhau bob blwyddyn i sicrhau bod £7.968m ychwanegol ar gael i wella amrywiaeth darpariaeth CAMHS. Yn benodol, bydd y cyllid hwn yn helpu i wella gallu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol

(CAMHS) i ymateb y tu allan i oriau arferol ac mewn argyfwng, ymestyn mynediad i therapïau seicolegol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, sicrhau bod gwasanaethau yn ymyrryd yn gynnar i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n datblygu seicosis a datblygu gwasanaethau priodol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion niwroddatblygiadol, fel ADHD ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Mae rhaglen wella CAMHS (*Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)* wedi bod ar waith ers 2015 a bydd yn parhau yn 2016-17. Mae hyn yn cynnwys newid diwylliannol yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gall yr adnoddau CAMHS bach ac arbenigol ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r salwch meddwl mwyaf parhaus. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd angen i CAMHS ddatblygu, cynnal a chryfhau partneriaethau ag asiantaethau eraill yn yr awdurdodau lleol, ym maes gofal cymdeithasol a meysydd eraill. Mae timau amlddisgyblaethol sy'n gweithio i Wasanaethau Cymorth Teulu Integredig a mentrau fel elfen iechyd Dechrau'n Deg yn hanfodol i sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn cael mynediad i CAMHS arbenigol cyn gynted â phosibl; a hefyd i sicrhau nad yw'r rhai sydd â salwch iechyd meddwl lefel is, y gall asiantaethau eraill ymdrin â hwy, gyda chymorth CAHMS priodol, dan anfantais, gan leihau'r stigma sydd ynghlwm wrth iechyd meddwl.

Mae'r camau gweithredu a gynhwysir o fewn y cynllun hefyd yn cynnwys gwasanaethau ataliol – rhai cyffredinol ac wedi'u targedu, gyda'r olaf yn canolbwyntio ar feysydd risg uwch ac felly'n cysylltu â'r nodau a ddiffiniwyd yn y strategaeth tlodi plant.

**Plant sy'n derbyn gofal a throseddwyr ifanc**
Dengys tystiolaeth fod pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn profi lefelau uwch o anhwylder ymlyniad. Yn yr un modd, gall y rhai sydd yn y system troseddwyr ifanc hefyd brofi lefelau uwch o salwch meddwl. Drwy nodi ac ymdrin ag anghenion iechyd meddwl y grwpiau agored i niwed hyn yn gynnar gellid sicrhau eu bod yn integreiddio ac ymgysylltu'n llawn â'r ysgol a'r gymuned ehangach. Gall hefyd helpu adsefydlu a lleihau aildroseddu ymhlith troseddwyr ifanc. I gefnogi hyn, rydym wedi sicrhau bod £250,000 ychwanegol ar gael ers 2015-16 i wella'r ffordd y mae CAMHS yn gweithio gyda thimau troseddwyr ifanc .

Yn ogystal, mae camau gweithredu yng nghynllun cyflawni 2016-19 sy'n nodi y bydd byrddau iechyd yn gweithio gyda chymorth Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i gyhoeddi llwybr gofal cytûn ar gyfer pobl ifanc agored i niwed, fel plant sy'n derbyn gofal a phlant a fabwysiedir, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau atgyfeirio a chymorth priodol yn cael eu darparu rhwng CAMHS / gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol eraill / awdurdod lleol a'r system cyfiawnder ieuenctid erbyn mis Rhagfyr 2017.

**Sipsiwn a Theithwyr**
Ym mis Gorffennaf 2015 cyhoeddwyd 'Teithio at Iechyd Gwell'. Mae hyn yn ymateb i angen a nodwyd ac a brofwyd i wella mynediad i wasanaethau gofal iechyd a gwelliant i'r gwasanaethau hynny ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Cynhyrchwyd y canllawiau drwy gydweithio â Sipsiwn a Theithwyr yn ystod

pob cam ac mae'n darparu cyngor ar ymarfer proffesiynol a allai annog mwy o gyfranogiad mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau iechyd. Caiff y canllawiau Teithio at Iechyd Gwell eu cefnogi gan nifer o fesurau canlyniadol ar gyfer byrddau iechyd i gynorthwyo'r broses o'u gweithredu'n effeithiol. Tra bod goblygiadau ariannol y flwyddyn gyfredol yn ymylol, yn y tymor hwy, yn dilyn ymgynghoriad a gweithredu'r canllawiau ymhellach, mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol pellach, yn arbennig mewn perthynas â sicrhau bod gan y GIG wybodaeth a dealltwriaeth o anghenion gofal iechyd y gymuned hon a bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol.

Ym mis Medi 2015 cyhoeddwyd fframwaith y gwasanaeth ar gyfer trin pobl sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau a phroblem iechyd meddwl ar y cyd. Dyluniwyd y canllawiau hyn i lywio a datblygu'r gwaith o ddarparu arferion integredig a chydweithredol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i oedolion, plant a phobl ifanc. Eto, caiff goblygiadau ariannol eu hystyried yn ymylol o fewn y flwyddyn gyfredol hon, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol pellach yn dilyn derbyn cynlluniau gweithredu gan fyrddau partneriaeth iechyd lleol / byrddau cynllunio ardal camddefnyddio sylweddau

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo mewn nifer o feysydd ychwanegol gan gynnwys cefnogi cyflwyno'r concordat mewn argyfwng rhwng yr Heddlu, y GIG a phartneriaid eraill i wella ymatebion pobl sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu sydd â phroblemau iechyd meddwl, mae gweithgor o randdeiliaid allweddol mewn lle i sicrhau bod y concordat cyhoeddedig, *Crisis Care Mental Health Concorda*t, yn cael ei weithredu.

Byddwn hefyd yn cyflwyno llwybr gofal i sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael mynediad i ddarpariaeth iechyd meddwl cyffredinol a darpariaeth Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) arbenigol **erbyn mis Ionawr 2017.**

Iechyd meddwl yw un o'r 4 maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu cynnar a nodwyd yn fframwaith strategol y Gymraeg – *Mwy na Geiriau*. Dangosodd Arolwg Boddhad Defnyddwyr Mehefin 2013 (Archwiliad Hanfodion Gofal) fod 98% o gleifion yn "derbyn gwybodaeth lawn am [eu] gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hangen". Er mwyn cefnogi hyn ymhellach rydym wedi sicrhau bod y pedwar llyfr mwyaf poblogaidd o dan Gynllun *Presgripsiwn Llyfrau Cymru* wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael ar CD. Yn lleol, mae mentrau Cymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys datblygu llwybr defnyddwyr gwasanaethau dwyieithog i gyfateb defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg â gweithwyr iechyd meddwl dwyieithog a nodi anghenion nas diwallwyd.

Mae cysylltiad clir rhwng problemau iechyd meddwl a thlodi. Canfu astudiaethau taw pobl â salwch meddwl sydd â'r gyfradd gyflogaeth isaf ar gyfer unrhyw grŵp o bobl anabl. Maent hefyd, y gellid dadlau, yn profi mwy o dlodi, tai llai digonol a mwy o unigrwydd cymdeithasol. Mae'n bwysig bod ein hymdrechion i drechu tlodi yn cydnabod hyn. Rydym yn gwybod bod llai o achosion o broblemau iechyd meddwl yn bwysig i sicrhau cymunedau sy'n

gweithredu'n iach, gwella cydlyniant cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol a ffyniant. Rydym yn gwybod taw'r bobl hynny yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o ddioddef mwyaf o iechyd meddwl gwael a nifer uwch o achosion o salwch meddwl.

Mae cyllidebau yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar anfantais economaidd-gymdeithasol, trechu tlodi a datblygu cymunedau cynaliadwy, cyfrannu at gyflogi pobl yn uniongyrchol o fewn y maes iechyd meddwl, yn arbennig y Trydydd Sector a gefnogir drwy gyllid grant Adran 64. Mae ein gwaith hefyd yn cefnogi pobl agored i niwed drwy hybu adfer a fydd yn eu helpu i fyw'n annibynnol a chyfranogi'n economaidd. Dengys tystiolaeth taw salwch meddwl yw un o'r rhesymau allweddol dros absenoldeb yn y gwaith ac mae'n ffactor arwyddocaol ar gyfer nifer o bobl sy'n anweithgar yn economaidd yn yr hirdymor. Mae cyflogaeth yn arbennig o bwysig er mwyn osgoi byw mewn tlodi. Bydd hybu lles meddyliol a sefydlu gwasanaethau cymorth hygyrch yn lleihau nifer y bobl nad ydynt yn gallu gweithio o ganlyniad i salwch meddwl ac ar gyfer y rhai sy'n gweithio, yn hybu adfer cyflymach, lleihau faint o amser byddant i ffwrdd o'r gwaith a'u galluogi i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt. Ym mis Medi, lansiwyd rhaglen newydd o gefnogaeth gan gyfoedion i helpu bron 6000 o bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl i gael swydd, gyda chefnogaeth rhannol wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae rhaglen cefnogaeth gan gyfoedion arall a fydd yn helpu pobl sy'n gweithio ac yn profi problemau iechyd er mwyn cadw eu swyddi.

Un o themâu allweddol ein dull yw ymdrin â phroblemau yn gynnar er mwyn sicrhau nad ydynt yn datblygu i fod yn broblemau mwy difrifol pan fydd pobl yn oedolion. Bydd 1 o bob 10 plentyn rhwng 5 ac 16 oed yn dioddef problem iechyd meddwl, ac mae problemau ymddygiad gan lawer mwy. Yn ogystal, mae llawer o blant yn gweithio fel gofalwyr ac yn cefnogi rhieni/gwarcheidwaid sy'n dioddef salwch meddwl eu hunain. Mae angen cymorth arnynt er mwyn cyflawni eu rolau, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor.

Ym mhen arall y sbectrwm oedran, mae gwella gofal, cymorth ac ymwybyddiaeth o Ddementia yn flaenoriaeth allweddol. Mae Dementia yn costio llawer i gyllid cyhoeddus a phreifat, gyda niferoedd yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio. Mae gofalwyr yn talu cyfran uchel o'r gost a gall gyfrannu'n fawr at dlodi yn y cartref. Mae Dementia UK yn amcangyfrif bod £690m y flwyddyn yn cael ei golli mewn incwm i ofalwyr sy'n gorfod rhoi'r gorau i'w swyddi neu leihau eu horiau gwaith. Mae'r gost hefyd yn bersonol, gan fod y gofalwr yn aml yn gorfod rhoi'r gorau i'w fywyd cymdeithasol er mwyn darparu gofal ymroddedig, 24 awr y dydd, 7 dydd o'r wythnos. O fewn cynllun cyflawni 2016-19 rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu cynllun strategol ar gyfer dementia erbyn diwedd y flwyddyn galendr, a fydd yna'n destun ymgynghoriad ffurfiol.

**Tystiolaeth**

Mae buddsoddiad rheolaidd o 2011-12 o £3.5 miliwn yn cefnogi deddfwriaeth iechyd meddwl arloesol, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a ddechreuodd yn 2012. Mae'r buddsoddiad wedi golygu bod Gwasanaethau Cymorth Iechyd

**ATODIAD B**

Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol yn cael eu darparu'n lleol ledled Cymru. Rhwng Ebrill 2013 ac Awst 2016, cynhaliwyd dros 110,000 o asesiadau iechyd meddwl sylfaenol (cyn i'r Mesur gael ei roi ar waith nid oedd y gwasanaeth hwn ar gael).

Bydd set ddata graidd iechyd meddwl, gan gynnwys canlyniadau o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, yn gwerthuso effaith y strategaeth. Bydd yn cynnwys mesur canlyniadau o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a bydd hefyd yn casglu data am ethnigrwydd ym mhob lleoliad y GIG lle mae cleifion mewnol seiciatrig. Rydym yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn gyda Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG a Diverse Cymru.

Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2012) yn disgrifio sut mae iechyd meddwl yn llywio datblygiad cymdeithasol ac economaidd. Bydd y gyllideb iechyd meddwl gynyddol yn sicrhau bod Cymru ar flaen y gad wrth hybu iechyd meddwl da ac ymdrin â salwch meddwl pan fydd yn codi. Mae'r Strategaeth yn strategaeth drawslywodraethol integredig sy'n sicrhau bod iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach, fel tai, addysg a'r heddlu, yn cydweithio i gyflawni canlyniadau. Mae'n cynnwys plant ac yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCHR) o fewn y dull. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau gwelliant parhaus ac o ganlyniad mae ganddi gynlluniau cyflawni tair blynedd ar draws deng mlynedd, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ar gyfer y camau nesaf ar gyfer gwella, mae wedi ystyried y cynllun tair blynedd gyntaf ac mae'r canfyddiadau, ynghyd ag ymgysylltu arwyddocaol gan randdeiliaid, wedi llywio'r gwaith o ddrafftio'r cynllun cyflawni nesaf sy'n cwmpasu'r cyfnod 2016-19. Bydd y cynllun hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol rhwng Ionawr a Mawrth 2016 ac a gyhoeddir ym mis Mehefin 2016.

Caiff llawer o bobl â chyflwr iechyd meddwl eu hystyried yn anabl o dan ddiffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. Nod y strategaeth hon yw treiddio i ganol y broses o ymdrin ag anghydraddoldebau. Caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hystyried yn llawn mewn perthynas â'r Strategaeth a'i chynllun cyflawni a chaiff sylw arbennig ei dalu i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf e.e. y rhai sydd â dementia y mae angen clinigol iddynt gael asesiad yn eu hiaith gyntaf.

Bydd y buddsoddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddatblygiad economaidd hirdymor Cymru drwy greu swyddi arbenigol ac o ansawdd uchel o fewn y GIG. Bydd hefyd yn helpu tyfu'r gweithlu ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, disgwylir i'r gweithlu CAMHS gynyddu gan ddau draean o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn.

Yn fwy cyffredinol, bydd y buddsoddiad yn cefnogi'r gwaith o drechu tlodi drwy wella cyrhaeddiad addysgol ymhlith plant a phobl ifanc, sydd wrth wraidd y cynlluniau gwario. Dengys y dystiolaeth fod y cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed dros y blynyddoedd diwethaf (gyda chynnydd o dros 100% yn nifer yr atgyfeiriadau dros bedair blynedd) yn rhannol yn ymwneud â chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae £2m o gyllid yn cael ei dargedu at ddatblygu gwasanaethau i wneud diagnosis a thrin y

cyflyrau hyn a fydd yn arwain at fanteision uniongyrchol o ran cyrhaeddiad pobl ifanc, o ganlyniad i'r ffaith y gallant ymgysylltu'n llwyr ag addysg. Mae cyllid hefyd yn cael ei dargedu at bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, ac mae ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchar yn dangos fod gan y bobl yma lefel uwch o anghenion iechyd meddwl. Bydd sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu yn gynnar yn lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu ymhlith y grŵp hwn, gan hybu'r broses o'u hadsefydlu yn y gymdeithas.

Ar gyfer oedolion â phroblemau iechyd meddwl mae hyn yn cefnogi adfer pobl a'u chadw mewn gwaith os byddant yn datblygu problemau iechyd meddwl a'u galluogi i ymgysylltu â'r gweithlu eto wrth iddynt wella, sy'n cefnogi datblygiad economaidd yn yr un modd â chymorth ar gyfer eu gofalwyr er mwyn iddynt barhau o fewn y gweithle i leihau tlodi.

Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio ac o ganlyniad i hyn, bydd nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu. Mae gwella gwasanaethau ar gyfer y bobl sy'n dioddef dementia nid yn unig yn gwella ansawdd eu bywyd ond hefyd ansawdd bywyd yr aelodau teuluol hynny sy'n ysgwyddo'r baich o ofalu a thalu amdanynt, ac mae llawer o bobl yn rhoi'r gorau i weithio er mwyn cefnogi eu perthnasau. Mae hyn yn effeithio ar ansawdd eu bywydau eu hunain ac felly bydd buddsoddi mewn gwasanaethau newydd yn atal tlodi ymhlith y boblogaeth ehangach ac yn hybu blaenoriaethau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Gwelliant Parhaus**
Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn ein galluogi i fesur llwyddiant ein gwaith drwy amrywiaeth o fesurau canlyniadol, sy'n benodol i iechyd meddwl a dangosyddion mwy cyffredinol ar gyfer newid ehangach.

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

2 Tachwedd 2016

Annwyl Simon,

Ar 18 Hydref, gosodais Gyllideb Ddrafft 2017-18 Llywodraeth Cymru gerbron y Cynlluniad Cenedlaethol er mwyn iddo graffu ac ymgynghori arni. Fel rhan o becyn y Gyllideb, cyhoeddais ddogfen naratif y Gyllideb sy'n cynnwys cofnod strategol o gynlluniau Llywodraeth Cymru o ran gwariant, ynghyd â'r tablau o ddyraniadau'r Gyllideb ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant.

Yn dilyn adolygu'r dogfennau ar ôl eu cyhoeddi, rydyn ni wedi sylwi ar nifer prin o wallau trosi a/neu theipio yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o naratif y Gyllideb a'r tablau o ddyraniadau ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant. Effaith ar y cyflwyniad gaiff rhain yn bennaf. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at y newidiadau canlynol:

- Mae tabl newydd, tabl 8.4, wedi cael ei fewnosod yn Atodiad C i roi trosolwg o'r newidiadau strwythurol sydd wedi eu gwneud i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ers cyhoeddi Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17;

- Mae tablau 8.1 i 8.9 wedi cael eu hailrifo yn 9.1 i 9.9. Yn nhabl 9.1, dylai'r swm a drosglwyddwyd o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllido cynllun sgorio hylendid bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod yn £57,000 yn hytrach na £59,000. Mae'r newid hwn hefyd yn effeithio ar dablau 9.2 a 9.8.

I ategu'r gwaith o graffu ar ein cynlluniau rwyf wedi cyhoeddi fersiynau wedi'u diweddaru o'r dogfennau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau.

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Nghaerdydd
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams, AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

3 Tachwedd 2016

Annwyl Kirsty

**Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru**

Fel y byddwch yn ymwybodol, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Terfynol Adolygiad Diamond, cyfarfu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg â'r Athro Diamond i drafod yr adroddiad a'i argymhellion yn fanwl.

Croesawodd y Pwyllgor yn fawr y cyfarfod gyda'r Athro Diamond, gan fod hyn yn rhoi cyfle i glywed o lygad y ffynnon y meddylfryd y tu ôl i lawer o argymhellion yr adolygiad, ac i'r Athro Diamond ddarparu rhagor o wybodaeth ac ateb cwestiynau ar argymhellion penodol ac ar yr Adroddiad Terfynol yn ei gyfanrwydd.

Roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol i nodi'n ffurfiol farn a phryderon y Pwyllgor ar feysydd penodol o'r adolygiad cyn eich ymateb ffurfiol i'r Adroddiad Terfynol. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'n fawr eich ymateb i nifer o gwestiynau a nodir yn y llythyr hwn, lle'r ydym yn credu bod angen eglurder neu sicrwydd pellach. Bydd hyn yn helpu'r Pwyllgor o ran ei waith craffu parhaus ar argymhellion yr adolygiad.

**Pecyn o gymorth**

Mae'n amlwg bod yr Athro Diamond yn ystyried y dylai argymhellion yr adolygiad gael eu mabwysiadu fel pecyn, a fydd yn darparu:

- cymorth ar gyfer cyllido myfyrwyr a'r sector addysg uwch yng Nghymru;
- cymorth ar gyfer integreiddio ymchwil ac addysgu; a

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- chymorth i fyfyriwr unigol i "lifo" drwy wahanol agweddau ar addysg uwch. Gallent fod yn mynd i mewn i addysg uwch o'r ysgol, coleg, diweithdra neu gyflogaeth.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r argymhellion ar gyfer israddedigion amser llawn a hefyd yn croesawu'r argymhellion ar gyfer cymorth ar gyfer addysg uwch ôl-raddedig a rhan-amser. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r argymhellion gael eu gweithredu fel "pecyn" i helpu i alluogi myfyrwyr unigol i gael eu cefnogi'n ariannol trwy wahanol lefelau o addysg uwch, gan gynnwys o fewn addysg bellach.

Er mwyn cefnogi'r dull hwn, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r argymhellion yn adroddiad Diamond am gymorth Llywodraeth Cymru i raglenni addysg uwch a phrentisiaethau lefel uwch a gefnogir gan gyflogwyr. Mae hefyd yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i gyflwyno / datblygu system fwy "deinamig" rhwng addysg bellach ac uwch, gan ddefnyddio rhai o'r trefniadau presennol mwyaf llwyddiannus rhwng colegau a sefydliadau addysg uwch fel modelau posibl yn y dyfodol.

**Ffioedd israddedig amser llawn**

Dywedodd yr Athro Diamond wrth y Pwyllgor ei fod yn credu bod lefel y ffioedd ar gyfer cyrsiau israddedig amser llawn yn "weddol agos ati" i alluogi prifysgolion i weithredu'n effeithiol, ond y bydd angen i Lywodraeth Cymru "ystyried o ddifrif beth fydd y cyfraddau hyn yn y dyfodol".

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi gosod uchafswm y ffioedd ar gyfer cyrsiau israddedig ar gyfer 2017/18 yn £9,000 yf o'i gymharu â hyd at uchafswm o £9,250 y flwyddyn yn Lloegr (cynnydd chwyddiant). Fodd bynnag, mae rhai sylwebyddion wedi mynegi'r farn y bydd hyn yn rhoi'r sector addysg uwch yng Nghymru dan anfantais.

> *A allech chi nodi eich rhesymau dros osod lefel y ffioedd yn £9,000 y flwyddyn, ac amlinellu (a) ar ba lefel yr ydych yn bwriadu gosod ffioedd israddedig llawn amser yn y blynyddoedd i ddod; a (b) sut yr ydych yn bwriadu ymateb i newidiadau yn y dyfodol i ffioedd israddedig yn Lloegr.*

**Modelu ariannol a rhagolygon**

Mae'r Athro Diamond wedi cadarnhau bod y modelu ariannol o fewn yr adolygiad yn seiliedig i raddau helaeth ar yr uchafswm ffi o £9,000 a nifer y myfyrwyr ar hyn o bryd. Byddai cynnydd chwyddiant o 2 y cant yn costio £24 miliwn ychwanegol.

*A allwch gadarnhau pa orswm wrth gefn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gynnwys yn ei modelu ariannol i ystyried, er enghraifft: newid demograffig; cynyddu nifer y myfyrwyr ar bob lefel; a chynyddu'r uchafswm ffioedd? Yn ogystal, pa fodelu mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar nifer y myfyrwyr Ewropeaidd a rhyngwladol yn y dyfodol?*

**Cyffredinoliaeth Gynyddol**

Mae'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad yr adolygiad i roi grant cynhaliaeth o £1,000 yf i bob myfyriwr israddedig amser llawn waeth beth yw incwm yr aelwyd. Dywedodd yr Athro Diamond wrth y Pwyllgor fod yr argymhelliad wedi'i wneud yn ysbryd cyffredinoliaeth gynyddol, sydd wedi bod yn rhan o bolisi Llywodraeth Cymru ers peth amser.

*A ydych yn cytuno ag egwyddorion cynigion yr Athro Diamond ar gyfer "cyffredinoliaeth gynyddol", ac a ydych yn bwriadu derbyn yr argymhelliad i roi grant cynhaliaeth o £1,000 yf i bob myfyriwr israddedig amser llawn?*

**Cost y cynigion**

Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fyddai'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn niwtral o ran cost, fel yr amlinellwyd. Codwyd rhai cwestiynau hefyd ynghylch cylch gorchwyl yr adolygiad yn ymwneud â 'chostau'.

*A allech egluro:*

- *A ofynnwyd i'r Athro Diamond i wneud argymhellion “niwtral o ran cost”?*
- *P'un a y newidiwyd y gofyniad hwn yn ystod yr Adolygiad?*
- *A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud arbedion ariannol o bolisi newydd o'i gymharu â'r polisi blaenorol, gan gynnwys y Grant Ffioedd Dysgu?*

**Caffael sgiliau lefel uwch a dilyniant**

Dywedodd yr Athro Diamond wrth y Pwyllgor ei fod "yn angerddol am sicrhau bod ystod eang o sgiliau ar gael", gan gynnwys prentisiaethau lefel uwch. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn adolygu:

- "llif" a dilyniant myfyrwyr trwy addysg cyn ac ôl-16, yn enwedig ar gyfer y bobl ifanc hynny nad ydynt yn dewis llwybr academaidd traddodiadol.
- Argaeledd cyngor gyrfaoedd **annibynnol**, yn arbennig ym mlynyddoedd 9 ac 11, yn enwedig ar gyfer y bobl ifanc hynny a allai elwa mwy o lwybr galwedigaethol yn hytrach na llwybr academaidd ond eu dymuniad o hyd yw ennill sgiliau lefel uwch.

**Cymorth ychwanegol i grwpiau sy'n agored i niwed**

Mae'r Adroddiad yn cydnabod bod myfyrwyr ag anabledd yn wynebu heriau penodol wrth gwblhau cwrs addysg uwch yn llwyddiannus, ac yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi i ystyried pa gymorth pellach y gellir ei gynnig. Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n llwyr â hyn, ac yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Thrysorlys EM yn hyn o beth.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r argymhelliad y dylai pobl sydd â phrofiad o ofal dderbyn yr uchafswm o ran Grant Cynhaliaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y dylai grwpiau eraill sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad o'r system gofal, gael eu hystyried hefyd yn flaenoriaeth ar gyfer cymorth ychwanegol, ac yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i archwilio sut y gellir symud hyn ymlaen.

**Mwy o Alw**

Gallai'r gwaith o weithredu'r system newydd gynyddu'r galw o fewn y lleoliadau Addysg Uwch. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith y cynigion ar staff addysg uwch, yn enwedig llwyth gwaith y staff presennol a chyflenwad posibl o ddarlithwyr newydd, yn ôl yr angen.

**Cymhelliant i annog graddedigion i ddychwelyd i Gymru**

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo argymhellion yr Athro Diamond am gymell graddedigion i ddychwelyd i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr adroddiad yn cyfeirio at ganslo benthyciad fel un dull o gymell, ond yn awgrymu y dylai dulliau eraill, megis "taliadau croeso" gael eu harchwilio, yn enwedig os "yw canslo benthyciad yn rhannol" yn rhywbeth fydd yn anodd i'w drefnu yn gyflym.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ystyried ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i argymhellion Diamond. Unwaith y bydd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi, byddem yn croesawu'r cyfle i drafod hyn ymhellach gyda chi yn y Pwyllgor.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George, AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

**Cc Russell George, AC**
**Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon